**Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol** | diogelu cleifion, rheoleiddio'r tîm deintyddol

Gwiriwch fod eich gweithiwr proffesiynol deintyddol wedi'i gofrestru:
**www.gdc-uk.org**

Rydyn ni eisiau sicrhau bod ein holl wasanaethau yn hygyrch i bawb.

Os hoffech gael copi o'r adroddiad hwn mewn iaith neu fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print bras neu sain, cysylltwch â ni.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael i Lawrlwytho o'n gwefan.

**CYNGOR DENTAL CYFFREDINOL**
37 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ
020 7167 6000
gwybodaeth@gdc-uk.org
**www.gdc-uk.org**

CCS - CCS0518754490
978-1-5286-0478-9

Cyngor Deintyddol Cyffredinol Adroddiad Blynyddol 2017

**Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol** | diogelu cleifion, rheoleiddio'r tîm deintyddol

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon

2017

# Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2017

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i'r Senedd yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynwyd y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Diwygio) 2005 Deddf Deintyddion 1984, Gorchymyn 2008 Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol ac ati) a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynwyd y cyfrifon i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Diwygio) 2005 Deddf Deintyddion 1984, Gorchymyn 2008 Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol ac ati) a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Gorchmynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar
**20 Mehefin 2018**

SG/2018/24

HC 1080

© Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (2018)

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim (heblaw am logos yr Arfau Brenhinol, lle maent yn bresennol, a logos pob adran ac asiantaeth) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod mai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol sydd â'r hawlfraint i'r deunydd a dylid nodi teitl y ddogfen. Pan nodir deunydd trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd y deilydd hawlfraint priodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn, dylech anfon e-bost i information@gdc-uk.org neu ffonio 020 7167 6000.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

ISBN-978-1-5286-0478-9
CCS-CCS0518754490 06/2018

Argraffwyd yn y DU gan yr APS Group ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Dyluniwyd gan Navig8 www.navig8.co.uk

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibrau wedi'u hailgylchu.

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Diben statudol | **4** |
| 2 | Neges gan y Cadeirydd | **6** |
| 3 | Neges gan y Prif Weithredwr | **8** |
| 4 | Uchafbwyntiau 2017 | **10** |
| 5 | Adolygiad Busnes 2017 | **14** |
| 6 | Adroddiad ystadegol a pherfformiad | **16** |
| 7 | Strwythur y Cyngor a'r pwyllgorau | **50** |
| 8 | Adroddiad ar dâl | **55** |
| 9 | Adroddiad cyfrifoldeb cymdeithasol | **59** |
| 10 | Adolygiad ariannol | **62** |
| 11 | Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr | **66** |
| 12 | Datganiad llywodraethu | **67** |
| 13 | Cyfrifon 2017 | **74** |
| 14 | Adroddiad yr archwilydd annibynnol | **75** |
| 15 | Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd | **77** |
| 16 | Cyfrif incwm a gwariant | **80** |
| 17 | Datganiad o'r sefyllfa ariannol | **82** |
| 18 | Datganiad llif arian | **84** |
| 19 | Datganid o newidiadau mewn cronfeyddwrth gefn | **86** |
| 20 | Nodiadau i'r Cyfrifon | **88** |
| 21 | Cynghorwyr | **109** |

# 1 Diben statudol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw rheoleiddiwr statudol 111,000 o aelodau'r tîm deintyddol ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys tua 42,000 o ddeintyddion a 69,000 o weithwyr gofal deintyddol proffesiynol (DCPs) sy'n cynnwys nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol, hylenyddion deintyddol, technegwyr deintyddol, therapyddion deintyddol a therapyddion orthodontig.

## Ein diben:

Rydym am i gleifion a'r cyhoedd fod yn ffyddiog bod y driniaeth a dderbyniant yn cael ei darparu gan weithiwr deintyddol proffesiynol cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac sy'n bodloni ein safonau. Os oes yna bryderon ynglŷn ag ansawdd y gofal neu driniaeth neu ymddygiad gweithiwr deintyddol proffesiynol, byddwn yn ymchwilio ac yn cymryd camau gweithredu os yn briodol.

## Mae ein deddfwriaeth, Deddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi'r amcanion canlynol:

- Diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd;
- Hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a reoleiddir;
- Hyrwyddo a chynnal ymddygiad a safonau proffesiynol priodol ymhlith aelodau'r proffesiynau hynny.

## Rydym yn cyflawni ein rôl trwy ddefnyddio ein pwerau statudol i

- gofrestru'r gweithwyr deintyddol proffesiynol hynny sy'n bodloni ei gofynion mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant, iechyd a chymeriad da. Dim ond y rhai sydd wedi cofrestru gyda ni sy'n gallu ymarfer deintyddiaeth yn y DU
- sicrhau ansawdd hyfforddiant cyn cofrestru fel deintydd
- pennu safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer y tîm deintyddol
- ymchwilio i gwynion yn erbyn gweithwyr deintyddol proffesiynol a lle bo'n briodol, cymryd camau gweithredu drwy ein proses Addasrwydd i Ymarfer
- amddiffyn y cyhoedd rhag unigolion sy'n ymarfer deintyddiaeth heb gofrestru
- ei gwneud hi'n ofynnol i weithwyr deintyddol proffesiynol barhau i ddiweddaru eu sgiliau trwy ein gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Yn ogystal, rydym yn darparu'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol sy'n ceisio helpu cleifion a gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddefnyddio proses gyfryngu i ddatrys cwynion ynglŷn â gofal deintyddol preifat.



**Wrth wneud hynny, rydym yn ceisio dangos ein gwerthoedd, sef:**

## Tegwch:

Byddwn yn trin pawb yn deg.

## Tryloywder:

Rydym yn agored ynglŷn â sut rydym yn gweithio a sut rydym yn gwneud penderfyniadau.

## Ymatebolrwydd:

Rydym yn gallu addasu i amgylchiadau sy'n newid.

## Parch:

Rydym yn trin gweithwyr deintyddol proffesiynol, ein cleifion, y cyhoedd, ein partneriaid a'n gweithwyr cyflogedig â pharch.

# 2 Neges gan y Cadeirydd



Yn 2017 dechreuais fy ail dymor fel Cadeirydd y Cyngor ac, rwy'n falch o ddweud, tymor lle gwelwyd newid mewn ffocws ar flaenoriaethau i'r sefydliad: o ddatrys materion gweithredol i sefydlu ei hun fel rheoleiddiwr cymesur y mae gan gleifion, y cyhoedd a gweithwyr deintyddol proffesiynol hyder ynddo.

Pan gefais fy mhenodi yn 2013, roedd hi'n amlwg bod gan y sefydliad lawer o waith i'w wneud, i ddatrys y problemau a oedd yn effeithio ar ei berfformiad ac yn ei atal rhag cyflawni'r safonau amddiffyn cleifion uchel y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol heddiw yn sefydliad gwahanol iawn i'r un yr ymunais ag ef bum mlynedd yn ôl. Mae yna strwythur rheoli newydd a phrosesau newydd, mesurau rheoli mwy llym a dulliau gwaith mwy effeithiol. Mae'n fwy tryloyw hefyd, ac mae llawer o waith wedi'i wneud i gyrraedd ein rhanddeiliaid allweddol ac ymgysylltu â nhw. Yn galonogol, mae'r rhanddeiliaid hyn wedi croesawu maint a chyflymder y newid i raddau helaeth ac wedi croesawu cyfeiriad newydd y sefydliad.

Mae hyn wedi'i gyflawni'n bennaf drwy ymdrechion aelodau'r Cyngor a'r staff ac rwy'n ddiolchgar i bob un ohonynt am yr amser a'r ymroddiad maent wedi'u rhoi i sicrhau'r newidiadau hyn. Dydy hi ddim wedi bod yn hawdd, ac rwy'n wirioneddol ddiolchgar i bawb a gyfrannodd.

Ond allwn ni ddim llaesu dwylo. Mae yna lawer mwy i'w wneud a gyda'r sefydliad bellach ar sylfaen cadarnach a mwy cynaliadwy, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio'n sylw ar gyflawni. Yn hanfodol, rwy'n credu y dylem wneud mwy i ymgysylltu â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau deintyddol a chyda'r gweithwyr deintyddol proffesiynol a reoleiddiwn. Rwyf wedi dweud yn gyson fy mod am i drefn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol amddiffyn cleifion a bod yn deg i weithwyr cofrestredig. Mae hyn yn dal i fod yn uchelgais i'r Cyngor.

Rydym wedi cymryd camau breision tuag at y nod hwn ond er mwyn ei gyflawni'n llwyr mae'n rhaid i ni newid y ffordd rydym yn rheoleiddio. Gwyddom yn iawn beth sydd angen ei wneud. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddwyd dogfen drafod Shifting the balance: a better, fairer system of dental regulation. Roedd hon yn cyflwyno'n gweledigaeth o system reoleiddio ger y ffynhonnell, lle mae materion yn cael sylw yn y lle cywir, gan ddarparu'r canlyniadau cywir i gleifion a'r cyhoedd, ar y gost gywir ac o fewn amserlen dderbyniol. Yn gryno, system sy'n symud y ffocws o orfodi i atal.

Roedd y ddogfen yn ganlyniad i waith ymgynghori eang â llawer o'r grwpiau ac unigolion sydd â budd mewn rheoleiddio deintyddol. Ei nod oedd sbarduno trafodaeth gyhoeddus ehangach am ddyfodol rheoleiddio deintyddol, i'n helpu ni i fireinio a llywio'n cynigion. Gydol 2017 parhawyd i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol a'u cyrff cynrychioli, grwpiau cleifion, rheoleiddwyr, llunwyr polisïau ac eraill, i gyfnewid sylwadau a rhannu trafodaeth. Ar ddiwedd y flwyddyn, cyhoeddwyd ein hymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd gan bawb a gyfrannodd at y drafodaeth.

Cawsom ein synnu gan lefel a safon yr ymateb i'r cynigion a gyflwynwyd gennym. Cyflwynodd nifer o gymdeithasau proffesiynol a oedd yn cynrychioli deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol adborth defnyddiol ac roedd yna gefnogaeth gadarn i'n bwriad i newid ffocws ein hymagwedd at Addasrwydd i Ymarfer. Mynegodd sawl un barodrwydd i gymryd rhan mewn gwaith i lywio'n cynigion ymhellach ac rydym yn croesawu hyn yn fawr.

Rydym nawr yn cyflwyno rhai o'r cynigion hyn, ac yn dechrau esblygu'n dull o reoleiddio. Dylai fod yn amlwg fod pob agwedd ar ein gwaith yn seiliedig ar yr athroniaeth o atal yn hytrach na chosbi. Er enghraifft, ym mis Ionawr 2018, cyflwynwyd system o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus uwch i ddeintyddion. Mae hwn yn symud ffocws DPP o gwblhau nifer penodol o oriau o ddatblygiad proffesiynol bob blwyddyn, tuag at roi rhyddid i ddeintyddion bennu a chyfeirio eu hanghenion datblygu eu hunain yn ôl eu meysydd ymarfer. Bydd y dull hwn yn cael ei gyflwyno i weithwyr deintyddol proffesiynol eraill o fis Awst 2018.

Ein dyhead yw y bydd gweithwyr deintyddol proffesiynol a thimau deintyddol yn myfyrio ar eu hymarfer unigol a chyfunol, gan nodi meysydd o wendid neu feysydd lle mae newidiadau mewn technoleg neu ymarfer yn dangos bod yna anghenion datblygu, ac yn cynllunio eu rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus uwch i ddiwallu'r rhain.

Rydym wedi cyflawni ymrwymiad hefyd i ymgynghori ar ein polisi pennu ffioedd; ac yn symud ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu fframwaith newydd, yn dilyn ystyried a myfyrio ar yr ymatebion a dderbyniwyd.

Felly, rydym yn gwneud cynnydd, ond ni all newid trawsnewidiol o'r natur hwn ddigwydd dros nos. Mae'n rhaid i ni fuddsoddi'r amser a'r ymdrech sylweddol sydd eu hangen i sicrhau ein bod ni'n ei gael yn iawn, er lles cleifion a'r gweithwyr proffesiynol a reoleiddiwn. Mae'n bwysig hefyd cydnabod na all y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wneud hyn ar ei ben ei hun. Rydym yn cynnig system reoleiddio fwy cydweithredol, felly mae llawer o'n cynigion yn gofyn am arweiniad gan eraill, yn cynnwys y proffesiynau, i sicrhau llwyddiant. Fodd bynnag, byddwn yn darparu cefnogaeth ar gyfer yr arweiniad hwnnw wrth gwrs.

Wrth i waith barhau gyda Shifting the balance, rydym yn aros am ganlyniad ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gynigion i ddiwygio'r system rheoleiddio iechyd gyfredol yn gyffredinol. Mae angen gwneud hyn ers blynyddoedd lawer ac mae i'w groesawu. Mae nifer o'r cynigion a nodwyd yn ehangu ac yn ategu'r fframwaith rydym yn ei hyrwyddo yn Shifting the balance, ac mae hyn yn galonogol. Byddwn yn gwylio â diddordeb i weld sut mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, yn absenoldeb cynlluniau deddfwriaethol cadarn, mae angen i ni weithio o fewn y ddeddfwriaeth gyfredol i gyflwyno newidiadau mawr eu hangen i'r system a dyna fyddwn ni'n ei wneud.

Rydym nawr o fewn llai na blwyddyn i adael yr UE. Ers i'r DU bleidleisio dros adael yr UE ym mis Mehefin 2016, mae'r wlad wedi gweld llawer o ddigwyddiadau na ellid fod wedi'u rhagweld, ac mae'r ansicrwydd yn parhau. Ar y pwynt hwn, ni all yr un ohonom fod yn siŵr beth fydd gadael yr UE yn ei olygu i'n bywydau bob dydd, i ofal iechyd yn gyffredinol a rheoleiddio yn arbennig. Beth bynnag a ddaw, rwy'n hyderus bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol nawr mewn sefyllfa gryfach. Mae mewn sefyllfa dda i wynebu unrhyw heriau sydd o'n blaenau.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r pum aelod y daeth eu tymor yn eu swydd i ben yn ystod y flwyddyn. Yn ystod eu cyfnod, cyflwynwyd mwy o newidiadau i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol nag mewn unrhyw adeg arall yn eu hanes mae'n siŵr. Rwy'n ddiolchgar iawn am gyfraniad y cydweithwyr hyn. Rydym hefyd wedi croesawu pum aelod newydd i'r Cyngor. Rwy'n credu y bydd cyflymder y newid yn y Cyngor hyd yn oed yn gyflymach a mwy radical yn ystod y cyfnod newydd hwn. Edrychaf ymlaen at arwain y Cyngor drwy'r newid hwn.

**Dr William Moyes**
Cadeirydd

# 3 Neges gan y Prif Weithredwr



Gwnaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gynnydd sylweddol yn 2017 tuag at gyflawni'r amcanion strategol a nodwyd yn ein rhaglen fapio tair blynedd Cleifion, Gweithwyr Proffesiynol, Partneriaid a Pherfformiad.

Llwyddwyd i wella'n perfformiad ymhellach yn adolygiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) yn 2017, gan gyflawni 23 o'r 24 safon a bennwyd. Fodd bynnag, nid da lle gwellir gwell. Mae gan y Cyngor lawer iawn o waith i'w wneud i sicrhau bod gwaith achos yn cael ei gyflawni'n foddhaol ac yn brydlon mewn modd sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor.

Serch hynny, yn 2017 rydym wedi gallu edrych y tu hwnt i'r materion hyn ac ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer system reoleiddio ddeintyddol newydd a gwell. Yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd y ddogfen drafod Shifting the balance, a oedd yn nodi'n gweledigaeth ar gyfer dull rheoleiddio newydd. Credwn fod moderneiddio'r system gyfredol o fudd i gleifion a gweithwyr proffesiynol ac rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu ein cynigion a'u mireinio yn sgil yr adborth a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd.

Mae gwaith yn cael ei wneud i'n galluogi ni i ddatblygu system o reoleiddio 'llygad y ffynnon', sy'n ymdrin â materion yn y lle iawn a'r amser iawn, gyda'r achosion mwyaf difrifol yn unig yn mynd i ymchwiliad Addasrwydd i Ymarfer. Bydd hyn yn fwy cymesur, ac yn ein galluogi i fod yn fwy cost-effeithiol yn yr hirdymor.

Addasrwydd i Ymarfer yw ein cost fwyaf o hyd, gan gyfrif am 69% o'n gwariant yn 2017 (2016: 72%), ond mae'n parhau'n uwch nag yr hoffen iddo fod ac rydym yn parhau i edrych ar ffyrdd o wella'r broses, gan ddal i ymateb a chanolbwyntio ar amddiffyn y cyhoedd yr un pryd. Ar ddiwedd 2016, daeth archwilwyr achosion i gymryd lle'r Pwyllgor Ymchwilio ac arweiniodd hyn at ostyngiad yn nifer yr achosion a aeth ymlaen i wrandawiadau terfynol yn 2017, o 45% i 31%, gan leihau costau hefyd.

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd adolygiad cynhwysfawr o'r broses Addasrwydd i Ymarfer gyfredol hefyd ac edrychwyd yn fanwl ar sut y gellid ei symleiddio ymhellach. I'r diben hwn, cynhaliwyd gweithdai gyda rhanddeiliaid allweddol ledled y proffesiwn: grwpiau proffesiynol, gweithwyr cofrestredig a grwpiau cleifion. Comisiynwyd archwiliad annibynnol hefyd i achosion a ddewiswyd ar hap i asesu ansawdd ein hymchwiliadau. Bydd y gwersi a fydd yn cael eu dysgu o'r gwaith hwn yn amhrisiadwy i ad-drefnu'r broses i helpu i gyflawni canlyniadau gwell o fewn amser byrrach. Disgwyliwn wneud cynnydd sylweddol ar y prosiect hwn yn 2018.

Rydym yn cydnabod bod rhai cwynion yn cyrraedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a fyddai'n fwy addas i gael eu datrys drwy fecanwaith arall. Gall hyn achosi straen i weithwyr cofrestredig, rhwystredigaeth i gleifion a gall lyncu amser yn ddiangen i staff y Cyngor, sy'n gorfod eu prosesu. Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio gyda chleifion, gweithwyr deintyddol proffesiynol a rhanddeiliaid i ddatblygu mecanwaith 'hunan-hidlo' ar-lein, sy'n cyfeirio cleifion tuag at lwybrau datrys mwy effeithiol, os yw hynny'n briodol. Mae dros 500 o

bobl wedi defnyddio'r adnodd hwn ers Medi 2017, felly mae'n amlwg ei fod yn cyfrannu at gyfeiriad mwy effeithiol o ymdrin â chwynion.

Gall cleifion preifat sydd â chwyn ei chodi gyda'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol. Gwasanaeth diduedd yw hwn a ddarperir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, sy'n cael ei ganmol gan aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ei ddefnyddio. Yn 2017, cynhaliwyd adolygiad gweithredol o'r gwasanaeth a byddwn yn gwneud newidiadau yn 2018 i hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd. Bydd hyn yn cynnwys symud y gwasanaeth o'i leoliad cyfredol yn Croydon i'n swyddfeydd yn Wimpole Street.

Bydd sicrhau gwerth am arian bob amser yn ganolog i'n penderfyniadau gweithredol. Mae adeilad ein pencadlys wedi'i ddiogelu ar delerau ffafriol iawn. Fodd bynnag, rydym yn ad-drefnu'n hystâd i sicrhau gwerth gorau am arian, gan na ellir cyfiawnhau'r gost o rentu gofod swyddfa ychwanegol yng nghanol Llundain mwyach.

Rydym felly wedi penderfynu symud rhai o swyddogaethau'r Cyngor i Birmingham. Bydd hyn yn cynnwys tua 200 o swyddi ym maes Cofrestru a gwasanaethau cymorth gweithredol. Bydd pencadlys y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn aros yn Llundain. Fel rhan o'r strategaeth ad-drefnu ystadau hon byddwn yn lleoli'n cyfleusterau gwrandawiadau yn swyddfeydd Wimple Street, sydd â phrydles rad. Bydd yr ad-drefnu yn ein galluogi i leihau'n hystâd o bedwar safle yn Llundain, i ddau safle gyda dim ond un yn Llundain ac un yn Birmingham. Bydd hyn yn ein galluogi i leihau costau llety ac i gystadlu'n fwy effeithiol mewn marchnadoedd llafur lleol.

Bydd y symud yn digwydd yn raddol, gan ddechrau diwedd 2018, a bydd yn cael ei amseru er mwyn sicrhau ei fod yn tarfu cyn lleied â phosibl ar weithgarwch craidd.

Gydol 2017 mae'r gwaith i wella effeithlonrwydd wedi parhau. Rydym yn dal i chwilio am arbedion busnes a'u cyflawni – ac er ein bod wedi mynd i'r afael â phwysau yr oeddem yn eu hwynebu o ran adnoddau yn 2016, mae amrywiadau yn ein perfformiad gwaith achosion yn golygu nad yw'n sefyllfa ariannol mor sefydlog ag yr hoffem ei weld eto. O ganlyniad, roedd ein gwariant ar ddiwedd blwyddyn £7.1 miliwn yn is na'r gyllideb. Rydym yn gweithio i ddeall y ffactorau manwl sy'n rheoli costau ein gweithgareddau'n well ac i wella'n gallu i ragweld a rheoli gwariant a gyllidebwyd. Bydd mynd i'r afael â hyn yn flaenoriaeth yn y flwyddyn i ddod.

Bydd hon yn flwyddyn arall o newidiadau a gwelliannau i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Byddwn yn parhau i adolygu'n gweithrediadau lle bo angen; a byddwn yn edrych tuag allan fwyfwy wrth i ni ehangu a chryfhau ein cysylltiadau â rhanddeiliaid, i'n galluogi ni i barhau i osod y sylfeini ar gyfer dull rheoleiddio newydd a mwy cydweithredol.

**Ian Brack**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

4

# 4 Uchafbwyntiau 2017

2017 oedd ail flwyddyn ein strategaeth gorfforaethol tair blynedd, Cleifion, Gweithwyr Proffesiynol, Partneriaid a Pherfformiad. Yn y strategaeth rydym yn ymrwymo i:

### grymuso

cleifion i wneud dewisiadau gwybodus am y gofal a dderbyniant

### gweithio'n agos

â gweithwyr deintyddol proffesiynol i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a defnyddio dulliau cydweithredol o fynd i'r afael â nhw

### gweithio gyda phartneriaid

i amddiffyn cleifion a gwneud rheoleiddio deintyddol yn fwy effeithiol

### ymdrechu

i fod yn rheoleiddiwr cymesur sy'n cyflawni'n rhagorol, ac sy'n ennyn hyder ymhlith cleifion, y cyhoedd a gweithwyr deintyddol proffesiynol.

Gellir categoreiddio'n gwaith yn 2017 yn fras fel:

- ysgogi gwelliannau mewn rheoleiddio deintyddol
- gwella ein perfformiad cyffredinol
- parhau i ddatblygu sefydliad cost-effeithiol ac effeithlon.

Yn 2017, cyhoeddwyd ein papur Shifting the balance hefyd. Roedd hwn yn cyflwyno'n cynlluniau i wella rheoleiddio deintyddol, er budd cleifion a gweithwyr proffesiynol. Mae'r cynigion yn cynnwys: symud yn nes at lygad y ffynnon, o orfodi i atal; creu partneriaethau gwell i wella gallu i ddatrys cwynion haen gyntaf; a chydweithio mwy â phartneriaid. Roedd Shifting the balance hefyd yn ymrwymo'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o brosesau Addasrwydd i Ymarfer i nodi ffyrdd o wneud y prosesau hynny'n fwy cymesur ac effeithlon, a'u defnyddio i hyrwyddo dysgu. Bydd yr adolygiad hwn yn parhau gydol 2018.

## Cynllun busnes 2017: crynodeb o gyflawniadau

Mae'r cynllun busnes yn cyd-fynd â'r amcanion a nodwyd yn y strategaeth. Mae'r adolygiad isod yn amlinellu cynnydd allweddol yn erbyn pob amcan.

## Cleifion

*Byddwn yn rhoi diogelwch cleifion a'r cyhoedd yn ganolog i bopeth a wnawn ac yn defnyddio ein pwerau i gynnal safonau gofal deintyddol yn y DU a'u gwella os oes angen.*

- Fe wnaethom lansio ein hadolygiad Addasrwydd i Ymarfer cynhwysfawr, gan gynnal gweithdai gyda chleifion a gweithwyr cofrestredig ledled y proffesiwn i gael dealltwriaeth o sut mae'r broses yn gweithio a nodi gwelliannau.
- Mae adborth gan grwpiau cleifion a gweithwyr cofrestredig yn nodi bod y broses Addasrwydd i Ymarfer yn rhy hir ac yn achosi gormod o straen. Byddwn yn llunio'r broses newydd dros y flwyddyn nesaf i ddarparu proses gadarnach a symlach sy'n cynnwys adborth cleifion a gweithwyr cofrestredig.
- Cyflwynwyd proses newydd i hwyluso gorchmynion interim, yn cynnwys proses newydd yn y cam brysbennu. Drwy'r broses hon gellir atgyfeirio achos at gyfreithiwr brysbennu cynorthwyol i ystyried gorchmynion interim ar ddyddiad cynharach o fewn yr achos.
- Penodwyd tîm mewnol o gynghorwyr deintyddol clinigol i gyflymu'r broses Addasrwydd i Ymarfer gyffredinol a gwella amseroedd cwblhau achosion. Roedd hyn yn cymryd lle gorfod gofyn am gyngor clinigol allanol ar bob achos.
- Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn cyfrannu at gefnogi gweithwyr cofrestredig i gynnal y Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol ac at amddiffyn cleifion. Lansiwyd y cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus uwch, gyda diwygiadau i'r rheolau i gyd-fynd ag ef a chanllawiau cyhoeddedig i'w gefnogi. Y prif newidiadau i'r cynllun yw:
    - y gofyniad i bob gweithiwr deintyddol proffesiynol gael Cynllun Datblygu Personol
    - cynnydd yn nifer yr oriau dilysadwy ar gyfer y teitlau mwyaf proffesiynol a'r gofyniad i wasgaru'r oriau'n fwy cyfartal ar draws y cylch pum mlynedd
    - nid oes rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol ddatgan DPP annilysadwy i'r Cyngor mwyach
    - y gofyniad i gyflwyno datganiad blynyddol o oriau DPP a gwblhawyd, hyd yn oed os nad oes oriau wedi'u cwblhau am y flwyddyn honno
    - y gofyniad i gysoni gweithgarwch DPP gyda chanlyniadau datblygu penodol

- y gofyniad i weithwyr proffesiynol gynllunio gweithgarwch DPP yn ôl eu 'maes(meysydd) ymarfer' unigol
- Cyflwynwyd ffurflen newydd ar ein gwefan hefyd i'w gwneud hi mor hawdd â phosibl i bobl gysylltu â ni. Mae pob cwyn a gyflwynir ar ffurflen ar y we yn mynd i'n Tîm Cygnor a Gwybodaeth i Gwsmeriaid. Mae'r un pwynt mynediad hwn yn sicrhau ein bod ni'n ymdrin ag ymholiadau mor fuan ac mewn modd mor gymesur â phosibl. Mae hyn yn cynnwys proses i hidlo ymholiadau sydd y tu allan i'n cylch gwaith a chyfeirio achwynwyr i sefydliadau eraill a all eu cynorthwyo.

## Gweithwyr proffesiynol

*Byddwn yn cefnogi gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddarparu gofal deintyddol o ansawdd da. Byddwn yn gweithio'n agos â'r proffeswin i nodi a llunio atebion i faterion sy'n destun pryder mwyaf i gleifion.*

- Sefydlwyd un broses ar gyfer ymdrin â chwynion corfforaethol i sicrhau ein bod ni'n dysgu gwersi ac yn gwella'n perfformiad drwy adrodd yn gynhwysfawr.
- Comisiynwyd Penningtons Manches LLP i gynnal archwiliad annibynnol i adolygu detholiad o achosion ar hap o'r broses Addasrwydd i Ymarfer. Y nod oedd sicrhau bod achosion yn cael eu hystyried yn briodol, yn unol â'n hegwyddorion craidd o degwch a pharch, ac er lles y cyhoedd, yn cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn gadarnhaol.

## Partneriaid

*Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y sector deintyddol i ddiogelu cleifion a gwneud system reoleiddio ddeintyddol y DU yn fwy effeithiol.*

- Cyhoeddwyd Shifting the balance, papur trafod o bwys ar y pecyn o fesurau diwygio ar gyfer rheoleiddio deintyddol ac ymgysylltu'n eang â phartneriaid a rhanddeiliaid i lywio'n rhaglen waith.
- Yn dilyn ymgynghoriad, lluniwyd rhaglen waith i weithredu'r diwygiadau hyn, gyda chyfeiriad clir ar gyfer 2018 a thu hwnt.
- Lansiwyd ein Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan adeiladu ar ein gwaith partneriaeth gyda Buddsoddwr y DU mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a'r cyd-grŵp o Reoleiddwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.



## Perfformiad

*Byddwn yn parhau i ymdrechu i fod yn rheoleiddiwr cymesur sy'n perfformio i safon uchel y mae gan gleifion, y cyhoedd a gweithwyr deintyddol yn ymddiried ynddo.*

Cyflawnwyd

23

o'r 24 safon yn ein hadolygiad perfformiad diweddaraf gan y PSA, gan ennill dwy safon ychwanegol ers ein hadolygiad blaenorol.

Llwyddwyd i recriwtio aelodau newydd y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau cymeradwyaeth y PSA i'r broses a chymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor i'r penodiadau.

Llwyddwyd i wella'n gwasanaethau cymorth i dystion drwy symleiddio prosesau i'w gwneud yn fwy effeithlon i dystion, swyddogion cymorth tystion a thimau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Cynhaliwyd adolygiad gweithredol o'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol a chyflwynwyd gwelliannau. Roedd y rhain yn cynnwys: diweddaru ein holl lythyrau a'n gweithdrefnau gweithredu safonol; gwella'r broses adrodd i'w chysoni â systemau adrodd corfforaethol, datblygu proses i gynorthwyo cleifion y GIG a gweithredu proses i reoli atgyfeiriadau Addasrwydd i Ymarfer posibl yn well.

Mae'r Tîm Cyngor a Gwybodaeth i Gwsmeriaid wedi gwella ei drefniadau adrodd, sy'n golygu ein bod yn gallu rhannu dealltwriaeth ledled y sefydliad ac ystyried y rhain wrth ddatblygu ffyrdd newydd o weithio.

# 5 Adolygiad busnes 2017

## Pwy ydyn ni

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn rheoleiddio ym maes gofal iechyd ledled y DU, gyda chylch gwaith sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n cael ei oruchwylio gan Gyngor o 12 o aelodau sy'n cynnwys chwe aelod lleyg a chwe gweithiwr deintyddol proffesiynol.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein gwaith – Deddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd) – yn pennu'r amcanion canlynol: diogelu'r cyhoedd, hyrwyddo a chynnal hyder yn y proffesiwn deintyddol a hyrwyddo a chynnal ymddygiad a safonau proffesiynol priodol ymhlith aelodau'r proffesiynau hynny.

Rydym yn cynnal y cofrestri proffesiynol fel y gall cleifion a'r cyhoedd fod yn ffyddiog bod y driniaeth a dderbyniant yn cael ei darparu gan ddeintydd neu weithiwr deintyddol proffesiynol cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar y sgiliau technegol a phersonol angenrheidiol.

Rydym ni hefyd yn pennu safonau ar gyfer darparwyr hyfforddiant deintyddol cyn cofrestru (ac yn gweithio tuag at system sicrhau ansawdd ar gyfer hyfforddiant arbenigol), yn ymchwilio i gwynion yn erbyn gweithwyr deintyddol proffesiynol ac yn cymryd camau cymesur trwy ein proses addasrwydd i ymarfer.

Mae'r sefydliad yn cael ei oruchwylio gan Gadeirydd a Chyngor anweithredol (gweler adran 7 am ragor o wybodaeth).

Mae gennym bedair cyfarwyddiaeth dan arweiniad cyfarwyddwyr oedd yn aelodau o'r Tîm Rheoli Gweithredol.


Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gyfrifol am:

- weithredu'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor
- paratoi cynllun busnes a chyllideb flynyddol;
- darparu adroddiadau rheoli rheolaidd i'r Cyngor, a sicrhau bod adroddiadau priodol yn cael eu darparu i bwyllgorau'r Cyngor ar faterion sydd o fewn eu cylch gwaith
- nodi ac adrodd ar risgiau strategol i'r Cyngor a sicrhau bod perchnogaeth pob risg yn cael ei dyrannu ar y lefel briodol gydag atebolrwydd clir
- adolygu ac adrodd ar agweddau eraill ar y model llywodraethu.

Y cyfarwyddiaethau oedd: Datblygiad Sefydliadol; Cofrestru ac Adnoddau Corfforaethol; Addasrwydd i Ymarfer; a Strategaeth. Maent i gyd yn cael eu goruchwylio gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd.



## Siart y sefydliad



6

# **6** Adroddiad ystadegol a pherfformiad

## Cofrestru

Rhaid i bob deintydd a gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol er mwyn ymarfer yn gyfreithlon yn y DU. Rhaid i bawb sy'n ymuno â'r gofrestr ddangos bod ganddynt y cymwysterau gofynnol, neu lwyddo mewn asesiad, a bodloni'r gofynion iechyd a chymeriad er mwyn bod yn addas i ymarfer fel aelod o dîm deintyddol.

Gellir gwneud cais mewn sawl ffordd. Rhaid i ymgeisydd ddangos bod ganddo un o'r canlynol:

- cymhwyster cydnabyddedig o'r DU;
- cymhwyster cydnabyddedig o Ewrop;
- cymhwyster cydnabyddedig o'r tu allan i Ewrop;
- asesiad o addasrwydd i gofrestru gan banel asesu sgiliau a gwybodaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (yn achos unigolion cymwys o'r tu allan i Ewrop sydd â statws unigolyn esempt ac unigolion Ewropeaidd heb gymhwyster cydnabyddedig); neu
- ei fod wedi llwyddo yn yr Arholiad Cofrestru Tramor (ar gyfer deintyddion o'r tu allan i Ewrop sydd wedi cymhwyso dramor nad ydynt yn elwa ar hawliau cymunedol y gellir eu gorfodi).

## Rhestri arbenigwyr

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cadw rhestri hefyd o ddeintyddion sy'n ddigon cymwys neu brofiadol i'w galw eu hunain yn arbenigwyr mewn meysydd deintyddol penodol.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP):

Mae gan weithwyr deintyddol proffesiynol ddyletswydd i ddiweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth yn ystod eu gyrfa. Mae DPP yn gallu helpu deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol i gynnal a diweddaru eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hymddygiad gydol eu bywyd gwaith.

Efallai y bydd yn helpu i wella ansawdd gofal a thriniaeth cleifion hefyd. Mae ymgymryd â DPP yn rhan orfodol o gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Rhaid i weithiwr deintyddol proffesiynol fodloni ein gofynion DPP i gynnal ei gofrestriad. Mae hi hefyd yn ofynnol i unrhyw weithiwr deintyddol proffesiynol sydd am ailymuno â'r gofrestr ddarparu tystiolaeth o'i DPP.



## Ystadegau gweithwyr cofrestredig

### 1 Cyfanswm y deintyddion a'r gweithwyr deintyddol proffesiynol ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2017

| Math o Gofrestriad | Nifer y Gweithwyr Cofrestredig | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Deintydd | 41705 | 38% |
| Gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol | 69507 | 62% |
| Total | 111212 | |

Mae tabl un yn dangos cyfanswm y deintyddion a'r gweithwyr deintyddol proffesiynol sydd ar y gofrestr. Dim ond unwaith y caiff gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sydd â mwy nag un teitl, er enghraifft, hylenydd deintyddol sydd hefyd yn therapydd deintyddol, ei gyfrif yn y tabl hwn. Mae cyfansoddiad y gofrestr yn ôl grŵp deintyddol i'w weld yn nhabl 3.

Bu cynnydd o 1.7% yng nghyfanswm y gweithwyr cofrestredig o 109,363 ar ddiwedd 2016 i 111,212 ar ddiwedd 2017


### 2 Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl rhyw deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ar 31 Rhagfyr 2017[1]

| Math o Gofrestriad | Benyw | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Deintydd | 20245 | 49% |
| Gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol | 63889 | 92% |
| Pob Gweithiwr Cofrestredig | 84134 | 76% |

| Math o Gofrestriad | Gwryw | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Deintydd | 21460 | 51% |
| DCP | 5618 | 8% |
| Pob Gweithiwr Cofrestredig | 27078 | 24% |

[1] Mae canrannau'n cynrychioli cyfran y cyfansoddiad yn ôl rhyw ar y gofrestr yn ei chyfanrwydd. Mae'r niferoedd a gynrychiolir yn y tabl hwn yn cyfateb i tabl un.

**3** Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl grŵp deintyddol ar 31 Rhagfyr 2017




| | Teitl y Cofrestriad | Nifer y Teitlau | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| ● | Deintydd | 41705 | 36% |
| ● | Technegydd Deintyddol Clinigol | 359 | <1% |
| ● | Hylenydd Deintyddol | 7123 | 6% |
| ● | Nyrs Ddeintyddol | 57214 | 49% |
| ● | Technegydd Deintyddol | 6088 | 5% |
| ● | Therapydd Deintyddol | 3116 | 3% |
| ● | Therapydd Orthodontig | 568 | <1% |
| | Cyfanswm | *116173[2] | |

Roedd cynnydd o 2% yng nghyfanswm y teitlau cofrestredig yn 2017, o 113,897 yn 2016 i 116,173 yn 2017.

[2] Mae'r tabl hwn yn cyfrif nifer yr aelodau o bob math o weithiwr deintyddol proffesiynol sydd ar y gofrestr. Caiff gweithiwr deintyddol proffesiynol sydd â mwy nag un teitl ei gyfrif unwaith am bob teitl sydd ganddo. Felly, bydd y cyfanswm ar gyfer y tabl hwn yn fwy na nifer y bobl sydd wedi'u cyfrif yn nhabl un




**4** Ychwanegiadau i'r Gofrestr yn 2017 yn ôl grŵp deintyddol



| | Teitl y Cofrestriad | Nifer y Gweithwyr Cofrestredig | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| ● | Deintydd | 1751 | 24% |
| ● | Technegydd Deintyddol Clinigol | 13 | <1% |
| ● | Hylenydd Deintyddol | 370 | 5% |
| ● | Nyrs Ddeintyddol | 4686 | 64% |
| ● | Technegydd Deintyddol | 189 | 3% |
| ● | Therapydd Deintyddol | 264 | 4% |
| ● | Therapydd Orthodontig | 53 | <1% |
| | Cyfanswm | 7326 | |

## **5** Adferiadau i'r Gofrestr yn 2017 yn ôl teitl deintyddol

DYn ystod 2017, ailymunodd 1517 o weithwyr cofrestredig â'r gofrestr drwy'r broses adfer[3]



| | Teitl y Cofrestriad | Nifer y Gweithwyr Cofrestredig | % o'r Cyfanswml |
|---|---|---|---|
| ● | Deintydd | 248 | 16% |
| ● | Technegydd Deintyddol Clinigol | 2 | <1% |
| ● | Hylenydd Deintyddol | 44 | 3% |
| ● | Nyrs Ddeintyddol | 1122 | 74% |
| ● | Technegydd Deintyddol | 82 | 5% |
| ● | Therapydd Deintyddol | 19 | 1% |
| ● | Therapydd Orthodontig | 0 | 0% |
| | Cyfanswm | 1517 | |

[3] Adferiad yw'r broses y mae unigolyn a arferai fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn mynd trwyddi pan mae'n dymuno ailymuno â'r gofrestr i ymarfer gyda'r teitl yr oeddynt wedi cofrestru ag ef yn flaenorol.




## **6** Deintyddion ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2017 yn ôl lleoliad cymhwyso

a) Deintyddion, yn ôl lleoliad cymhwyso



| | Lleoliad cymhwyso | Nifer y gweithwyr cofrestredig | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| ● | Wedi cymhwyso yn y DU | 30112 | 72% |
| ● | Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | 6785 | 16% |
| ● | ORE (Arholiad Tramor yn y DU) | 3257 | 8% |
| ● | Wedi cymhwyso dramor | 1551 | 4% |
| | Cyfanswm | 41705 | |

b) DCPs, by region of qualification



UK – DCPs, by region of qualification



Outside UK – DCPs, by region of qualification

| | Teitl y Cofrestriad | Y DU | % o'r Cyfanswm | Y tu allan i'r DU | % o'r Cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ● | Technegydd Deintyddol Clinigol | 356 | 99% | 3 | <1% | 359 |
| ● | Hylenydd Deintyddol | 6720 | 94% | 403 | 6% | 7123 |
| ● | Nyrs Ddeintyddol | 56724 | 99% | 490 | <1% | 57214 |
| ● | Technegydd Deintyddol | 5875 | 96% | 213 | 4% | 6088 |
| ● | Therapydd Deintyddol | 3068 | 98% | 48 | 2% | 3116 |
| ● | Therapydd Orthodontig | 565 | 99% | 3 | <1% | 568 |
| | Cyfanswm | 73308 | 98% | 1160 | 2% | 74468[4] |

[4] Yn cynnwys pobl a ymunodd â chofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol drwy brofiad dilysadwy, cymhwysedd dilysadwy neu drosglwyddo o gofrestri gwirfoddol ar adeg pontio yn ystod sefydlu'r gofrestr Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol. Bu'n rhaid dadansoddi nifer cyfyngedig o deitlau â llaw i ddobarthu rhaniad y DU/y tu allan i'r DU.




## **7** Dentists and DCPs added to the register in 2017, by region of qualification

a) New additions to the dentist register in 2017, by region of qualification



| | Lleoliad Cymhwyso | Nifer y Gweithwyr Cofrestredig | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| ● | Wedi cymhwyso yn y DU | 1145 | 65% |
| ● | Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | 409 | 23% |
| ● | ORE (Arholiad Tramor y DU) | 170 | 10% |
| ● | Wedi cymhwyso dramor | 27 | 2% |
| | Cyfanswm | 1751 | |

b) Ychwanegiadau i'r gofrestr gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn 2017, yn ôl lleoliad cymhwyso




Y DU – ychwanegiadau i'r gofrestr Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol yn 2017



Y tu allan i'r DU – ychwanegiadau i'r gofrestr Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol yn 2017

| Teitl y Gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol | Y DU | % o'r Cyfanswm | Y tu allan i'r DU | % o'r Cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 13 | 100% | 0 | 0% | 13 |
| Hylenydd Deintyddol | 303 | 82% | 67 | 18% | 370 |
| Nyrs Ddeintyddol | 4660 | 99% | 26 | 1% | 4686 |
| Technegydd Deintyddol | 175 | 93% | 14 | 7% | 189 |
| Therapydd Deintyddol | 247 | 94% | 17 | 6% | 264 |
| Therapydd Orthodontig | 52 | 98% | 1 | 2% | 53 |
| Cyfanswm | 5450 | | 125 | | 5575 |

## 8 Cyfansoddiad deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol a ychwanegwyd i'r gofrestr yn 2016 yn ôl rhyw[5]



Female dentists and DCPs added to the register in 2017




Male dentists and DCPs added to the register in 2017

| Teitl | Benyw | % o'r Cyfanswm | Gwryw | % o'r Cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Deintydd | 1077 | 62% | 674 | 38% | 1751 |
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 2 | 15% | 11 | 85% | 13 |
| Hylenydd Deintyddol | 343 | 93% | 27 | 7% | 370 |
| Nyrs Ddeintyddol | 4583 | 98% | 103 | 2% | 4686 |
| Technegydd Deintyddol | 90 | 48% | 99 | 52% | 189 |
| Therapydd Deintyddol | 239 | 91% | 25 | 9% | 264 |
| Therapydd Orthodontig | 53 | 100% | 0 | 0% | 53 |
| Cyfanswm | 6387 | | 939 | | 7326 |

[5]Nid yw'n cynnwys adferiadau.

## 9 Cyfansoddiad y rhestri arbenigwyr ar ddiwedd 2017[6]



| | Math o Arbenigedd | Nifer y Teitlau | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | Radioleg Ddeintyddol a'r Genau a'r Wyneb | 29 | 1% |
| | Iechyd cyhoeddus deintyddol | 107 | 2% |
| | Endonteg | 287 | 7% |
| | Patholeg y Geg a'r Genau a'r Wyneb | 36 | 1% |
| | Meddygaeth y Geg | 71 | 2% |
| | Microbioleg y Geg | 8 | <1% |
| | Llawdriniaeth ar y Geg | 737 | 17% |
| | Orthodonteg | 1399 | 32% |
| | Deintyddiaeth Bediatrig | 243 | 6% |
| | Peridonteg | 377 | 9% |
| | Prosthodonteg | 447 | 10% |
| | Deintyddiaeth Adferol | 300 | 7% |
| | Deintyddiaeth Gofal Arbennig | 314 | 7% |
| | Cyfanswm | 4355 | |

[6]Nodyn ar restri arbenigwyr: Bu cynnydd o <1% yn nifer y teitlau arbenigol ar ddiwedd 2017, o 4,372 o deitlau yn 2016 i 4,355 o deitlau yn 2017



## 10 Proffil cofrestru – cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r siartiau isod yn dangos proffil ein gweithwyr cofrestredig a ddadansoddwyd gyda chyfeiriad at nodweddion gwarchodedig. Mae pob gweithiwr cofrestredig yn cael yr opsiwn i ddiweddaru'r wybodaeth hon yn wirfoddol. Nid oes ymatebion llawn wedi'u rhoi i sawl un o'r nodweddion ar y siartiau, ac mae'r rhain wedi'u nodi fel 'Anhysbys'. Er nad yw data hwn yn orfodol rydym yn annog gweithwyr cofrestredig i ddarparu'r wybodaeth hon i'n helpu ni i wella gwasanaethau a phrosesau.

Fel rhan o'n cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn 2018 byddwn yn gweithio gyda gweithwyr cofrestredig i wella cyflawnrwydd ein data yn y maes hwn. Byddwn yn cyfathrebu am fanteision casglu data i ddeall cyfansoddiad ein gweithwyr cofrestredig yn well er mwyn sicrhau bod ein polisïau a'n prosesau'n deg, yn rhesymol ac yn dryloyw ac yn diwallu anghenion gweithwyr cofrestredig amrywiol. Byddwn yn casglu'r wybodaeth ychwanegol hon fel rhan o'r broses adnewyddu flynyddol, ar un pwynt casglu i wneud y cyfan mor effeithlon â phosibl.


### Gweithwyr cofrestredig ag anableddau ar 31 Rhagfyr 2017

O'r deintyddion sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, dywedodd 98% nad oedd ganddynt anabledd, llai na 1% fod ganddynt anabledd ac ni wyddom am 1% o ddeintyddion.


O'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, dywedodd 98% nad oedd ganddynt anabledd, llai na 1% fod ganddynt anabledd ac ni wyddom am 1% ohonynt.

[7]O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'r canlynol yn nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil, crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol.

## Grwpiau oedran gweithwyr cofrestredig ar 31 Rhagfyr 2017



Deintyddion – grwpiau oedran ar 31 Rhagfyr 2017



Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol – grwpiau oedran ar 31 Rhagfyr 2017


| Grwpiau oedran | Deintyddion | Deintyddion fel % o'r cyfanswm | GGDP | GGDP fel % o'r cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 16–21 | 0 | 0% | 2106 | 3% | 2106 |
| 22–30 | 8304 | 20% | 19435 | 28% | 27739 |
| 31–40 | 12384 | 30% | 20634 | 30% | 33018 |
| 41–50 | 9936 | 24% | 14585 | 21% | 24521 |
| 51–60 | 7968 | 19% | 10170 | 15% | 18138 |
| 61–65 | 1837 | 4% | 1896 | 3% | 3733 |
| Over 65 | 1276 | 3% | 677 | 1% | 1953 |
| Cyfanswm | 41705 | | 69504 | | 111209 |



## Grwpiau ethnig gweithwyr cofrestredig ar 31 Rhagfyr 2017



Deintyddion – grwpiau ethnig ar 31 Rhagfyr 2017




Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol – grwpiau ethnig ar 31 Rhagfyr 2017

| Grŵp ethnig | Deintyddion | Deintyddion fel % o'r cyfanswml | GGDP | GGDP fel % o'r cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig | 8730 | 21% | 3131 | 5% | 11861 |
| Du neu Ddu Brydeinig | 559 | 1% | 1059 | 2% | 1618 |
| Tsieineaidd | 509 | 1% | 149 | <1% | 658 |
| Cefndir ethnig cymysg | 795 | 2% | 832 | 1% | 1627 |
| Cefndir ethnig arall | 709 | 2% | 337 | <1% | 1046 |
| Ddim am ddweud | 1685 | 4% | 745 | 1% | 2430 |
| Gwyn | 21548 | 52% | 47653 | 69% | 69201 |
| Anhysbys | 7170 | 17% | 15598 | 22% | 22768 |
| Cyfanswm | 41705 | | 69504 | | 111209 |

## Grwpiau crefyddol gweithwyr cofrestredig ar 31 Rhagfyr 2017




Deintyddion – grwpiau crefyddol ar 31 Rhagfyr 2017




Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol – grwpiau crefyddol ar 31 Rhagfyr 2017

| Grŵp crefyddol | Deintyddion | Deintyddion fel % o'r cyfanswm | GGDP | GGDP fel % o'r cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwdhydd | 230 | 1% | 413 | 1% | 643 |
| Cristion | 15576 | 37% | 27163 | 39% | 42739 |
| Hindŵ | 3839 | 9% | 1006 | 1% | 4845 |
| Iddew | 475 | 1% | 117 | <1% | 592 |
| Mwslim | 3346 | 8% | 1597 | 2% | 4943 |
| Sikh | 1242 | 3% | 386 | 1% | 1628 |
| Dim | 6198 | 15% | 18547 | 27% | 24745 |
| Crefydd/ffydd arall | 662 | 2% | 1664 | 2% | 2326 |
| Ddim am ddweud | 5013 | 12% | 5699 | 8% | 10712 |
| Anhysbys | 5124 | 12% | 12912 | 19% | 18036 |
| Cyfanswm | 41705 | | 69504 | | 111209 |

## Statws priodasol gweithwyr cofrestredig ar 31 Rhagfyr 2017




Deintyddion – grwpiau statws priodasol ar 31 Rhagfyr 2017




Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol – grwpiau statws priodasol ar 31 Rhagfyr 2017

| Grŵp priodasol | Deinty-ddion | Deintyddion fel % o'r cyfanswm | GGDP | GGDP fel % o'r cyfan-swm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Partneriaeth Sifil | 358 | 1% | 1322 | 2% | 1680 |
| Wedi ysgaru | 984 | 2% | 2374 | 3% | 3358 |
| Priod | 18900 | 45% | 21160 | 30% | 40060 |
| Ddim am ddweud | 3121 | 7% | 3388 | 5% | 6509 |
| Wedi gwahanu | 242 | 1% | 785 | 1% | 1027 |
| Sengl | 7914 | 19% | 19939 | 29% | 27853 |
| Gweddw | 158 | <1% | 276 | <1% | 434 |
| Anhysbys | 10028 | 24% | 20260 | 29% | 30288 |
| Cyfanswm | 41705 | | 69504 | | 111209 |

## Cyfeiriadedd rhywiol gweithwyr cofrestredig ar 31 Rhagfyr 2017



Deintyddion – cyfeiriadedd rhywiol ar 31 Rhagfyr 2017



Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol – cyfeiriadedd rhywiol ar 31 Rhagfyr 2017

| Cyfeiriadedd rhywiol | Deinty-ddion | Deintyddion fel % o'r cyfanswm | GGDP | GGDP fel % o'r cyfan-swm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Deurywiol | 273 | 1% | 671 | 1% | 944 |
| Dyn hoyw | 302 | 1% | 148 | <1% | 450 |
| Menyw hoyw | 118 | <1% | 315 | <1% | 433 |
| Heterorywiol | 30873 | 74% | 49560 | 71% | 80433 |
| Ddim am ddweud | 3763 | 9% | 5357 | 8% | 9120 |
| Anhysbys | 6376 | 15% | 13453 | 19% | 19829 |
| Cyfanswm | 41705 | | 69504 | | 111209 |



## Addasrwydd i Ymarfer

Rhaid i ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol fodloni gofynion arbennig wrth gofrestru yn y lle cyntaf a thrwy gydol eu gyrfaoedd er mwyn bod yn addas i ymarfer.

Pan rydym yn dweud bod rhywun yn 'addas i ymarfer', rydym yn golygu bod ganddo'r sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad a'r iechyd priodol i ymarfer ei broffesiwn yn ddiogel ac yn effeithiol. Fodd bynnag, mae addasrwydd i ymarfer yn golygu mwy na pherfformiad neu iechyd clinigol ymarferydd.

Mae addasrwydd ymarferydd i ymarfer yn cynnwys unrhyw gamau a gymerwyd ganddynt hefyd sy'n effeithio ar ffydd y cyhoedd mewn gweithwyr deintyddol proffesiynol a deintyddiaeth. Gall hyn gynnwys materion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag ymarfer proffesiynol, er enghraifft, cyflawni trosedd.

Os oes pryderon bod diffygion yn ymddygiad neu allu gweithiwr deintyddol proffesiynol mor sylweddol nes eu bod yn rhoi cleifion mewn perygl difrifol, neu'n tanseilio hyder y cyhoedd mewn deintyddiaeth yn ddifrifol, byddwn yn ymchwilio, a, lle bo'n briodol, yn cymryd camau i leihau'r risg hwnnw. Gall pryderon godi'n uniongyrchol, e.e. gan glaf, drwy atgyfeiriad gan gorff arall (er enghraifft, hysbysiad gan yr heddlu o rybudd troseddol neu fod yr unigolyn wedi'i gael yn euog o drosedd), neu o ffynonellau eraill.

Bydd y broses yn ymchwilio i'r canlynol:

- camgymeriadau difrifol neu fynych mewn gofal clinigol, er enghraifft, camgymeriadau mewn diagnosis neu weithdrefnau deintyddol
- methu ag archwilio claf yn gywir, methu â chael caniatâd gwybodus claf cyn triniaeth neu fethu ag ymateb yn rhesymol i anghenion claf
- dim yswiriant indemniad proffesiynol
- materion croes-heintio (er enghraifft, defnyddio cyfarpar clinigol budr yn ystod triniaeth)
- achosion difrifol o dorri cyfrinachedd claf
- trosedd ddifrifol, gan gynnwys twyll, achos o ddwyn neu anonestrwydd gan ddeintydd neu weithiwr gofal deintyddol proffesiynol
- iechyd gwael neu gyflwr meddygol sy'n cael effaith sylweddol ar allu'r gweithiwr cofrestredig i drin cleifion yn ddiogel.

Mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i benderfynu a yw unrhyw gŵyn neu wybodaeth arall yn gyfystyr â honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer. Rydym yn dechrau'r broses hon yn ystod y cam brysbennu, lle mae pob cwyn addasrwydd i ymarfer yn cael ei adolygu i ddechrau. Ar ôl gwerthusiad neu ymchwiliad cychwynnol, maent naill ai'n cael eu cau os nad oes angen cymryd camau pellach, neu'n cael eu hanfon at y tîm Gwaith Achosion a fydd yn cynnal ymchwiliad pellach ac yn gwneud asesiad arall yn y pen draw. Ar ôl cynnal ymchwiliad, bydd materion a ystyrir yn honiad o amhariad posibl o ran addasrwydd i ymarfer yn cael eu hatgyfeirio i banel Pwyllgor Ymchwilio, neu i archwilwyr achosion ers 1 Tachwedd 2016[8].

Ar ôl cynnal ymchwiliad llawn, bydd materion a ystyrir yn amhariad posibl o ran Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu hatgyfeirio i'r archwilwyr achosion. Mae'r archwilwyr achosion yn gweithio mewn parau i ystyried achosion. Mae'r parau'n cynnwys un archwilydd achosion clinigol ac un archwilydd achosion lleyg. Maent yn penderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos i wrandawiad. Pan fyddant yn penderfynu peidio ag atgyfeirio achos, gall yr archwilwyr achosion gau'r mater drwy roi cyngor neu rybudd i'r gweithiwr cofrestredig, neu drwy beidio â chymryd unrhyw gamau pellach.


Mae'r archwilwyr achosion yn edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael ac yn penderfynu a oes yna bosibilrwydd gwirioneddol y byddai'r honiadau'n cael eu profi mewn gwrandawiad pwyllgor ymarfer.

Yn dibynnu ar natur yr honiadau, gall yr archwilwyr achosion atgyfeirio'r achos i un o dri phwyllgor ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol: y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol; y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol; neu'r Pwyllgor Iechyd i gael gwrandawiad ffurfiol. Gall yr archwilwyr achosion ofyn i'r gweithiwr cofrestredig gytuno ar gyfres o gamau (yn debyg i amodau ymarfer) fel dewis arall yn lle atgyfeirio'r mater i bwyllgor ymarfer.

Bydd gweithwyr cofrestredig a atgyfeirir i bwyllgor ymarfer yn ymddangos gerbron panel annibynnol o weithwyr deintyddol proffesiynol ac aelodau lleyg fel rhan o wrandawiad ffurfiol lle mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r gweithwyr deintyddol proffesiynol yr hawl i gael cynrychiolaeth gyfreithiol.

[8] Cyflwynodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol archwilwyr achosion ym mis Tachwedd 2016 i gyflawni'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau gwneud penderfyniadau a arferai gael eu gwneud gan y Pwyllgor Ymchwilio. Mae cyflwyno archwiliwyr achosion wedi gwella effeithlonrwydd y prosesau Addasrwydd i Ymarfer.

Mae’r diagram isod yn defnyddio data 2017 i ddangos cyfran yr achosion a gafodd eu cwblhau fesul 100 achos ym mhob cam o’r broses addasrwydd i ymarfer.




Os penderfynir bod addasrwydd i ymarfer gweithiwr cofrestredig yn ddiffygiol, gall y pwyllgor benderfynu:

- beidio â chymryd unrhyw gamau
- rhoi cerydd
- gosod amodau ar gofrestru
- atal cofrestriad dros dro
- tynnu unigolyn oddi ar gofrestr y deintyddion neu gofrestr y gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol

Wrth wneud hynny, bydd yn ystyried yr ateb sy’n tarfu leiaf yn gyntaf.

Mae yna broses apelio hefyd.

Ar unrhyw adeg yn y broses Addasrwydd i Ymarfer, pan fo honiad yn awgrymu y gallai gweithiwr deintyddol proffesiynol achosi niwed neu os oes yna resymau eraill er lles y cyhoedd, gallwn wneud cais am orchymyn interim i atal yr unigolyn hwnnw rhag ymarfer, neu i osod cyfyngiadau ar ei ymarfer, hyd nes y bydd ei achos yn cael ei glywed neu ei adolygu.

Dim ond mewn achosion difrifol y gwneir y ceisiadau hyn. Efallai y bydd gorchymyn interim yn cael ei ystyried yn angenrheidiol er diogelwch y cyhoedd:


- os oes yna risg wirioneddol o niwed sylweddol i iechyd, diogelwch neu les claf, ymwelydd, cydweithiwr neu aelod arall o’r cyhoedd pe bai’r ymarferydd yn cael ymarfer heb gyfyngiad;
- os oes angen diogelu hyder y cyhoedd yn y proffesiwn a chynnal safonau proffesiynol priodol er lles y cyhoedd;
- os yw er lles y gweithiwr cofrestredig dan sylw.



## Achosion a ddaw i mewn


Mae’r siart isod yn dangos gan bwy y cafwyd y cwynion a dderbyniwyd yn 2017. O’r 1,910 o gwynion a dderbyniwyd, roedd tua chwech o bob deg (1,081) gan gleifion.

Achosion yn ôl y math o hysbyswr 2017




Mae'r siart isod yn cymharu nifer y cwynion yn 2017 â ffigurau'r ddwy flynedd flaenorol.

## Dadansoddiad o achosion yn ôl y math o hysbyswr 2015 i 2017




Cafwyd 1,910 o gwynion yn 2017, o gymharu â 2,630 yn 2016 – gostyngiad o 27%. Mae'r siart isod yn dangos ym mha ardal mae'r gweithiwr deintyddol proffesiynol yn gweithio.[9]

## Achosion yn ôl ardal y math o hysbyswr 2017





[9] Nifer y gweithwyr cofrestredig y gellir eu hadnabod – mae hyn yn cyfeirio at gwynion a dderbyniwyd lle nad oedd hi'n bosibl adnabod gweithiwr cofrestredig y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o'r wybodaeth gychwynnol a ddarparwyd. Er bod yr achos yn dal wedi'i sefydlu ac yn destun adolygiad cychwynnol, nid yw rhanbarth y gweithiwr cofrestredig wedi'i nodi ar gyfer yr achos.

## Canlyniadau achosion Addasrwydd i Ymarfer

Mae nifer yr achosion a ystyriwyd ym mhob cyfnod o'r broses Addasrwydd i Ymarfer yn 2017 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Brysbennu | 1,896<br>Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli nifer yr achosion a ystyriwyd yn ystod y cam brysbennu, pan fo achosion yn cael eu sgrinio, a gallant gael eu cau neu eu hatgyfeirio i fod yn destun ymchwiliad pellach. Cafodd 36% o'r cyfanswm hwn eu cau a chafodd 64% eu hatgyfeirio i'w hasesu. Mae'r cyfanswm hwn yn 25% yn llai na'r achosion brysbennu a gafodd eu cau a'u hatgyfeirio yn 2015 (2545). Efallai na fydd y cyfanswm hwn yn cyfateb i achosion newydd yn ystod y flwyddyn (1,910, o gymharu â 2,630 yn 2016), gan y bydd achosion yn y cam brysbennu a dderbyniwyd yn y flwyddyn flaenorol. |
| Asesu | 1,044<br>Dyma nifer yr achosion a ystyriwyd yn y cyfnod asesu, pan y gall achosion gael eu cau (39%) neu eu hatgyfeirio i'r Pwyllgor Ymchwilio/archwilwyr achosion (61%). Mae'r cyfanswm hwn yn cynrychioli gostyngiad o 39% yn nifer yr achosion asesu a gaewyd ac atgyfeiriadau o gymharu â 2016 (1,715). |
| Pwyllgor Ymchwilio (PY)/Archwilwyr Achosion (AA): | 638 (PY yn gyffredinol: 76; AA yn gyffredinol: 562)<br>Dyma nifer yr achosion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ymchwilio neu'r Archwilwyr Achosion newydd a gafodd eu cau, a oedd yn destun ymrwymiadau neu a gafodd eu hatgyfeirio i Bwyllgor Ymarfer (gan gynnwys ailystyriaethau Rheol 10: yr achosion hynny sydd wedi dychwelyd i'r Pwyllgor Archwilio yn dilyn atgyfeiriad cychwynnol i Bwyllgor Ymarfer).<br>• O'r 76 o ganlyniadau PY, roedd 75% wedi'u cau a 25% wedi'u hatgyfeirio i Bwyllgor Ymarfer.<br>• O'r 562 o ganlyniadau Archwilwyr Achosion, roedd 60% wedi'u cau, 37% wedi'u hatgyfeirio i Bwyllgor Ymarfer a 3% wedi arwain at dderbyn Ymrwymiadau.<br>Mae'r cyfartaledd cyfunol yn cynrychioli gostyngiad o 62% yn nifer yr achion a gaewyd a 38% a atgyfeiriwyd. Mae'r cyfanswm cyfunol o gymharu yn cynrychioli gostyngiad o 10% yn nifer yr achosion a gaewyd ac a atgyfeirwyd o gymharu â 2016 (710). |
| Atgyfeiriadau i Bwyllgor Ymarfer | (PY yn gyffredinol: 19; AA yn gyffredinol: 205)<br>Dyma nifer yr achosion a atgyfeiriwyd gan y Pwyllgor Ymchwilio neu'r Archwilwyr Achosion i Bwyllgor Ymarfer. Mae'r cyfanswm hwn yn cynrychioli gostyngiad o 33% yn nifer yr atgyfeiriadau i Bwyllgor Ymarfer o gymharu â 333 o atgyfeiriadau yn 2016. O'r 224 o atgyfeiriadau cyffredinol, daeth 19 ohonynt yn atgyfeiriadau Pwyllgor Gorchmynion Interim – gostyngiad o 79% o gymharu â 2016 (92).<br>D.S. Efallai y bydd mwy nag un achos yn ymwneud â gweithwyr cofrestredig unigol. |

## Dadansoddiad o Ganlyniadau terfynol y Pwyllgor Archwilio – 2015 i 2017




Mae'r siart uchod yn dangos beth ddigwyddodd i'r achosion a gyrhaeddodd y cam Pwyllgor Ymchwilio rhwng 2015 a 2017. Nid yw canlyniadau nad oedd yn cynnwys achosion wedi'u dangos yn y graff uchod.

### Achosion a ohiriwyd

Rhwng 2015 a 2017 cafwyd gostyngiad yn nifer yr achosion a gafodd eu gohirio gan y Pwyllgor Ymchwilio i'w hanfon yn ôl i'r tîm Gwaith Achosion am ymchiliad pellach.

### Cau heb weithredu pellach

Rhwng 2015 a 2017 cafwyd cynnydd yn nifer yr achosion y dewisodd y Pwyllgor Ymchwilio i'w cau heb roi cyngor na rhybudd i'r gweithiwr deintyddol proffesiynol.

### Cau gyda chyngor

Rhwng 2015 a 2017 cafwyd gostyngiad yn nifer yr achosion y dewisodd y Pwyllgor Ymchwilio eu cau drwy roi cyngor i'r gweithiwr deintyddol proffesiynol.


### Cau gyda rhybudd (cyhoeddedig/heb ei gyhoeddi)

Rhwng 2015 a 2017, cynyddodd nifer y rhybuddion cyhoeddedig a gostyngodd nifer y rhybuddion heb eu cyhoeddi.

### Atgyfeirio i'r pwyllgor ymarfer

Rhwng 2015 a 2017 roedd y nifer mwyaf o atgyfeiridau i'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn benodol.

Dadansoddiad o ganlyniadau sylweddol archwilwyr achosion – 2016 i 2018




Mae'r siart uchod yn dangos beth ddigwyddodd i'r achosion a gyrhaeddodd y cam archwilwyr achosion rhwng 2016 a 2017. Cyflwynwyd archwilwyr achosion ym mis Tachwedd 2016. Nid yw canlyniadau nad oedd yn cynnwys achosion wedi'u dangos yn y graff uchod.

## Achosion a ohiriwyd

Rhwng 2016 a 2017 cafwyd cynnydd yn nifer yr achosion a gafodd eu gohirio gan yr archwilwyr achosion i'w hanfon yn ôl i'r tîm Gwaith Achosion am ymchiliad pellach.

## Cau heb weithredu pellach

Rhwng 2016 a 2017 cafwyd cynnydd yn nifer yr achosion y dewisodd yr archwilwyr achosion i'w cau heb roi cyngor na rhybudd i'r gweithiwr deintyddol proffesiynol.


## Cau gyda chyngor

Rhwng 2016 a 2017 cafwyd cynnydd bychan yn nifer yr achosion y dewisodd yr archwilwyr achosion eu cau drwy roi cyngor i'r gweithiwr deintyddol proffesiynol. 'Atgyfeirio i PCC' yw'r gyfran uchaf o benderfyniadau gan archwilwyr achosion.



## Perfformiad Addasrwydd i Ymarfer


### Nifer yr achosion Addasrwydd i Ymarfer a dderbyniwyd sydd wedi'u brysbennu o fewn y targed o 10 diwrnod gwaith




Ar gyfartaledd, cafodd 97% o achosion eu brysbennu o fewn deg diwrnod gwaith net o'u derbyn yn 2017.


O'r 1,896 o achosion a ystyriwyd yn ystod y cam brysbennu, atgyfeirwyd 1,205 ohonynt.

## Nifer yr achosion cyfnod ymchwilio Addasrwydd i Ymarfer a gwblhawyd o fewn y targed o 6 mis o'r dyddiad derbyn




Ar gyfartaledd, cafodd 65% o'r achosion yn y cam ymchwilio eu cwblhau o fewn y targed o chwe mis yn 2017 (2016: 68%).

## Nifer yr achosion Addasrwydd i Ymarfer a dderbyniodd wrandawiad cychwynnol o fewn naw mis i'w hatgyfeiriad gan y Pwyllgor Ymchwilio




Ar gyfartaledd, derbyniodd 50% (2016: 54%) o'r achosion wrandawiad cychwynnol o fewn naw mis i'w hatgyfeiriad gan y Pwyllgor Ymchwilio.

Roedd nifer yr achosion byw a oedd yn disgwyl gwrandawiad cyntaf, a oedd wedi methu ein targed naw mis, yn 71 ar ddiwedd mis Rhagfyr 2017. Mae hyn o gymharu â 112 yn y flwyddyn flaenorol, gostyngiad o 37%. Roedd 175 o achosion yn y ciw am wrandawiad cychwynnol ar ddiwedd 2017, o gymharu â 239 ar ddiwedd 2016 – gostyngiad o 27%.

## Pwyllgor Gorchmynion Interim

Pwyllgor statudol sy'n ystyried honiadau difrifol i benderfynu a yw'n briodol atal neu osod cyfyngiadau ar ymarfer unigolyn hyd nes y bydd ei achos yn cael ei glywed.

**Cyfanswm y gwrandawiadau yn 2017:** 371 (414 o wrandawiadau yn 2016)

**Nifer yr achosion yn ymwneud â deintyddion:** 371
(308 o wrandawiadau yn ymwneud â deintyddion yn 2016)

**Nifer yr achosion yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol:** 91, yn cynnwys 66 o nyrsys deintyddol, 18 o dechnegwyr deintyddol, 3 hylenydd/therapydd deintyddol a 4 technegydd deintyddol clinigol (106 o wrandawiadau gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn 2016).

| Canlyniad | Nifer yr Achosion | % o'r Cyfanswm[10] |
|---|---|---|
| Parhau gorchymyn gwahardd interim | 102 | 27% |
| Parhau amodau interim | 81 | 22% |
| Dim gosod gorchymyn interim | 53 | 14% |
| Cyflwyno gorchymyn gwahardd interim | 44 | 12% |
| Cyflwyno amodau interim | 37 | 10% |
| Amrywio amodau interim | 20 | 5% |
| Dirymu amodau interim | 12 | 3% |
| Dirymu amodau interim a chyflwyno gwaharddiad interim | 12 | 3% |
| Dirymu gwaharddiad interim | 6 | 2% |
| Dirymu gwaharddiad interim a chyflwyno amodau interim | 4 | 1% |
| Cyfanswm | 371 | |

[10] Efallai na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% gan eu bod yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

## Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol

Pwyllgor statudol sy'n un o'r tri phwyllgor ymarfer. Mae'n ystyried honiadau o berfformiad diffygiol yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r diffyg hwn yn gyfystyr ag amhariad ar ei Addasrwydd i Ymarfer.

**Cyfanswm y gwrandawiadau yn 2017:** 12 (deintyddion i gyd) (26 o wrandawiadau deintyddion yn 2016).

| Canlyniad | Nifer yr Achosion | % o'r Cyfanswm[11] |
|---|---|---|
| Dim amhariad ar addasrwydd i ymarfer. Cau'r achos | 3 | 25% |
| Ymestyn ac amrywio amodau gydag adolygiad | 2 | 17% |
| Ymestyn gwaharddiad gydag adolygiad | 2 | 17% |
| Dirymu amodau | 1 | 8% |
| Gwahardd gyda gwaharddiad yn syth | 1 | 8% |
| Gwahardd am gyfnod amhenodol | 1 | 8% |
| Ymestyn amodau gydag adolygiad | 1 | 8% |
| Dileu gyda gwaharddiad yn syth | 1 | 8% |
| Cyfanswm | 12 | |

[11] Efallai na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% gan eu bod yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

## Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Pwyllgor statudol sy'n un o'r tri phwyllgor ymarfer. Mae'n ystyried honiadau o gamymddwyn yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r camymddwyn hwn yn gyfystyr ag amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer.

**Cyfanswm y gwrandawiadau yn 2017:** 284
(282 o wrandawiadau PCC yn 2016)

**Nifer yr achosion yn ymwneud â deintyddion:** 222
(220 o wrandawiadau yn ymwneud â deintyddion yn 2016)

**Nifer yr achosion yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol:** 62, yn cynnwys 38 o nyrsys deintyddol, 22 o dechnegwyr deintyddol, 1 technegydd deintyddol clinigol a 1 hylenydd/therapydd deintyddol)
(62 o wrandawiadau yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn 2016).

| Canlyniad | Nifer yr Achosion | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Dileu gyda gwaharddiad yn syth | 34 | 12% |
| Dim amharu ar addasrwydd i ymarfer. Cau'r achos | 32 | 11% |
| Gwahardd gyda gwaharddiad yn syth | 31 | 11% |
| Ymestyn gwaharddiad gydag adolygiad | 31 | 11% |
| Dirymu amodau | 28 | 10% |
| Amodau gydag amodau cychwynnol gydag adolygiad | 16 | 6% |
| Amharu ar addasrwydd i ymarfer – cerydd | 16 | 6% |
| Ffeithiau a ganfuwyd yn profi na fu achos o gamymddwyn. Cau'r achos | 14 | 5% |
| Gwahardd am gyfnod amhenodol | 13 | 5% |
| Dirymu gwaharddiad | 12 | 4% |
| Gwaharddiad | 11 | 4% |
| Gwaharddiad gydag adolygiad | 8 | 3% |
| Ymestyn amodau gydag adolygiad | 8 | 3% |
| Ymestyn ac amrywio amodau gydag adolygiad | 7 | 2% |
| Dirymu gwaharddiad a chyflwyno amodau gydag adolygiad | 7 | 2% |
| Dim achos i'w ateb | 5 | 2% |
| Amodau gydag adolygiad | 4 | 1% |
| Ffeithiau heb eu profi, cau'r achos | 3 | 1% |
| Dileu | 2 | 1% |
| Heb adfer i'r gofrestr | 1 | <1% |
| Erased | 1 | <1% |
| Cyfanswm | 284 | |

## Pwyllgor Iechyd

Pwyllgor statudol sy'n un o'r tri phwyllgor ymarfer. Mae'n ystyried achosion lle mae'n ymddangos bod addasrwydd i Ymarfer gweithiwr deintyddol proffesiynol i ymarfer yn cael ei effeithio gan gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol. Gall gwrandawiadau iechyd gael eu cynnal yn breifat yn aml oherwydd natur sensitif y materion dan sylw.

**Cyfanswm y gwrandawiadau:** 36 (35 o wrandawiadau yn 2016)

**Nifer yr achosion yn ymwneud â deintyddion:** 21 (24 o wrandawiadau yn ymwneud â deintyddion yn 2016)

**Nifer yr achosion yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol:** 15, yn cynnwys 12 nyrs ddeintyddol a 3 hylenydd deintyddol/therapydd deintyddol
(11 o wrandawiadau yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn 2016)

| Canlyniad | Nifer yr Achosion | % o'r Cyfanswm[12] |
|---|---|---|
| Ymestyn gwaharddiad gydag adolygiad | 11 | 31% |
| Gwahardd gyda gwaharddiad yn syth gydag adolygiad | 9 | 25% |
| Dirymu amodau | 4 | 11% |
| Gwaharddiad am gyfnod amhenodol | 3 | 8% |
| Ymestyn ac amrywio amodau gydag adolygiad | 2 | 6% |
| Dirymu amodau a chyflwyno gwaharddiad gydag adolygiad | 1 | 3% |
| Gwaharddiad gydag adolygiad | 1 | 3% |
| Amharu ar addasrwydd i ymarfer – cerydd | 1 | 3% |
| Dileu gyda gwaharddiad yn syth | 1 | 3% |
| Ymestyn amodau gydag adolygiad | 1 | 3% |
| Dirymu gwaharddiad a chyflwyno amodau gydag adolygiad | 1 | 3% |
| Cadarnhau gwaharddiad am gyfnod amhenodol | 1 | 3% |
| Cyfanswm | 36 | |

## Gwybodaeth am wrandawiadau


| | |
|---|---|
| Gwrandawiadau a ohiriwyd / a glywyd yn rhannol ar ddiwedd y flwyddyn | 10 (2016: 20) |
| Nifer y dyddiau gwrandawiad a drefnwyd yn 2017 | 1658 (2016: 1746) |
| Defnydd o amserlen gwrandawiadau | 71% (2016: 81%)[13] |
| Cynnydd yn nifer y dyddiau gwrandawiad a drefnwyd o gymharu â 2016 | 5% |
| Hyd gwrandawiadau PCC neu PPC cychwynnol ar gyfartaledd yn 2017 | 4.7 days (2016: 4 days) |
| Ceisiadau adfer yn 2017 | 1 (adferwyd) |

[12] Efallai na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% gan eu bod yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf

[13] Mae hyn yn cyfeirio at ganran ein hamserlen wrandawiadau (paneli ac ystafelloedd a drefnwyd) a oedd ar gael i'w defnyddio. Pan nad ydym yn gallu defnyddio'r paneli ac ystafelloedd a drefnwyd mae hyn yn golygu nad oes gennym achosion addas i'w clywed. Yn 2017, roedd dyddiau a drefnwyd y methwyd eu cyflawni yn uwch na'r flwyddyn flaenorol oherwydd bod tarfu wedi bod ar lif achosion i wrandawiadau yn ystod misoedd yr haf (Mehefin i Medi 2017) yn bennaf o ganlyniad i'r cyfnod o bontio o'r Pwyllgor Ymchwilio i archwilwyr achosion tua diwedd 2016.


## Yr amser a gymerwyd i gwblhau gwrandawiad cychwynnol achosion

### Canlyniadau Cychwynnol y Pwyllgor Ymarfer – Canran Gwrandawiadau fesul Mis ers Atgyfeiriad y Pwyllgor Ymchwilio




## Proffil ystyriaethau Addasrwydd i Ymarfer – Gwrandawiadau PCC a PPC 2017

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn defnyddio ystyriaethau i gofnodi manylion yr honiadau neu'r cyhuddiadau a godwyd yn erbyn addasrwydd i ymarfer gweithiwr cofrestredig mewn achos neu wrandawiad. Mae ystyriaethau'n cyd-fynd yn agos â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol ac yn cael eu cofnodi fesul grŵp, is-grŵp, ac yn benodol. Mae'r siart isod yn cyfeirio nifer penodol yr ystyriaethau a gofnodwyd o fewn yr holl is-grwpiau ar gyfer y materion a glywyd yng ngwrandawiadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ystod y flwyddyn.



# 7 Strwythur y Cyngor a'r pwyllgorau

## Strwythur y Cyngor

Mae gan y Cyngor 12 o aelodau: chwe aelod cofrestredig a chwe aelod heb gofrestru. Roedd aelodau'r Cyngor yn 2017 fel a ganlyn:

| Aelodau cofrestredig | Aelodau heb gofrestru |
|---|---|
| Catherine Brady | William Moyes (Cadeirydd) |
| Margaret Kellett | Geraldine Campbell |
| Kristie Moons | Rosemary Carter (nes 30 Medi 2017) |
| Lawrence Mudford | Alan MacDonald (nes 30 Medi 2017) |
| Jayendra Patel (nes 30 Medi 2017) | Neil Stevenson (nes 30 Medi 2017) |
| David Smith (nes 30 Medi 2017) | Terry Babbs (o 1 Hydref 2017) |
| Jeyanthi John (o 1 Hydref 2017) | Anne Heal (o 1 Hydref 2017) |
| Caroline Logan (o 1 Hydref 2017) | Sheila Kumar (o 1 Hydref 2017) |
| | Crispin Passmore (o 1 Hydref 2017) |

[14]Penodwyd Terry Babbs i'r Cyngor o 1 Hydref 2016, ar benodiad brys deuddeg mis. Yna, gwnaeth gais i fod yn aelod o'r Cyngor drwy ymarfer recriwtio Cyngor agored, llawn yn 2017 ac fe'i penodwyd i'r Cyngor o 1 Hydref 2017.



### Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor yn 2017

| Enw | Chwe | Maw | Mai | Meh | Gorff | Medi | Hyd | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| William Moyes (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Terry Babbs | ✓ | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Catherine Brady | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Geraldine Campbell | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Margaret Kellett | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Kirstie Moons | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Lawrence Mudford | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ |
| Rosemary Carter | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Alan MacDonald | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Jayendra Patel | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | | |
| David Smith[15] | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | | |
| Neil Stevenson | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Anne Heal | | | | | | | ✗ | ✓ |
| Jeyanthi John | | | | | | | ✓ | ✗ |
| Sheila Kumar | | | | | | | ✓ | ✓ |
| Caroline Logan | | | | | | | ✓ | ✓ |
| Crispin Passmore | | | | | | | ✓ | ✓ |

### Pwyllgorau statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

O dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd), mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyfrifoldeb i ymdrin â honiadau sy'n ymwneud â diffyg addasrwydd i ymarfer aelodau o'r proffesiwn deintyddol.

Mae yna chwe phwyllgor statudol sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd fel yr amlinellir yn Adran 2 o Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys aelodau panel annibynnol sy'n weithwyr cofrestredig ac yn bobl heb eu cofrestru. Nid yw aelodau'r Cyngor yn aelodau o'r pwyllgorau statudol, ond mae'r pwyllgorau statudol yn atebol i'r Cyngor am eu perfformiad.

Dyma'r pwyllgorau:

- **Y Pwyllgor Ymchwilio:** Mae'n ystyried honiadau o amhariad ar addasrwydd i ymarfer i bennu a ddylai honiadau o'r fath gael eu hatgyfeirio i un o'r tri phwyllgor ymarfer (y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, y Pwyllgor Iechyd neu'r Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol) ar gyfer ymchwiliad llawn.
- **Y Pwyllgor Gorchmynion Interim:** Gall achos gael ei atgyfeirio i'r Pwyllgor hwn unrhyw bryd i ystyried a yw gorchymyn (megis gwaharddiad) yn erbyn cofrestriad gweithiwr deintyddol proffesiynol yn briodol cyn ymchwiliad llawn.
- **Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol:** Mae'n ystyried honiadau o gamymddwyn yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r camymddwyn yn gyfystyr ag amhariad ar ei allu i ymarfer deintyddiaeth.
- **Y Pwyllgor Iechyd:** Mae'n ystyried achosion lle mae'n ymddangos bod perfformiad gweithiwr deintyddol proffesiynol yn cael ei effeithio gan gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol.
- **Y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol:** Mae'n ystyried honiadau o berfformiad diffygiol yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r diffyg hwn yn gyfystyr ag amhariad ar ei allu i ymarfer deintyddiaeth.
- **Y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru:** Mae'n ystyried apeliadau gan weithwyr deintyddol proffesiynol y gwrthodwyd eu cais i gael eu cynnwys ar y gofrestr, sydd wedi'u dileu o'r gofrestr neu nad ydynt wedi cael eu hadfer i'r gofrestr (ond nid gan bwyllgor ymarfer).

Penodir aelodau'r pwyllgorau hyn gan y Pwyllgor Sicrwydd Panelwyr Statudol (SPC), sy'n helpu'r Cyngor i benodi, recriwtio a goruchwylio gwaith aelodau pwyllgorau statudol. Mae mwy o wybodaeth am waith ac aelodau pwyllgorau statudol y Cyngor ar ein gwefan.[16]

[15]Datgymhwysodd David Smith ei hun o fusnes y Cyngor o 15 Mehefin 2017 i 30 Medi 2017.

[16]https://www.gdc-uk.org/about/who-we-are/committees.

## Pwyllgorau anstatudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Mae'r Cyngor yn cael ei gefnogi gan bum pwyllgor anstatudol:

### Aelodaeth y Pwyllgorau nes 30 Medi 2017

| Pwyllgor | Aelodau |
|---|---|
| **Pwyllgor Sicrwydd Panelwyr Statudol[17]** Mae'n goruchwylio'r gwaith o recriwtio, hyfforddi a rheoli perfformiad y pwyllgorau statudol sy'n rhan o'r panel Addasrwydd i Ymarfer a'i Bwyllgor Ymchwilio. | Rosie Varley (Cadeirydd)<br>Nigel Fisher<br>Martyn Green<br>Tim Skelton |
| **Pwyllgor Archwilio a Risg** Mae'n monitro cywirdeb y datganiadau ariannol, adolygu llywodraethu, rheolaeth fewnol, systemau rheoli risg a gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol | Alan MacDonald (Cadeirydd)<br>Catherine Brady<br>Lawrence Mudford<br>David Smith |
| **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad** Mae'n herio a monitro perfformiad ariannol a gweithredol. Mae'n gweithio gyda'r tîm gweithredol i ddatblygu cynlluniau busnes a chyllidebau blynyddol | Terry Babbs (Cadeirydd)<br>Margaret Kellett<br>Kirstie Moons<br>Jayendra Patel |
| **Pwyllgor Tâl** Mae'n sefydlu gweithdrefnau ar gyfer tâl y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, y Tîm Rheoli Gweithredol, aelodau'r Cyngor a'r polisi tâl staff cyffredinol | Neil Stevenson (Cadeirydd)<br>Geraldine Campbell<br>Jayendra Patel |
| **Bwrdd Polisi ac Ymchwil** Mae'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth, polisi a mentrau ymchwil | Rosemary Carter (Cadeirydd)<br>Catherine Brady<br>Geraldine Campbell<br>Kirstie Moons<br>Lawrence Mudford |

[17] Y Pwyllgor Penodiadau oedd yr hen enw ar Bwyllgor Archwilio'r Panelwyr Statudol. Newidiwyd yr enw yn 2016 i adlewyrchu'n well rôl a chylch gorchwyl y pwyllgor.



### Aelodaeth y Pwyllgor o Hydref 2017

| Pwyllgor | Aelodau |
|---|---|
| **Pwyllgor Sicrwydd Panelwyr Statudol[17]** Mae'n goruchwylio'r gwaith o recriwtio, hyfforddi a rheoli perfformiad y pwyllgorau statudol sy'n rhan o'r panel Addasrwydd i Ymarfer a'i Bwyllgor Ymchwilio. | Rosie Varley (Cadeirydd)<br>Nigel Fisher<br>Martyn Green<br>Tim Skelton |
| **Pwyllgor Archwilio a Risg** Mae'n monitro cywirdeb y datganiadau ariannol, adolygu llywodraethu, rheolaeth fewnol, systemau rheoli risg a gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol | Alan MacDonald (Cadeirydd)<br>Catherine Brady<br>Lawrence Mudford<br>David Smith |
| **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad** Mae'n herio a monitro perfformiad ariannol a gweithredol. Mae'n gweithio gyda'r tîm gweithredol i ddatblygu cynlluniau busnes a chyllidebau blynyddol | Terry Babbs (Cadeirydd)<br>Margaret Kellett<br>Kirstie Moons<br>Jayendra Patel |
| **Pwyllgor Tâl** Mae'n sefydlu gweithdrefnau ar gyfer tâl y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, y Tîm Rheoli Gweithredol, aelodau'r Cyngor a'r polisi tâl staff cyffredinol | Neil Stevenson (Cadeirydd)<br>Geraldine Campbell<br>Jayendra Patel |
| **Bwrdd Polisi ac Ymchwil** Mae'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth, polisi a mentrau ymchwil | Rosemary Carter (Cadeirydd)<br>Catherine Brady<br>Geraldine Campbell<br>Kirstie Moons<br>Lawrence Mudford |

Mae aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Tâl yn cynnwys aelod annibynnol, a benodir gan y Cyngor, sy'n dod ag arbenigedd i'r Pwyllgor. Yr aelodau annibynnol o'r pwyllgorau a wasanaethodd yn 2017 oedd:

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor Archwilio a Risg | Jason Davies |
| Y Pwyllgor Tâl | Philippa Hird |

## Tîm Rheoli Gweithredol

Yn ystod 2017, y Tîm Rheoli Gweithredol oedd y cyfarwyddwyr gweithredol, y Prif Gynghorydd Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Y cyfarwyddwyr gweithredol yw:

- Ian Brack, Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu
- Jonathan Green, Cyfarwyddwr Gweithredol, Addasrwydd i Ymarfer
- Matthew Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth
- Graham Masters, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (nes 7 Ebrill 2017)
- Gurvinder Soomal, Cyfarwyddwr Gweithredol, Cofrestru ac Adnoddau Corfforaethol (gyda chyfrifoldeb gweithredol am Gyllid o 1 Ebrill 2017)
- Kate Husselbee, Cyfarwyddwr AD a Llywodraethu (nes 11 Ionawr 2017)
- Sue Steen, Cyfarwyddwr AD a Llywodraethu Dros Dro (o 5 Ionawr 2017 nes 20 Ebrill 2017)
- Bobby Davis, Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol (o 22 Mai 2017).

[18]Aeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol drwy gyfnod o ad-drefnu ar ddechrau 2017 a oedd yn cynnwys ffurfio Tîm Rheoli Gweithredol newydd gyda phedwar cyfarwyddwr gweithredol yn arwain pob agwedd ar y sefydliad. Egwyddor yr ad-drefnu oedd creu arweinyddiaeth gref i'r sefydliad wedi'i chefnogi gan arbenigwyr technegol ar lefel penaethiaid gwasanaethau ond nid o reidrwydd yn rhan o'r tîm gweithredol. Ystyriwyd bod hyn yn briodol ar gyfer y sefydliad er mwyn cefnogi ei strategaeth esblygol.



# 8 Adroddiad ar dâl

## Y Pwyllgor Tâl

Cynhaliodd y Cyngor benodiad Pwyllgor Tâl ar gyfer materion penodol sy'n ymwneud â thalu aelodau'r Cyngor a chyfarwyddwyr gweithredol ac ar gyfer polisi cyffredinol ar dâl staff.

Cafodd y pwyllgor ei gadeirio gan Neil Stevenson nes 30 Medi 2017 a Geraldine Campbell o 1 Hydref 2017.

Aelodau'r pwyllgor nes 30 Medi 2017 oedd Neil Stevenson, Geraldine Campbell, Jayendra Patel ac, fel aelod annibynnol, Philippa Hird. O 1 Hydref 2017, yr aelodau oedd Geraldine Campbell, Anne Heal, Caroline Logan ac, fel aelod annibynnol, Philippa Hird. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl penodol ac yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Gall y pwyllgor gymryd cyngor cyfreithiol i gefnogi ei waith a'i benderfyniadau, ac yn 2017 mae wedi gofyn am gyngor gan gynghorwyr allanol ar y cynllun pensiwn a materion cysylltiedig.

## Tâl aelodau'r Cyngor

Mae tâl blynyddol y Cadeirydd yn cael ei bennu gan y pwyllgor ar sail cyfraddau cyffredinol swyddi tebyg a'r amser sy'n ofynnol i gyflawni'r rôl. Penderfynwyd ar dâl y Cadeirydd ym mis Hydref 2013 ar raddfa o £55,000 y flwyddyn, a'i adolygu ddiwethaf yn Chwefror 2017.

Mae aelodau'r Cyngor yn derbyn tâl ar gyfradd flynyddol, a bennwyd ym mis Hydref 2013, a'i adolygu ddiwethaf yn Chwefror 2017, sef £15,000 y flwyddyn gydag ychwanegiadau o £3,000 y flwyddyn i gadeiryddion pwyllgorau.

## Tâl cyfarwyddwyr gweithredol

Mae dilyniant cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol yn dibynnu ar berfformiad unigolion a meincnodau allanol ar gyfer cyflogau. Tra bod y Prif Weithredwr yn gwneud argymhellion ar gyfer ei gyd-gyfarwyddwyr gweithredol, mae unrhyw godiadau cyflog neu gynnydd mewn taliadau eraill yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Tâl. Nid yw'r polisi tâl ar gyfer y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer taliadau perfformiad.

Er mwyn cefnogi ein huchelgais strategol i barhau i feithrin sefydliad effeithiol ac effeithlon a fydd yn gwella ein perfformiad cyffredinol ac yn sbarduno gwelliannau mewn rheoleiddio deintyddol, rydym wedi ymrwymo i ddenu, datblygu a chadw gweithwyr cyflogedig hynod ddawnus sydd â'r ymroddiad a'r gallu i ddefnyddio'r sgiliau hyn ar draws amrywiaeth o rolau a gweithgareddau.
Trwy arweinyddiaeth fwy gweladwy, cydweithio a

gwrando ar lais y gweithiwr, byddwn yn adeiladu sefydliad dysgu sydd wedi ymrwymo i welliannau parhaus. Bydd gwelliannau i'n dull cydnabod a datblygu yn 2017 yn cefnogi'r diwylliant esblygol hwn fel blaenoriaeth allweddol.

Mae contract cyflogaeth y Prif Weithredwr yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r gweithiwr cyflogedig neu'r cyflogwr roi chwe mis o rybudd cyn dod â'r contract i ben. Mae contractau gweddill y cyfarwyddwyr gweithredol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r gweithiwr cyflogedig neu'r cyflogwr roi tri mis o rybudd cyn dod â'r contract i ben ar ôl y cyfnod prawf.

Mae pob un o'r cyfarwyddwyr gweithredol yn aelodau o adran buddion diffiniedig neu adran cyfraniadau diffiniedig cynllun pensiwn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn cael ei benodi'n uniongyrchol gan y Cyngor ac yn atebol i'r Cyngor ac mae ganddo awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor i wneud penderfyniadau i'r graddau a ddisgrifir yn y datganiad llywodraethu. Mae'r datganiad yn nodi'n glir mai rôl y Cyngor yw pennu cyfeiriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn unol â'i genhadaeth a'i ddiben, gan sicrhau bod systemau ar waith i'w alluogi i fonitro perfformiad a dwyn y tîm gweithredol i gyfrif, a sicrhau cywirdeb. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd wedi'i ddynodi yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan Swyddfa'r Cyfrin Gyngor ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd y swydd honno, fel y nodwyd ym Mhennod 3 Managing Public Money, yn annibynnol ar y Cyngor. Mae manylion y taliadau sydd wedi'u datgelu ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd i'w gweld yn llawn isod, ynghyd â datgeliad tâl trethadwy, ac eithrio unrhyw daliadau iawndal, mewn bandiau cyflog ar gyfer y cyfarwyddwyr gweithredol eraill.

Ar gyfer yr aelod staff â'r cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn, sef y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, Ian Brack, roedd y tâl a'r cyfraniadau pensiwn cyflogwr fel a ganlyn:

| Enillion | | Buddion trethadwy | | Cyfanswm tâl | | Cyfraniadau pensiwn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017 £000 | 2016 £000 | 2017 £000 | 2016 £000 | 2017 £000 | 2016 £000 | 2017 £000 | 2016 £000 |
| 140 | 140 | - | - | 140 | 140 | 8 | 8 |

Roedd enillion trethadwy a chyfraniadau pensiwn cyflogwr y cyfarwyddwyr gweithredol eraill a wasanaethodd yn 2017, gan gynnwys codiadau cyflog neu daliadau eraill (ond ac eithrio unrhyw daliadau iawndal, y ceir eu manylion isod), yn perthyn i'r bandiau cyflog canlynol:

| | Enillion | | Cyfraniadau pensiwn | |
|---|---|---|---|---|
| | 2017 £000 | 2016 £000 | 2017 £000 | 2016 £000 |
| Graham Masters | 30 – 35 | 100 – 105 | 5 – 7.5 | 22.5 – 25 |
| Kate Husselbee | 1 – 5 | 105 – 110 | – | 22.5 – 25 |
| Gurvinder Soomal[17] | 110 – 115 | 105 – 110 | 25 – 27.5 | 20 – 22.5 |
| Jonathan Green[18] | 120 – 125 | 110 – 115 | 20 – 22.5 | 20 – 22.5 |
| Matthew Hill | 115 – 120 | 110 – 115 | 5 – 7.5 | 5 – 7.5 |
| Sue Steen | 60 – 70 | – | – | – |
| Bobby Davis | 65 – 70 | – | 2.5 – 5 | – |

Mewn termau cyfun, roedd y tâl i'r cyfarwyddwyr gweithredol a wasanaethodd yn ystod 2017 yn dod i gyfanswm o £657,000 (2016: £800,000). Mae hyn yn cynnwys taliad iawndal o £64,777 i un cyfarwyddwr gweithredol. Cafodd hwn ei dalu yn 2017.

Roedd tâl y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf, sef y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, 3.8 gwaith (2016: 3.9 gwaith) yn uwch na thâl canolrif y gweithlu, sef £36,418 (2016: £36,090).

Ni thalwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn.

[19] Yn cynnwys gwerthu absenoldeb na chymerwyd yn ôl - £2,361 yn 2016 a £1,971 yn 2017.
[20] Yn cynnwys gwerthu absenoldeb na chymerwyd yn ôl - £2,440 yn 2016 a £2,144 yn 2017.



## Polisi tâl staff

Datblygir y polisi tâl ar gyfer staff gan y Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol mewn cydweithrediad â'r Prif Swyddog Gweithredol a'r cyfarwyddwyr gweithredol, cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Tâl.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi ymrwymo i egwyddorion cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal i bob gweithiwr cyflogedig ac mae'n ceisio sicrhau bod ei systemau cyflog yn deg ac yn ddiduedd. Mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a chynnal Adolygiadau Cyflog Cyfartal i nodi a dileu unrhyw fylchau cyflog na ellir eu hesbonio ar sail wrthrychol.

Parhaodd trefniadau pensiwn i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn i ymateb i'r angen i reoli'r gwariant sydd ei angen i ariannu adran buddion diffiniedig y cynllun pensiwn. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn dal i weithredu cynllun pensiwn buddion diffiniedig i staff ond cafodd yr adran hon o'r cynllun ei chau i staff newydd sy'n ymuno o 1 Gorffennaf 2016 ymlaen. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig hefyd sy'n seiliedig ar ymddiriedolaeth ac sy'n bodloni gofynion ymrestru awtomatig ac yn rhagori arnynt.

## Niferoedd staff a manylion enillion

Dyma nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, yn ystod y flwyddyn wedi'i ddadansoddi yn ôl swyddogaeth:

| | Staff a | Eraill | Cyfanswm gyflogir yn | Cyfanswm gyflogir yn |
|---|---|---|---|---|
| Addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau | 107 | 18 | 125 | 137 |
| Cofrestru | 49 | 5 | 54 | 69 |
| Datblygu Sefydliadol | 75 | 8 | 83 | 71 |
| Strategaeth | 22 | 2 | 24 | 24 |
| Adnoddau Corfforaethol | 46 | 3 | 49 | 38 |
| **Cyfanswm** | **299** | **36** | **335** | **339** |

Dyma nifer yr aelodau staff, gan gynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, yr oedd eu tâl trethadwy, ac eithrio unrhyw daliadau iawndal, yn perthyn i fandiau cyflog uwch:

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| £60,000 ond o dan £70,000 | 19 | 10 |
| £70,000 ond o dan £80,000 | 7 | 6 |
| £80,000 ond o dan £90,000 | 3 | 2 |
| £90,000 ond o dan £100,000 | 2 | 1 |
| £100,000 ond o dan £110,000 | - | 3 |
| £110,000 ond o dan £120,000 | 3 | 2 |
| £130,000 ond o dan £140,000 | - | 1 |
| £140,000 ond o dan £150,000 | 1 | - |

Roedd 11 o aelodau staff o'r rhestr uchod yn aelodau o adran buddion diffiniedig y cynllun pensiwn (2016: 13 aelod staff) ac roedd 27 aelod staff yn aelodau o adran cyfraniadau diffiniedig y cynllun pensiwn (2016: 10 aelod staff). Y pensiwn a gronnwyd gan y gweithiwr cyflogedig ar y cyflog uchaf o dan adran cyfraniadau diffiniedig y cynllun oedd £8,400 (pensiwn a gronnwyd gan y gweithiwr cyflogedig ar y cyflog uchaf yn 2016 o dan adran cyfraniadau diffiniedig y cynllun oedd £7,894).

Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfartaledd yn 10.4% (canolrif 18.4%) o blaid dynion . Mae hwn yn cymharu â meincnod allanol o ganolrif o 18.4% (Ebrill 2017) ar draws yr holl ddiwydiannau . Derbyniodd 1.5% o staff gwrywaidd a 3.6% o staff benywaidd fonws, ar ffurf taliad cydnabyddiaeth, (Ebrill 2016 – Mawrth 2017), fodd bynnag, roedd y bonysau a dalwyd 14.7% yn uwch ar gyfartaledd i ddynion (canolrif 33.7%).

[21]Cyfartaledd yw'r cymedr a'r canolrif yw'r pwynt canol.
[22]Cymerwyd y ffigurau o ddyddiad cipolwg 5 Ebrill 2017 ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
[23]Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion: dros dro 2017. Casglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Ffioedd a threuliau aelodau'r Cyngor a dalwyd:

| | Ffioedd aelodau | | Treuliau aelodau | | Treth ac YG | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017 £ 000 | 2016 £000 | 2017 £000 | 2016 £000 | 2017 £000 | 2016 £000 | 2017 £000 | 2016 £000 |
| Catherine Brady | 15 | 15 | 1 | 1 | 1 | 1 | 17 | 17 |
| Terry Babbs* | 18 | 5 | 1 | 0 | 2 | 0 | 21 | 5 |
| Geraldine Campbell | 16 | 15 | 5 | 5 | 3 | 3 | 24 | 23 |
| Michael Carroll** | 0 | 14 | 0 | 3 | 0 | 4 | 0 | 21 |
| Rosemary Elizabeth Carter | 14 | 18 | 4 | 5 | 2 | 4 | 20 | 27 |
| Margaret Kellett | 15 | 15 | 4 | 5 | 4 | 7 | 23 | 27 |
| Alan MacDonald*** | 14 | 18 | 5 | 11 | 3 | 6 | 22 | 35 |
| Kirstie Moons | 16 | 15 | 7 | 6 | 6 | 6 | 29 | 27 |
| William Moyes | 55 | 55 | 16 | 22 | 12 | 16 | 83 | 93 |
| Lawrence Mudford | 15 | 15 | 1 | 4 | 1 | 3 | 17 | 22 |
| Jayendra Patel*** | 11 | 15 | 3 | 5 | 2 | 3 | 16 | 23 |
| David Smith***^ | 11 | 16 | 2 | 2 | 2 | 2 | 15 | 20 |
| Neil Stevenson*** | 14 | 18 | 6 | 7 | 5 | 8 | 25 | 33 |
| Anne Heal**** | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Jeyanthi John**** | 4 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 5 | 0 |
| Sheila Kumar**** | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Caroline Logan**** | 4 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 6 | 0 |
| Crispin Passmore**** | 5 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 6 | 0 |
| | **235** | **234** | **56** | **76** | **46** | **63** | **337** | **373** |

* O 6 Hydref 2016 ymlaen

** Tan 6 Hydref 2016

*** Tan 30 Medi 2017

***^Cafodd ffioedd i David Smith eu talu i gwmni masnachu Phoenix Dental Castings tan 31 Mawrth 2016, cwmni y mae'n rheolwr gyfarwyddwr arno, yn cynnwys elfen sy'n cyfateb i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr (£518 yn 2016). O 1 Ebrill 2016 talwyd ffioedd iddo fel tâl trethadwy, yn yr un modd â holl aelodau eraill y Cyngor.

**** O 1 Hydref 2017

Mae treuliau sy'n codi'n uniongyrchol o gyflawni dyletswyddau yn cael eu had-dalu yn unol â pholisi a gweithdrefnau treuliau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer aelodau'r Cyngor, ac maent yn cydnabod rôl genedlaethol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i o leiaf un aelod fod yn gweithio ym mhob un o'r pedair gwlad yn y DU; a gwahanol gyfrifoldebau aelodau unigol y Cyngor. Mae'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n daladwy yn cynnwys Yswiriant Gwladol y cyflogwr ar ffioedd aelodau ac ar gyfer treuliau, yr ystyrir eu bod yn fuddion trethadwy o fath arall.

Mae'r ffigurau yn y tablau uchod wedi cael eu harchwilio.

**Ian Brack**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

17 Mai 2018



9

# **9** Adroddiad cyfrifoldeb cymdeithasol

## Caffael

Mae ein dulliau caffael yn seiliedig ar brosesau a gweithdrefnau cadarn i sicrhau arfer gorau a gwerth am arian. Mae'r holl weithgarwch caffael yn cael ei fonitro i sicrhau ein bod yn agored a thryloyw. Mae disgwyl i'n cyflenwyr fod wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac amrywiaeth, a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae gennym hanes da o dalu'n cyflenwyr yn fuan sy'n helpu i gynnal llawer o'r busnesau bach sy'n gweithio i ni.

Rydym wedi ymrwymo i helpu i drechu caethwasiaeth fodern. Rydym yn gweithredu'n foesegol ac yn ddidwyll yn ein holl drafodion a chysylltiadau busnes. Trwy wneud hynny rydym wedi ymrwymo i weithredu a gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn digwydd unrhyw le yn ein busnesau ni neu fusnesau ein cyflenwyr. Mae natur ein busnes yn golygu bod y risg o gaethwasiaeth fodern yn ein busnes a rheng flaen ein cadwyn gyflenwi yn isel.

Byddwn yn parhau i geisio sicrhau arbedion wrth sicrhau bod ein dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni.

## Iechyd a diogelwch

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi ymrwymo i hyrwyddo amgylchedd iach heb berygl o niwed ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn adolygu iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

Adolygwyd Polisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor Deintyddol Cyffredinol mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'i ddiweddaru'n unol â hynny.

Mae asesiadau risg yn parhau i gael eu cynnal fel bo angen. Yn 2017, cafwyd saith mân ddamwain yn ein prif swyddfeydd yn Llundain. Cofnodwyd pob un ohonynt fel 'damweiniau a fu bron â digwydd'.

## Amgylcheddol

Adolygwyd y Polisi Amgylcheddol yn 2017. Er mwyn defnyddio llai o bapur ac inc, mae'r defnydd o argraffu yn cael ei reoli a'i fonitro. Anogir staff i ddefnyddio'r sganiwr ac i ffeilio'n electronig. Mae'r Cyngor a'r pwyllgorau bellach yn defnyddio dogfennau electronig yn bennaf yn hytrach na rhai papur. Mae adroddiadau sy'n dangos nifer y tudalennau a argraffir yn cael eu hanfon at bob

aelod o staff bob hyn a hyn fel rhan o ymgais i leihau gwastraff. Yn 2017 cafwyd gostyngiad o 22% yn nifer y tudalennau a argraffwyd, diolch i'r metrau hyn, o gymharu â 2016. Rydym yn parhau i ailgylchu'r holl wastraff cyfrinachol a gwastraff cymysg.

Mae pencadlys y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar 37 Wimpole Street yn ymgorffori egwyddorion dylunio cynaliadwy, yn defnyddio ynni'n effeithlon ac yn lleihau allyriadau carbon deuocsid. Er enghraifft, mae'r adeilad yn defnyddio goleuadau LED sy'n synhwyro symudiad, felly mae'r goleuadau yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn goleuo a diffodd yn awtomatig. Darperir cyfleusterau beicio hefyd yn cynnwys rheseli beiciau diogel mewnol a chawodydd.

## Staff

Ym mis Rhagfyr 2017, roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyflogi 353 o aelodau staff (roedd 345 ym mis Rhagfyr 2016). Gellir priodoli'r cynnydd o 2.3% i'r ychydig o swyddi ychwanegol yn yr adrannau Cyllid ac Adnoddau Dynol a'r tîm Cynghorydd Deintyddol Clinigol newydd o fewn Addasrwydd i Ymarfer.

## Rhyw ac oedran

Mae 62% o'n gweithwyr yn fenywod (2016: 63%). Mae'r rhai 50+ oed yn cynrychioli 15.3% o'r gweithlu (2016: 12%).

## Ethnigrwydd

Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod 43% (2016: 32%) o'n staff o gefndir gwyn a 21% (2016: 24%) o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

Nid oes gennym ddata ar gyfer y 36% (2016: 44%) sy'n weddill, gan mai staff sy'n gyfrifol am gwblhau eu data cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain yn ein cronfa ddata AD, ac nid yw cwblhau data cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ofyniad gorfodol.

Rydym wrthi'n annog staff i ddiweddaru eu data cydraddoldeb ac amrywiaeth ac wedi hyrwyddo'n canllaw monitro data ar gyfer staff. Er bod datgan data cydraddoldeb ac amrywiaeth y gweithlu yn wirfoddol, rydym wedi gweld cynnydd bychan yn y staff sy'n rhannu'r data hwn gyda'r sefydliad. Bydd hyn yn sicrhau bod ein gwaith monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyson ac, yn bwysicach, bod gwaith dadansoddi priodol yn cael ei gynnal fel bod mentrau ac ymyriadau yn ymwneud â darparu gwasanaethau a'r gweithlu yn cael eu llywio gan wybodaeth.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Credwn y dylai cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fod yn rhywbeth y dylai pawb weithio i'w gyflawni ac mae'r ffrydiau gwaith canlynol yn cefnogi'r nod hwnnw:

- Yn 2017, cwblhawyd cyfanswm o 18 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ledled y sefydliad.
- Cychwynnwyd ar ein hadolygiad o'n proses gasglu data a chafodd dosbarthiadau monitro eu diweddaru.
- Sicrhaodd ymgyrch i annog aelodau staff a Chyngor i ddiweddaru eu gwybodaeth cydraddoldeb gyfradd gwblhau o 64% yn achos y staff a 100% yn achos y Cyngor.
- Yn 2017, roedd yr arolwg staff yn cynnwys nifer o gwestiynau am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Byddwn yn parhau i gynnwys cwestiynau yn yr arolwg staff i gefnogi dysgu sefydliadol a llywio'n gwaith.
- Mewn cydweithrediad â'r Fforwm Staff, cynhaliwyd digwyddiad Iechyd a Llesiant cyntaf y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ym mis Hydref.
- Cynhaliwyd cyfres o weithdai ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i aseswyr deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'n hamcanion, gwerthoedd ac ymddygiad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut y gallant ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu swyddi. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i aseswyr deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ar y Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a beth mae hyn yn ei olygu i'w swydd a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
- Adolygwyd a chwblhawyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â pholisïau Adnoddau Dynol.
- Mae'r tîm recriwtio wrthi'n darparu gweithdai i'n rheolwyr cyfredol a fydd yna'n cael eu cynnal yn rheolaidd i'r rhai sy'n ymuno o'r newydd.
- Sicrhawyd bod pob elfen o broses recriwtio aelodau'r Cyngor yn bodloni rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Adolygwyd proffiliau swyddi a chymwyseddau'r swyddi hyn i sicrhau nad yw'r meini prawf yn gwahaniaethu yn uniongyrchol nac anuniongyrchol, nac yn atal ceisiadau gan grwpiau penodol. Rhoddwyd cyngor ar y trefniadau ar gyfer monitro cyfle cyfartal a gynhelir gan yr asiantaeth recriwtio.
- Drwy waith ein Gwasanaeth Cymorth i Dystion, datblygwyd ein cysylltiad ymhellach rhwng y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thystion a allai fod yn agored i niwed. Roeddem yn cydnabod y gallai fod yna heriau o ran y ffordd rydym yn cyfathrebu â thystion ac yn eu cefnogi ym mhob cam o'r ymchwiliad a'r broses wrandawiad. Cyflwynwyd gwelliannau i'r broses o ddarparu gwybodaeth i'r swyddog cymorth tystion; adolygwyd a diweddarwyd y dogfennau a'r canllawiau ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a darparwyd gwybodaeth glir, gryno, gywir ar y Gwasanaeth Cymorth i Dystion; cyflwynwyd gwelliannau hefyd i'r prosesau ar gyfer nodi tystion a oedd angen cymorth ychwanegol. Adolygwyd swydd cynorthwywyr gwrandawiadau a swyddogion cymorth tystion hefyd; cyflwynwyd gwelliannau i'r broses o gasglu data am dystion sy'n cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Cymorth i Dystion; cyflwynwyd rhaglen sefydlu ffurfiol; ymchwiliwyd a chynhyrchwyd achos busnes i'r tîm Gwrandawiadau dderbyn hyfforddiant gan ddarparwyr allanol cymeradwy; a chyflwynwyd gwelliannau i'r broses o gadw cofnodion a rhannu gwybodaeth am dystion.
- Parhawyd i gynrychioli'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol mewn fforymau allanol fel Buddsoddwr y Deyrnas Unedig mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Gyfeiriadedd Rhywiol ar draws y Rheoliadau Iechyd a Chyd-grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Rheoleiddwyr Gofal Iechyd.
- Comisiynwyd cyfreithwyr, Penningtons Manches, LLP, i gynnal archwiliad annibynnol i adolygu nifer o achosion a ddewiswyd ar hap o holl broses Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, i sicrhau bod achosion yn cael eu hystyried yn briodol, yn unol â'r egwyddorion cywir ac er lles y cyhoedd. Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn gadarnhaol. Ar y cyfan, roedd penderfyniadau wedi'u hystyried yn ofalus, gyda rhesymeg dda ac yn gadarn. Roedd tystiolaeth bod defnydd da yn cael ei wneud o ddogfennau canllaw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod cyfathrebu'n digwydd o fewn adrannau a chyda sefydliadau eraill.

## Ymgysylltiad staff

Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fforwm staff etholedig sy'n cyfarfod bob yn ail fis a phan fo angen. Mae'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, ac yn cael ei fynychu gan y Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol. Cynyddodd maint y fforwm yn 2017, i 14 o aelodau, ac mae'n cynrychioli holl dimau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae'n trafod materion staff amrywiol, gan gynnwys adolygu polisïau AD presennol a chyflwyno rhai newydd. Os cynigir newidiadau a allai effeithio ar yr holl staff, cynhelir cyfarfodydd ymgynghori, boed ymgynghoriad ffurfiol yn ofyniad cyfreithiol ai peidio.

Mae'r sesiynau briffio i'r holl staff yn gyfle i staff drafod materion a phynciau'n fwy anffurfiol gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Dechreuwyd 2017 gyda chynlluniau i adolygu'r ffordd rydym yn mesur ac yn adrodd ar fodlonrwydd staff ac ymgysylltiad staff. Ar y dechrau, y bwriad oedd symud oddi wrth arolygon graddfa fawr, sy'n cael eu cynnal bob dwy flynedd, yr ydym wedi dibynnu arnynt yn draddodiadol. Fodd bynnag, roedd yr angen i ddata lywio'r Arolwg Pobl drafft a ffrydiau gwaith sefydliadol eraill yn golygu ein bod wedi comisiynu arolwg yn 2017. Cafwyd cyfradd ymateb o 72%, a llwyddwyd i nodi themâu allweddol a gafodd eu hymchwilio ymhellach drwy nifer sylweddol o grwpiau ffocws staff. Mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r arolwg a'r grwpiau ffocws wedi ein galluogi i greu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r themâu allweddol. Mae'r gwaith o'i weithredu wedi dechrau.

Byddwn yn arolygu mewn ffordd â mwy o hyblygrwydd a ffocws, drwy gyflwyno arolygon graddfa fach rheolaidd ar bynciau penodol. Byddai hyn yn sicrhau bod y data rydym yn ei gasglu yn berthnasol ac yn gynrychiadol, ac yn ein galluogi i weithredu'n uniongyrchol – a chyflym – ar sail yr hyn mae staff yn ei ddweud wrthym.

Mae gan staff y cyfle hefyd i fynegi eu barn a gofyn cwestiynau i'r Tîm Rheoli Gweithredol ar y fewnrwyd yn barhaus. Cyhoeddir cylchlythyr mewnol misol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff a chyhoeddir gwybodaeth i'r holl staff ar bynciau penodol yn ôl y gofyn.

10

# 10 Adolygiad ariannol

**Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2017**

**Dadansoddiad o Incwm a Gwariant yn ôl Swyddogaeth Reoleiddio**

Mae'r Cyfrifon ar dudalennau 80 i 108 yn dangos ein hincwm a'n gwariant mewn fformat cyfrifon safonol. Er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i randdeiliaid, mae'r tabl isod yn dangos ein perfformiad yn ôl swyddogaeth reoleiddio:

| | 2017 £000 | 2017 £000 | 2016 £000 | 2016 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | |
| Cofrestru | 44,989 | | 44,536 | |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 1,389 | | 1,877 | |
| Incwm gweithredu arall | 3 | | 27 | |
| | | **46,381** | | **46,440** |
| **Gwariant** | | | | |
| **Gweithgareddau Rheoleiddio** | | | | |
| Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau | 20,258 | | 26,107 | |
| Cofrestru | 2,295 | | 2,560 | |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 1,458 | | 1,951 | |
| Rheoli Rhanddeiliaid a Pholisi | 1,264 | | 1,131 | |
| Llywodraethu | 1,413 | | 1,796 | |
| Sicrhau Ansawdd | 667 | | 867 | |
| Y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 505 | | 565 | |
| | | **27,860** | | **34,977** |
| **Gweithgareddau cefnogi** | | | | |
| Cyllid, AD a Phrif Swyddog Gweithredol | 4,226 | | 3,355 | |
| Gwasanaethau Llety a Swyddfa | 2,009 | | 2,108 | |
| Adnoddau Corfforaethol | 1,542 | | 1,532 | |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,285 | | 2,145 | |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad | 1,064 | | 1,141 | |
| | | **11,126** | | **10,281** |
| **Cyfanswm gwariant** | | **38,986** | | **45,258** |
| Incwm o Fuddsoddiadau | | 114 | | 762 |
| **Gwarged cyn treth** | | **7,509** | | **1,944** |
| Treth | | (51) | | (85) |
| **Gwarged a gadwyd ar ôl treth** | | **7,458** | | **1,859** |



Ariennir y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn bennaf gan ffioedd a delir gan ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gorfod cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn unol â Deddf Ddeintyddion 1984, er mwyn ymarfer deintyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae gweithwyr deintyddol proffesiynol yn talu ffioedd i ni hefyd er mwyn cadw eu henwau ar ein rhestri arbenigwyr.

## Dadansoddiad incwm

Arhosodd cyfanswm yr incwm gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol ar £46.4 miliwn (2016 – £46.4 miliwn). Gwnaed iawn am yr incwm uwch (£0.5 miliwn) yn sgil 382 o ddeintyddion a 1,229 o weithwyr gofal deintyddol proffesiynol ychwanegol yn adnewyddu eu cofrestriad yn 2017, o gymharu â 2016, gan ostyngiad o £0.5 miliwn mewn incwm gan lai o ymgeiswyr yn sefyll yr Arholiad Cofrestru Tramor yn 2017.

## Dadansoddiad gwariant

Gostyngodd cyfanswm y gwariant i £39.0 miliwn yn 2017 (2016 – £45.3 miliwn), gyda llai o wariant ar y rhan fwyaf o swyddogaethau.

Gostyngodd costau Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau £5.8 miliwn i £20.3 miliwn (2016 – £26.1 miliwn) oherwydd:

- arweiniodd gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion newydd a atgyfeiriwyd ar gyfer erlyniad o 333 yn 2016 i 224 achos yn 2017 at ostyngiad o £3.0 miliwn yng nghost erlyn achosion Addasrwydd i Ymarfer gan y Gwasanaethau Erlyniadau Cyfreithiol Mewnol (ILPs) a darparwyr cyfreithiol allanol. Roedd hyn yn deillio'n bennaf o'r gostyngiad yn nifer yr achosion a ddaw i mewn a'r oedi yn y cam gwaith achosion a fydd yn cael effaith ariannol yn llygad y ffynnon, sy'n golygu y bydd rhywfaint o wariant yn cael ei ohirio nes 2018
- arweiniodd gostyngiad o 5% yn nifer y diwrnodau gwrandawiadau o 1,746 diwrnod yn 2016 i 1,658 diwrnod yn 2017, gostyngiad mewn llogi lleoliadau i gyfarfodydd allanol i'w defnyddio fel ystafelloedd gwrandawiadau ac arbedion o newid yn y gwasanaeth trawsgrifio gwrandawiadau o ddefnyddio stenograffyddion i ddefnyddio cofnodwyr a thrawsgrifwyr, at ostyngiad o £1.5 miliwn yng nghostau gwrandawiadau
- nid oedd yr adnoddau dros dro a ddefnyddiwyd yn 2016 i helpu'r tîm gwaith achosion i wneud gwelliannau i'r broses ac i brosesu achosion yn fwy cyflym yn unol â safonau perfformiad yn angenrheidiol yn 2017. Arweiniodd llai o wariant ar gyngor meddygol allanol a gomisiynwyd yn y cam ymchwilio yn sgil llai o achosion a sefydlu adran cyngor deintyddol clinigol fewnol ym mis Hydref 2017, at ostyngiad mewn gwariant o £0.7 miliwn.
- cyflwynwyd archwilwyr achosion ym mis Tachwedd 2016 i gyflawni'r rhan fwyaf o swyddogaethau yr arferai'r Pwyllgor Ymchwilio eu cyflawni. Roedd cost gwaith yr archwilwyr achosion £0.4 miliwn yn is na'r Pwyllgor Ymchwilio yn 2017
- gwnaed addasiad untro i gostau'r gwaith Ymarfer Anghyfreithlon yn 2016. Pan ddyfernir costau i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol mewn perthynas ag achosion llys sy'n cynnwys ymarfer anghyfreithlon, mae'r rhain nawr yn cael eu hadrodd wrth dderbyn tâl, yn hytrach nag ar adeg gwneud y dyfarniad llys fel oedd yn arfer digwydd. Roedd angen dileu dyled ddrwg yn 2016 i wneud hyn. O ganlyniad, mae costau gwaith ymarfer anghyfreithlon 2017 £0.2 miliwn yn is na chostau 2016.

Mae'r cynnydd o £0.3 miliwn mewn costau Cofrestru yn deillio o'r angen am staff ychwanegol yn 2016 ar gyfer gweithgarwch yn gysylltiedig â Datblygiad Proffesiynol Parhaus manylach a gwirio indemniad.

Ymgeisiodd 168 yn llai am yr Arholiad Cofrestru Tramor yn 2017, gan arwain at ostyngiad o £0.5 miliwn mewn gwariant.

Cafwyd cynnydd o £0.1 miliwn mewn costau rheoli Rhanddeiliaid a Pholisi, sy'n adlewyrchu mwy o ffocws ar ymgysylltu allanol yn unol â Shifting the balance. Digwyddodd hyn yng nghyd-destun ad-drefnu adnoddau Polisi o fewn y gyfarwyddiaeth Strategaeth, gyda hyn hefyd yn arwain at ostyngiad o £0.2 miliwn yng nghostau Sicrhau Ansawdd heb leihau gweithgarwch. Mae'r £0.1 miliwn sy'n weddill yn deillio o arbedion a sicrhawyd drwy beidio ôl-lenwi swyddi pan ddaethant yn wag yn sgil absenoldeb mamolaeth a gymerwyd yn 2017.

Mae'r gostyngiad o £0.4 miliwn mewn costau Llywodraethu yn deillio o ostyngiad yn y gofyn am gyngor cyfreithiol corfforaethol allanol a chostau staff is ar ôl ailstrwythuro'r tîm llywodraethu yn 2016.

Roedd y cynnydd o £0.9 miliwn mewn costau Cyllid, AD a'r Prif Swyddog Gweithredol yn deillio o ailstrwythuro'r Tîm Rheoli Gweithredol a chanoli costau'r Tîm. Mae addasiad o £0.7 miliwn i gostau pensiwn yn adlewyrchu taliadau i'r cynllun a'r llog a dderbyniwyd gyda thaliadau o'r cynllun ar ben hynny.

Mae costau llety a gwasanaethau swyddfa wedi cynyddu £0.1 miliwn, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad yn yr ardrethi adeiladau i'w talu yn dilyn canlyniad ymarfer ail-werthuso ardrethi 2017.

Gydol 2017, parhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol â mentrau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd newydd o £0.6 miliwn yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, sicrhawyd arbedion parhaus o £3.5 miliwn o brosiectau a ddechreuwyd yn ystod

blynyddoedd blaenorol. Felly, yn 2017 cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd o £4.1 miliwn, sef mwy na 10% o sylfaen cost 2017, gan arwain at arbedion cronnol o tua £6.5 miliwn dros bum mlynedd. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyfyngu'r broses o adrodd ar arbedion a gyflawnir gan fentrau unigol i uchafswm o 5 mlynedd. Gydol y broses o nodi arbedion effeithlonrwydd, mae ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i sicrhau nad yw rhoi'r mesurau ar waith yn peryglu diogelwch y cyhoedd. Yn wir, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn parhau i ddefnyddio'r arbedion hyn i gyllido rhaglen o welliannau i'r swyddogaeth addasrwydd i ymarfer.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae dyledwr o £0.7 miliwn yn parhau yn y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r hawliad am £1.3 miliwn i ad-dalu taliadau Yswiriant Gwladol a threth incwm y flwyddyn flaenorol ar ôl cytuno ar statws treth aelodau pwyllgor, panelwyr ac arolygwyr. Er nad yw CThEM wedi cadarnhau eto pryd fydd y swm dyledus yn cael ei dalu, mae'n cynghorwyr wedi cadarnhau bod gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol hawl i'r swm ac felly mae'r dyledwr yn parhau yn y cyfrifon.

## Rhagolygon

Yn 2014, gofynnodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol am ddiwygiadau deddfwriaethol a gafodd gydsyniad yn 2016 drwy orchymyn adran 60 , ac a oedd yn ein galluogi i gyflwyno gwelliannau sylweddol i'n prosesau Addasrwydd i Ymarfer. Roedd y newidiadau'n effeithio ar gam ymchwilio'r broses Addasrwydd i Ymarfer ac mae rhannau perthnasol o'r sefydliad eisoes wedi cael eu hailstrwythuro mewn ffordd sy'n sicrhau bod ein prosesau yn symlach, gan wella ein penderfyniadau a sicrhau arbedion cost sylweddol yn 2018 a thu hwnt.

Bydd mentrau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn parhau yn 2018, gyda gofyniad o hyd ar y sefydliad i gyrraedd targedau heriol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd newydd. Bydd mesurau sydd eisoes wedi'u nodi a'u rhoi ar waith yn cyfrannu £6.5 miliwn yn 2018, a bydd mesurau newydd yn sicrhau arbedion ychwanegol o £0.2 miliwn, sef cyfanswm o £6.7 miliwn. Byddwn yn parhau i sicrhau nad yw'r broses o nodi arbedion effeithlonrwydd yn peryglu ein gwaith diogelu'r cyhoedd.

## Cronfa Bensiwn

Yn unol â'r safon adrodd ariannol ar gyfer costau pensiwn, IAS 19, prisiodd actiwari'r cynllun pensiwn, Quantum Advisory, adran buddion diffiniedig y cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2017. Yn ôl eu dadansoddiad, cafwyd cynnydd actiwaraidd net o £2.8 miliwn yng ngwerth cronfa adran buddion diffiniedig y cynllun yn 2017, yn erbyn yr hyn a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd. Er bod y dybiaeth gyfradd ddisgownt yn is yn 2017 na 2016, gan adlewyrchu llai o elw ar fuddsoddiad mewn bondiau corfforaethol ansawdd uchel sy'n cael eu hystyried yn gyfwerth o ran hyd a maint i ymrwymiadau'r cynllun, gwrthbwyswyd hyn gan symudiadau cadarnhaol yn y rhagdybiaethau llog a marwolaeth. Yn y cyfamser, roedd taliadau o'r cynllun £0.7 miliwn yn fwy na thaliadau i'r cynllun a'r llog a dderbyniwyd. O ganlyniad, cafwyd cynnydd cyffredinol o £2.1 miliwn yn y cynllun pensiwn, a gwarged pensiwn IAS 19 o £1.5 miliwn (2017) o ddiffyg pensiwn o £0.6 miliwn (2016). Nid yw hyn yn ymwneud â'r prisiad teirblwydd o adran buddion diffiniedig y cynllun pensiwn a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2015, sy'n nodi gwarged lefel ariannu actiwaraidd o £1.5 miliwn ac a argymhellodd y dylai lefelau cyfraniadau'r cyflogwr i adran buddion diffiniedig y cynllun gael eu gosod ar 18% o 1 Ebrill 2016 tan y prisiad teirblwydd nesaf, ar 1 Ebrill 2018.

Ar 31 Rhagfyr 2017 roedd gan y cynllun warged o £1.5 miliwn yn seiliedig ar y tybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd. Dan ofynion IFRIC 14: Y Cyfyngiad ar Ased Budd Diffiniedig, y Gofynion Ariannu a'u Rhyngweithiad, gallai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol orfod cyfyngu'r gwarged mewn datganiadau ariannol os na fyddai'n gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. O dan delerau ac amodau'r cynllun, byddai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged naill ai trwy gymryd seibiant cyfraniadau llawn neu trwy leihau ei gyfraniadau yn y dyfodol. Felly, nid oes cyfyngiad ar y gwarged dan sylw.

## Risgiau hylifedd

Cynyddodd balansau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i £47.7 miliwn (2016 – £38.9 miliwn). Mae'r balansau hyn yn gylchol ac yn cyrraedd uchafbwynt yn Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst. Mae lefelau arian yn lleihau rhwng y cyfnodau hyn gan fod derbynebau'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, pan fydd deintyddion yn talu eu ffioedd cadw blynyddol, ac ym mis Gorffennaf, pan fydd gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu Ffi Cadw Blynyddol. Mae gwariant y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i rannu'n gyfartal gydol y flwyddyn.

Ddechrau 2016, roedd disgwyl y byddai gennym lai na £5 miliwn mewn adnoddau arian parod ar y pwynt isaf yn ein cylch arian parod – Tachwedd 2016 a 2017. Fel y cyfryw, bu'n rhaid gwaredu rhagor o fuddsoddiadau ecwiti er mwyn cynnal yr isafswm arian parod o £5 miliwn fel y nodir yn ein polisi buddsoddi. Erbyn Medi 2017, roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi gwaredu £3.4 miliwn gan adael £0.8 miliwn o'i bortffolio wedi'i fuddsoddi.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn fodlon nad yw'n wynebu unrhyw risg sylweddol o ddiddymiad. Mae'r balansau hynny nad oed eu hangen am resymau gweithredol byrdymor yn cael eu rhoi am dymor o dri mis fel blaendal marchnad arian sy'n cael ei adolygu a'i adnewyddu ar ddiwedd pob tymor ar hyn o bryd.

## Cronfeydd wrth gefn

Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2017 yw £22.7 miliwn (2016: £12.2 miliwn), ac mae cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn £20.3 miliwn o'r rhain (2016: £12.1 miliwn).

Adolygwyd a chytunwyd ar y polisi cronfeydd wrth gefn gan y Cyngor yn 2017. Mae'n rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- amcanion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wrth gyflawni ein cyfrifoldebau statudol a rheoleiddio
- risgiau i incwm a gwariant y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- rhaglenni gwariant cyf1alaf sylweddol arfaethedig.

Wrth osod lefel darged, ystyriodd y Cyngor fod cronfeydd wrth gefn gydag o leiaf dri mis o'r gwariant gweithredu (2017: £10.5 miliwn o'r gwariant gweithredu a gyllidebwyd) yn briodol, gyda tharged uchelgeisiol i'w gynyddu i ystod o bedwar a chwe mis o'r gwariant gweithredu blynyddol (2017: £14.0 miliwn i £21.0 miliwn). Mae'r ystod hwn yn amodol ar ystyriaeth flynyddol gan Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad y Cyngor pan fydd yn argymell cyllideb y flwyddyn ganlynol i'r Cyngor.

## Archwilwyr allanol

Mae'r cyfrifon wedi'u harchwilio gan ein harchwilwyr, haysmacintyre o 26 Queen Street Place, Llundain EC4R 1AG ac yn unol â Deddf Deintyddion 1984 gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Syr Amyas C E Morse, National Audit Office, 157–197 Buckingham Palace Road, Victoria, Llundain SW1W 9SP. Mae adroddiad yr archwilydd annibynnol i'w weld ar dudalen 75 o'r adroddiad hwn, ac mae tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 77.

## Datgelu gwybodaeth archwilio i'r archwilwyr:

Cyn belled ag y gwyddom ni, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd pob cam posibl i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno hefyd.

[24] Gorchymyn Adran 60 yw gorchymyn a wneir o dan Adran 60 o Ddeddf Iechyd 1999 sy'n galluogi newid deddfwriaeth sylfaenol berthnasol, Deddf Deintyddion 1984 yn yr achos hwn.

# **11** Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr

Dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor yn ogystal â'i incwm a'i wariant, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd i fod yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol i'r Cyngor am briodoldeb a rheoleidd-dra ei gyllid, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Cyngor.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Swyddog Cyfrifyddu wneud y canlynol:

- cydymffurfio â'r penderfyniad ar gyfrifon a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a rhoi polisïau cyfrifyddu addas ar waith yn gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y penderfyniad ar gyfrifon, wedi'u dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol gwneud hynny.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor wedi ystyried y gofynion uchod ac maent o'r farn, lle bônt yn berthnasol i'r Cyngor, y cydymffurfiwyd â hwy dan bob amgylchiad materol, gydag unrhyw faterion arwyddocaol wedi'u nodi yn y Datganiad Llywodraethu sy'n dilyn.



# **12** Datganiad llywodraethu

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal trefniadau llywodraethu effeithiol ac am sicrhau bod system reoli fewnol gadarn ar waith sy'n cefnogi polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ac yn diogelu asedau'r sefydliad, yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n ystyried, ond nid wyf yn cael fy rhwymo gan, y canllawiau a ddarperir gan Managing Public Money.

Wrth wneud fy asesiad, rwyf wedi dibynnu ar adroddiadau a thrafodaethau ag archwilwyr mewnol a gwaith monitro parhaus ar ein cofrestri risg. Cefais sicrwydd hefyd yn ystod y flwyddyn gan gyfarwyddwyr gweithredol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Bwriedir i'r system reoli fewnol a ddefnyddir ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol reoli risgiau, gan gydnabod nad yw'n bosibl eu dileu yn gyfan gwbl.

Gan nad yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i ddosbarthu fel corff hyd braich , nid oes gofyn iddo gydymffurfio â Corporate governance in central government departments: Code of practice 2011. Serch hynny, rydym yn ystyried yr egwyddorion ymarfer da sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen wrth ddatblygu ac adrodd ar ein trefniadau llywodraethu.

## Trefniadau llywodraethu

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gorff corfforaethol sydd wedi'i sefydlu o dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd). Mae gan y Cyngor 12 aelod, sef chwe gweithiwr deintyddol proffesiynol a chwe aelod lleyg, ac un o'r rhain yw'r Cadeirydd.

Gwelwyd newid sylweddol yn aelodaeth y Cyngor yn 2017. Recriwtiwyd chwe aelod Cyngor newydd, pedwar aelod lleyg a dau weithiwr deintyddol proffesiynol, a ddechreuodd ar eu gwaith ar 1 Hydref 2017. Hefyd, cafodd y Cadeirydd a dau o aelodau'r Cyngor sy'n weithwyr deintyddol proffesiynol eu hailbenodi am ail dymor yn y swydd o'r un dyddiad. Mae rhagor o wybodaeth am aelodaeth y Cyngor yn Adran 7 yr adroddiad hwn.

Penododd y Cyfrin Gyngor aelodau newydd o'r Cyngor ar 10 Gorffennaf 2017, yn dilyn proses benodiadau cystadleuaeth agored a gymeradwywyd

[25] Corff hyd braich yw sefydliad sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus, nad yw'n adran weinidogol yn y y llywodraeth, sy'n gweithredu i raddau mwy neu lai o hirbell o Weinidogion.

gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Roedd yr amserlen hon yn golygu bod modd cyflwyno rhaglen sefydlu gynhwysfawr ar gyfer aelodau newydd y Cyngor i sicrhau eu bod yn cael eu briffio'n llawn cyn ymgymryd â'u swydd ar 1 Hydref 2017. Yn ogystal â bod yn arfer da, roedd hyn yn sicrhau na chafwyd unrhyw darfu ar fusnes y Cyngor ar adeg o newid sylweddol yn y sefydliad. Ategwyd y rhaglen sefydlu gan sesiwn wedi'i hwyluso gydag aelodau'r Tîm Rheoli Gweithredol ac aelodau'r Cyngor i sefydlu ffyrdd o weithio ar draws y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu cyfeiriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn unol â'i genhadaeth a'i bwrpas; sicrhau bod systemau ar waith i'w alluogi i fonitro perfformiad a dal y Tîm Gweithredol i gyfrif; a sicrhau uniondeb. Mae'r Cyngor wedi penderfynu mai'r ffordd fwyaf effeithiol iddo gyflawni ei swyddogaethau yw drwy ddirprwyo materion penodol i is-gyrff neu'r Tîm Gweithredol. Mae'r dirprwyiadau hynny wedi'u cynnwys mewn Cynllun Dirprwyo, a adolygwyd yn Rhagfyr 2017. Ni fydd y Cyngor yn dirprwyo'r swyddogaethau canlynol:

- cymeradwyo strategaeth
- llunio rheolau statudol
- cymeradwyo cynllun busnes blynyddol a chyllideb
- cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon ac unrhyw adroddiad sy'n rhaid ei gyflwyno gerbron y Seneddau
- dal y Tîm Gweithredol i gyfrif am sut mae'n rheoli'r sefydliad, drwy adroddiadau a gwaith monitro

Mae'r Cyngor a'i Bwyllgorau yn gweithredu'n unol â'r Rheolau Sefydlog perthnasol, sy'n cynnwys y telerau gorchwyl ar gyfer y pwyllgorau a threfniadau clir ar gyfer rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau. Mae datganiadau o fuddiannau aelodau'r Cyngor ar gael yn gyhoeddus.

Fel rhan o'r Strategaeth Gorfforaethol gyffredinol, mae'r Cyngor wedi goruchwylio datblygiad y cynigion yn Shifting the balance. Lansiwyd y ddogfen drafod ddiwedd mis Ionawr 2017 gyda chyfnod trafod o dri mis. Cafwyd 86 ymateb i'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd 51 ymateb gan unigolion preifat, y mwyafrif ohonynt yn ddeintyddion. Roedd 35 o'r ymatebion gan sefydliadau yn cynnwys Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) a'r Colegau Brenhinol. Cynhaliodd y Cyngor drafodaethau bord gron â phedair gwlad y Deyrnas Unedig hefyd, gydag amrywiaeth o randdeiliaid, yn cynnwys y Prif Swyddogion Deintyddol, rheoleiddwyr systemau, darparwyr addysg a chomisiynwyr gwasanaethau.

Sefydlwyd rhaglen waith i ddatblygu nifer o ffrydiau gwaith. Mae llawer o'r cynigion a nodwyd yn Shifting the balance yn dibynnu ar arweiniad gan y proffesiwn, ac ni all y Cyngor Deintyddol Cyffredinol eu cyflawni ar ei ben ei hun. Felly, bydd rhwydwaith o arweinwyr o bob cwr o'r sector yn cael ei sefydlu, i sicrhau bod y rhai sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu cymorth, dylanwadu ar ymddygiad a sicrhau newid yn cael eu grymuso i wneud hynny, ac i alluogi'r defnydd o'r amrywiaeth lawn o adnoddau rheoleiddio.

Roedd Shifting the balance yn cydnabod bod y prosesau Addasrwydd i Ymarfer cyfredol yn feichus, hirfaith a llawn straen i'r rhai oedd yn rhan ohonynt. Ymrwymodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o brosesau Addasrwydd i Ymarfer i nodi ffyrdd o wneud y prosesau'n fwy cymesur ac effeithlon, a'u defnyddio i hyrwyddo dysgu. Cafwyd ymgysylltu sylweddol eisoes gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, yn cynnwys cleifion, gweithwyr cofrestredig a'r sefydliadau amddiffyn, i nodi problemau gyda'r prosesau cyfredol. Cam nesaf yr adolygiad, a fydd yn parhau i 2018, yw datblygu datganiad o egwyddorion fel sail i waith y dyfodol ac adrodd ar 'sefyllfa'r dyfodol' ar gyfer y broses Addasrwydd i Ymarfer.

## Arolygiaeth y Cyngor o risgiau strategol

Mae'r Cyngor yn monitro risgiau strategol allweddol; a chyflwynir diweddariad ar y gofrestr risgiau strategol (SRR) iddo yn rheolaidd. Caiff yr SRR ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg cyn mynd gerbron y Cyngor. Lle nad yw'r amserlen Lywodraethu yn caniatáu i'r SRR gael ei gweld gan y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio Risg cyn cyfarfod y Cyngor, cyflwynir papur diweddariad ar risg i'r Cyngor. Mae'r papur yn rhoi manylion unrhyw feysydd o newid neu bryder sylweddol sydd angen eu dwyn i sylw'r Cyngor.

Ymhlith pethau eraill, mae'r SRR yn caniatáu i'r Cyngor asesu i ba raddau mae risgiau strategol yn cael eu lliniaru drwy reolaethau effeithiol; nodi'r rheini sydd y tu allan i lefelau archwaeth y sefydliad; a phennu sut mae'r sefydliad yn perfformio yn erbyn sefyllfaoedd cysylltiad â risg targed blynyddol realistig a chymeradwy. Pan gaiff ei chyflwyno mewn unrhyw fforwm, caiff yr SRR ei hategu gan bapur rheoli risg sy'n tynnu sylw at feysydd allweddol o bryder, tangyflawni, materion sy'n dod i'r fei neu faterion sy'n anweithredol ar y pryd. Mae'r papur yn rhoi'r SRR yn ei chyd-destun ac yn egluro beth mae'n ei olygu i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae'r dogfennau risg hyn sy'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor a'u craffu arnynt ganddo yn darparu gwybodaeth i ategu a llywio penderfyniadau a galluogi monitro cynnydd yn erbyn y strategaeth gorfforaethol, a dal y Tîm Gweithredol i gyfrif am ei pherfformiad.

I gefnogi'r SRR, a sicrhau bod yr holl risgiau sydd wedi'u cynnwys ynddi o natur strategol yng ngwir ystyr y gair, mae gan bob Cyfarwyddiaeth gofrestr risgiau gweithredol (ORR). Caiff pob ORR ei rhoi mewn is-gategori fesul tîm. Cyflwynir pob ORR yn ei thro ym mhob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg. O ganlyniad, mae pob ORR yn cael ei hadolygu gan y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn flynyddol.

Mae pob risg, boed yn strategol neu'n weithredol, yn cael eu cysoni ag amcanion corfforaethol a blaenoriaethau'r cynllun busnes.

## Datgelu'r prif risgiau ac ansicrwydd

Mae fframwaith Rheoli Risg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn caniatáu ystyried risgiau strategol a gweithredol, gan gwmpasu pob maes sy'n destun pryder posibl. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y SRR yn cynnwys risgiau yn y meysydd canlynol:

- Risgiau a nodwyd yn dilyn gwaith sefydliadol strategol allweddol, fel Shifting the balance a'r rhaglen Strategaeth Ystadau;
- Risgiau mewn perthynas â chyflawni a chynnal safonau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol;
- Ansicrwydd ynghylch newidiadau cyfansoddiadol yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr UE a'r effaith ar bolisi'r Llywodraeth mewn meysydd sy'n effeithio ar reoleiddio deintyddol;
- Risgiau ariannol, yn ymwneud â nodi mesurau effeithlonrwydd cost lle maent yn bodoli;
- Cynllun, a defnydd o fframwaith rheoli effeithiol o fewn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol;
- Risgiau corfforaethol mewn perthynas â meysydd fel diogelu data a diogelwch data, cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae gwaith sylweddol gan y sefydliad, yn enwedig Shifting the balance a'r rhaglen Strategaeth Ystadau, a fydd yn gweld tua 200 o swyddi'n cael eu symud i Birmingham, gan ddechrau ar ddiwedd 2018, wedi arwain at amlygu risgiau strategol. Dros gyfnod gweithredu'r gwaith hwn, bydd y risgiau lefel uchel hyn yn esblygu. Pan fydd risgiau strategol neu weithredol ychwanegol yn cael eu nodi byddant yn cael eu cynnwys ar y gofrestr risg briodol.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad cadarnhaol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, mae'r ffocws o ran risgiau nawr ar gadw'r safonau hyn. Rydym yn deall bod hon yn her a hanner. Mae'r risg hon, a risgiau strategol a gweithredol eraill, wedi bod yn destun gwaith craffu a herio priodol a bydd hyn yn parhau i ddigwydd, er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei rheoli'n briodol.

Mae rhai o'r risgiau strategol rydym yn eu hwynebu yn eang ac yn destun llawer o ansicrwydd. Mae trefniadau gadael yr UE yn enghraifft berffaith o hyn, lle gwyddom y bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn wynebu risgiau penodol a heriol, ond ar y cam hwn o'r trafodaethau gadael nid ydym mewn sefyllfa i ddeall beth fydd y risgiau hynny.

## Effeithiolrwydd y Cyngor

Mae pob aelod o'r Cyngor, yn cynnwys y Cadeirydd, wedi cael ei arfarnu yn ystod 2017, ac mae hyn wedi cynnwys ystyried eu hanghenion datblygu pellach. Uwch Aelod Annibynnol o'r Cyngor fu'n arwain y broses hon. Mae cynlluniau ar droed i adolygu'r broses arfarnu yn 2018 pan fydd wedi bod ar waith ers tair blynedd.

Cynhaliwyd gwerthusiad ffurfiol o effeithlonrwydd y Cyngor yn 2017. Arweiniwyd y gwerthusiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol, a gynhaliodd gyfweliadau gyda holl aelodau'r Cyngor a oedd mewn swydd o 1 Hydref 2017. Y prif feysydd a nodwyd yn yr adolygiad oedd yr angen am broses fwy ffurfiol a thryloyw ar gyfer penodi aelodau'r Cyngor i bwyllgorau, annog y defnydd o weithdai cyn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol a'r angen i bapurau fod yn fyrrach gyda mwy o ffocws iddynt. Bydd dull ehangach o gynnal gweithdai'r Cyngor yn cael ei ddatblygu gyda grwpiau allanol a bydd grwpiau cleifion a gweithwyr cofrestredig yn cael eu gwahodd lle bo'n briodol. Bydd mwy o ffocws hefyd ar ddatblygu aelodau unigol y Cyngor. Cyflwynwyd canlyniadau'r adolygiad i'r Cyngor a'r Tîm Rheoli Gweithredol a chytunwyd ar gynllun gweithredu. Bydd hwn yn cael ei roi ar waith yn 2018.

Mae presenoldeb aelodau'r Cyngor mewn cyfarfodydd Cyngor yn cael ei gofnodi yn y cofnodion, sydd ar gael ar ein gwefan. Mae tabl o bresenoldeb yr aelodau yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

## Pwyllgorau anstatudol

Mae'r Cyngor wedi sefydlu pedwar pwyllgor anstatudol fel a ganlyn:

- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad
- Pwyllgor Tâl
- Bwrdd Polisi ac Ymchwil

Mae aelodaeth pob un o'r pwyllgorau'n cynnwys aelodau cofrestredig ac aelodau heb gofrestru o'r Cyngor.

Mae newidiadau sylweddol i aelodaeth y Cyngor o 1 Hydref 2017 wedi golygu bod rhaid adolygu aelodaeth pob un o bwyllgorau'r Cyngor. Penododd y Cyngor gadeiryddion ac aelodau newydd i bob un o'i bwyllgorau gan ddod i rym ar 26 Hydref 2017. Mae rhagor o fanylion yn adran 7 yr adroddiad hwn.

Roedd y newidiadau i'r aelodaeth yn cynnwys cadeiryddion newydd ar gyfer tri o'r pedwar pwyllgor. I liniaru'r posibilrwydd o darfu ar waith y pwyllgorau, roedd y rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd y Cyngor yn cynnwys trosolwg o waith y pwyllgor gan y cadeirydd a oedd yn gadael. Mynychodd aelodau presennol y Cyngor y sesiwn hefyd. Cynhaliwyd sesiynau trosglwyddo rhwng y cadeiryddion a oedd yn gadael a'r cadeiryddion newydd. Roedd dau o dri chadeirydd newydd y pwyllgorau yn aelodau o'r Cyngor a oedd eisoes yn gyfarwydd â gwaith y pwyllgor hwnnw.

Mae'r Pwyllgorau yn adrodd i'r Cyngor ar eu gwaith ar ôl pob cyfarfod, ac mae pob Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar ddiwedd bob blwyddyn sy'n crynhoi ei berfformiad yn erbyn ei raglen waith.

## Y Pwyllgor Tâl

Amcan allweddol y Pwyllgor Tâl yw sefydlu gweithdrefn dryloyw ar gyfer talu'r Prif Weithredwr, y cyfarwyddwyr gweithredol, aelodau'r Cyngor (yn cynnwys y Cadeirydd) a deiliaid swyddi cyswllt eraill. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod cymhellion priodol i annog gwell perfformiad a bod unigolion yn cael eu gwobrwyo mewn modd teg a chyfrifol, yn gysylltiedig â'u cyfraniadau at lwyddiant y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a pherfformiad llwyddiannus y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gyffredinol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu'r broses ar gyfer gwneud argymhellion i benodi ac ailbenodi aelodau'r Cyngor ac yn cytuno ar drefniadau i adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd y Cyngor bob blwyddyn gyda'r Cadeirydd. Mae hefyd yn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol i bolisi Adnoddau Dynol neu newidiadau i'r strwythur buddion gweithwyr, yn cynnwys y cynllun pensiwn, ac yn cynnig cyngor a chyfeiriad i'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol, fel y bo'n briodol.

## Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Prif bwrpas y Pwyllgor Archwilio a Risg yw mynd ati ar ran y Cyngor i fonitro cywirdeb datganiadau ariannol, adolygu systemau llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac adolygu'r gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys monitro a gyflawnir y camau gweithredu a nodir mewn adroddiadau archwilio. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o lunio adroddiad blynyddol a chyfrifon cywir i'w hargymell i'r Cyngor i gael eu cymeradwyo.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn cael sicrwydd am drefniadau rheoli risg gan yr archwilwyr mewnol. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn adolygu statws a thueddiadau pob risg yn y gofrestr risgiau strategol. Yn ystod 2017, mae'r Pwyllgor hefyd wedi adolygu'r cofrestri risg gweithredol o un maes busnes ym mhob cyfarfod.

Mae'r un aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg nad yw'n aelod o'r Cyngor wedi bod trwy broses arfarnu drylwyr.

## Bwrdd Polisi ac Ymchwil

Mae'r Bwrdd Polisi ac Ymchwil yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth, mentrau polisi ac ymchwil, ac yn adrodd arnynt i'r Cyngor. Yn ystod 2017, mae'r Bwrdd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth Shifting the balance, cyhoeddi dadansoddiad data yn ymwneud â phrosesau Addasrwydd i Ymarfer a chyfrannu at strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn iddi gael ei chymeradwyo gan y Cyngor.

## Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

Rôl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yw herio a monitro'r Tîm Rheoli Gweithredol ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall; gweithio gyda'r Tîm i ddatblygu set ddata briodol a chymesur i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau; a darparu canllawiau i'r Tîm ar faterion gweithredol pwysig fel strategaeth eiddo, buddsoddi a datblygu technoleg. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hefyd yn gweithio gyda'r Tîm i ddatblygu strategaeth ariannol a chynllun busnes y Cyngor.

Yn ystod 2017, mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu fersiwn newydd o'r Cerdyn Sgorio Cytbwys sy'n darparu data ar ddangosyddion perfformiad allweddol ledled y busnes. Mae hefyd wedi datblygu darnau pwysig o waith fel y rhaglen Strategaeth Ystadau.

Bydd effeithiolrwydd y pwyllgorau a'u ffyrdd o weithio yn cael eu hadolygu yn 2018, mewn ymateb i ganlyniadau adolygiad effeithiolrwydd y Cyngor 2017.



## Pwyllgor Sicrwydd Panelwyr Statudol

Mae'r Pwyllgor Sicrwydd Panelwyr Statudol yn bwyllgor statudol a sefydlwyd o dan Orchymyn Rheolau y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Cyfansoddiad Pwyllgorau) Cyngor 2009. Rôl y Pwyllgor hwn yw cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n gysylltiedig â phenodi aelodau y pwyllgor statudol, Cadeiryddion a chynghorwyr lleyg, meddygol a phroffesiynol. Mae aelodau'r Cyngor wedi'u gwahardd rhag bod yn aelodau o'r Pwyllgor hwn.

Mae Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor wedi bod trwy broses arfarnu drylwyr.

## Gwasanaethau Archwilio Mewnol

Mae Mazars LLP wedi darparu gwasanaeth archwilio mewnol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ystod 2017. Cynhaliwyd saith archwiliad mewnol yn 2017.

Roedd canfyddiadau sicrwydd yr archwiliadau'n amrywio rhwng y tair lefel sicrwydd posibl; sicrwydd sylweddol, sicrwydd digonol a sicrwydd cyfyngedig.

Yn dilyn pob aseiniad archwilio mewnol, gwnaed argymhellion i wella elfennau naill o'r fframwaith rheoli neu'r ffordd mae'r fframwaith rheoli'n cael ei roi ar waith. Ar ôl cytuno ar yr argymhellion hyn, aseiniwyd swyddog i fod yn gyfrifol am weithredu pob argymhelliad a chytunwyd ar ddyddiad gweithredu.

Mae barn archwilio fewnol gyffredinol Mazars fel a ganlyn: "on the basis of the audit work undertaken in 2017, the GDC's governance, risk management and internal control arrangements are generally adequate. Certain weaknesses and exceptions were highlighted by their audit work, in particular relating to our review of the Dental Complaints Service. These matters have been discussed with management, to whom we have made a number of recommendations. All of these have been, or are in the process of being addressed, as detailed in our individual reports."

Roedd sgôr sicrwydd cyffredinol Mazars wedi'i gydgrynhoi'n seiliedig ar sgorau sicrwydd ansawdd unigol. Roedd y cynllun archwilio wedi targedu meysydd y gwyddem eu bod yn wan a meysydd busnes hanfodol lle nad oedd gan reolwyr dystiolaeth gadarn o sicrwydd. Mae'r archwiliadau wedi rhoi gwybodaeth fanwl am y meysydd busnes hyn, sicrwydd am lefel perfformiad cyfredol ac wedi nodi mesurau rheoli.

Cafodd cynllun archwilio mewnol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2017, a ddatblygwyd gyda Mazars, ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 22 Mawrth 2017. Roedd y cynllun archwilio mewnol blaenorol yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017. Yn y dyfodol, bydd y cynllun archwilio mewnol yn seiliedig ar y flwyddyn galendr yn unol â blwyddyn ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, sy'n rhedeg o fis Ionawr i fis Rhagfyr.

Ymhellach, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi rhoi ar waith swyddogaeth olrhain gweithredu argymhellion archwilio mewnol ganolog. Caiff hwn ei gefnogi gan ystyriaeth ddilynol o argymhellion drwy archwiliad mewnol. Cyflwynwyd adroddiadau ar berfformiad i'r Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg gydol y flwyddyn.

## Tîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Cyngor yn cael ei gefnogi gan staff, o dan arweiniad y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, sy'n Swyddog Cyfrifyddu hefyd, ac aelodau eraill o'r Tîm Rheoli Gweithredol. Y Cyngor sy'n gosod strategaethau a pholisïau, ac yn pennu canlyniadau ac allbynnau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i gefnogi ei ddiben a'i werthoedd. Mater i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Gweithredol yw sut mae'r canlyniadau ac allbynnau hynny yn cael eu cyflawni. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Cyngor am berfformiad y Tîm Gweithredol.

Yn 2017, aelodau'r Tîm Rheoli Gweithredol oedd y cyfarwyddwyr gweithredol ac maent yn rhannu cyfrifoldeb am gamau gweithredu a phenderfyniadau a wneir, waeth beth fo'u cyfrifoldebau rheoli llinell unigol, yn ogystal â'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gyfrifol am:

- weithredu'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor;
- paratoi cynllun busnes blynyddol a chyllideb;
- darparu adroddiadau rheoli rheolaidd i'r Cyngor, a sicrhau bod adroddiadau priodol yn cael eu darparu i bwyllgorau'r Cyngor ynghylch materion yn eu cylch gorchwyl;
- nodi ac adrodd ar risgiau strategol i'r Cyngor a sicrhau bod perchnogaeth pob risg yn cael ei dyrannu ar y lefel gywir gydag atebolrwydd clir;
- adolygu ac adrodd ar agweddau eraill ar y model llywodraethu i'r Cyngor.

Yn ystod 2017, mae'r Tîm Rheoli Gweithredol wedi cyfarfod yn ffurfiol fel bwrdd o leiaf unwaith y mis. Mae cynllun gwaith wedi'i roi ar waith i sicrhau bod y cyfarfodydd hyn yn trafod prif feysydd gwaith y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae papurau penderfyniadau ar gyfer y Tîm Rheoli Gweithredol yn cynnwys dadansoddiad o'r risgiau allweddol. Mae Bwrdd y Tîm Rheoli Gweithredol yn cyfarfod yn anffurfiol yn yr wythnosau rhwng cyfarfodydd. Mae cyfarfodydd eithriadol yn cael eu galw yn ôl y gofyn.

Ymgorfforwyd strwythur cyfarwyddiaeth newydd yn ystod 2017. Roedd cylchoedd gwaith y pedwar cyfarwyddwr gweithredol cyfredol fel a ganlyn yn 2017:

Cyfarwyddwr Gweithredol, Addasrwydd i Ymarfer

- Gwaith achos, dyfarniadau, sicrhau ansawdd a gwella Addasrwydd i Ymarfer. Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Cofrestru ac Adnoddau Corfforaethol**

- Cofrestru, gwasanaethau cwsmeriaid, cyllid, caffael, cynllunio busnes a rheoli prosiectau, TG, archwilio a risg.

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygiad Sefydliadol**

- Gwasanaethau cyfreithiol, llywodraethu gwybodaeth, adnoddau dynol, llywodraethu, cydraddoldeb ac amrywiaeth, cydymffurfiaeth a chyfleusterau.

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth**

- Datblygu strategaeth a pholisi, cyfathrebu ac ymgysylltu, ymchwil ac addysg, sicrhau ansawdd.

Yn dilyn ymadawiad Jonathan Green, y Cyfarwyddwr Gweithredol, Addasrwydd i Ymarfer, ar 2 Ionawr 2018, penodwyd Cyfarwyddwr Gweithredol, Pontio Addasrwydd i Ymarfer, am gyfnod o ddeunaw mis gyda chyfrifoldeb penodol dros weithredu canfyddiadau pellgyrhaeddol Addasrwydd i Ymarfer. Dechreuodd Tom Scott yn y rôl hon ar 15 Ionawr 2018.

## Gwybodaeth reoli

Parhau wnaeth y gwaith o ehangu warws data'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol gydol 2017, gan ategu ei rôl fel y ffynhonnell gynhwysfawr ar gyfer adroddiadau corfforaethol yn y sefydliad drwyddo draw. Datblygwyd y warws data fel bod modd adrodd ar berfformiad yn erbyn cydymffurfiaeth â dyddiadau cau rhyddid gwybodaeth a diogelu data, yn ogystal â chwynion corfforaethol. Yn ogystal â'r ehangu i gynnwys meysydd newydd, parhaodd y gwaith o fireinio'r defnydd o'r warws ym meysydd Cofrestru, Addasrwydd i Ymarfer a chyfreithiol mewnol.

Rydym wedi cryfhau ein trefniadau cynllunio busnes yn 2017. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol wedi derbyn diweddariadau cynnydd misol ar brosiectau a rhaglenni sy'n cael eu cynnal gydol y flwyddyn er mwyn gallu gwneud penderfyniadau strategol ar flaenoriaethau'r sefydliad yn erbyn adnoddau sydd ar gael. Fel rhan o ddatblygu Cynllun Busnes 2018, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi mabwysiadu dull cynllunio sy'n seiliedig ar fanteision. Mae hyn wedi galluogi'r Tîm Rheoli Gweithredol i ddewis blaenoriaethau Cynllun Busnes 2018 ar sail beth fydd yn sicrhau'r manteision gorau i'r sefydliad, y proffesiwn a chleifion.

## Adrodd ar berfformiad

Yn dilyn ailgynllunio ac adolygu'n dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) a'i gerdyn sgorio cytbwys yn 2016, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi ymgorffori'r mesurau hyn yn llawn yn ei broses o adrodd i'r Cyngor, y pwyllgorau a Bwrdd y Tîm Rheoli Gweithredol yn ystod 2017. Mae dangosyddion perfformiad allweddol newydd ar gyfer y cerdyn sgorio cytbwys yn cael eu datblygu pan fo angen a'u cysylltu gyda datblygu warws data.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd mesurau rheoli'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i brosesau ar gyfer datblygu ac adrodd am ddangosyddion perfformiad allweddol yn 2017. Arweiniodd yr archwiliad at ganfyddiad o 'sicrwydd sylweddol'. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau'r cysylltiad rhwng data perfformiad a rhagweld ariannol.

## Mynediad diawdurdod at ddata a diogelwch gwybodaeth

**Llywodraethu gwybodaeth**

Yn ystod 2017, rydym wedi parhau i adolygu a gwella'n fframwaith polisi llywodraethu gwybodaeth, y ffordd rydym yn rheoli ceisiadau am wybodaeth a digwyddiadau diogelwch data, a sut rydym yn datblygu a chynnal gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y staff o faterion a deddfwriaeth rheoli data.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd pob aelod staff newydd hyfforddiant ar Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Ddeddf Diogelu Data, a diogelwch data fel rhan o'r rhaglen sefydlu gorfforaethol. Cwblhaodd holl staff y Cyngor Deintyddol Cyffredinol hyfforddiant gloywi diogelu data blynyddol.

Mae Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, sy'n rhoi cefnogaeth a sicrwydd i'r Tîm Rheoli Gweithredol, wedi goruchwylio'r gwaith o gynllunio a gweithredu Polisi Llywodraethu Gwybodaeth, Polisi Asesu Effaith Preifatrwydd, a Pholisi Hyfforddiant Staff y Cyngor.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Yn ystod 2017, cafodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyfanswm o 341 o geisiadau am wybodaeth gorfforaethol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gwybodaeth bersonol o dan y Ddeddf Diogelu Data (ceisiadau gwrthrych am wybodaeth). Mae hyn yn ostyngiad o 2016 pan dderbyniwyd 471 o geisiadau.

Fe wnaethom ymateb i 341 o geisiadau am wybodaeth: 228 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (gostyngiad o 391 yn 2016) a 113 o geisiadau gwrthrych am wybodaeth (i fyny o 80 yn 2016). Ymatebwyd i 99% o geisiadau am wybodaeth (226) o fewn yr amserlen statudol (20 diwrnod gwaith) neu aethpwyd ati'n briodol i hawlio estyniad i gynnal prawf budd y cyhoedd. Ymatebwyd i 97% (110) o geisiadau gwrthrych am wybodaeth o fewn yr amserlen statudol (40 diwrnod calendr).

Roedd y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaeth i law'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gofyn am wybodaeth a oedd yn ymwneud â chofrestr y Cyngor fel arfer, fel gwlad gymhwyso neu enedigol y gweithiwr cofrestredig, neu geisiadau yn ymwneud â gweithwyr cofrestredig penodol, fel eu gwybodaeth indemniad neu gyfeiriad cofrestredig. Roedd cyfran fawr o'r ceisiadau gwrthrych gwybodaeth a dderbyniodd y Cyngor yn rhai gan bobl a oedd yn rhan o gŵyn Addasrwydd i Ymarfer ac yn gofyn am wybodaeth achos ar gyfer apêl neu hawliad preifat.

O'r 340 o geisiadau am wybodaeth i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ymateb iddynt yn 2017, cyflwynwyd apêl yn erbyn dau o'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i'r Comisiynydd Gwybodaeth (saith yn 2016). Cyflwynwyd apêl yn erbyn un ymateb o 2016 i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Rheoleiddio Cyffredinol) ond cafodd ei dynnu yn ôl. Dyfarnodd y Comisiynydd Gwybodaeth o blaid dull a phenderfyniad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ym mhob un o'r saith cwyn hyn.

## Digwyddiadau diogelwch data

Yn ystod 2017, parhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i gofnodi, rheoli ac adrodd ar Ddigwyddiadau Diogelwch Data, gan sicrhau bod gwybodaeth sydd wedi'i cholli neu ei datgelu'n amhriodol drwy ddamwain neu gamgymeriad yn cael ei hadfer, bod risgiau'n cael eu hasesu ac yn cael sylw, a bod gwersi'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau i atal yr un peth rhag digwydd eto.

Yn 2017, arweiniodd gwell ymwybyddiaeth gan staff a systemau a phrosesau mwy diogel ar gyfer rheoli a chadw cofnodion achosion at ostyngiad mewn digwyddiadau diogelwch data a hysbyswyd. Cofnodwyd 94 digwyddiad o'r fath i gyd, gostyngiad o 127 yn 2016. Fodd bynnag, ystyriwyd bod tri digwyddiad yn ddigon difrifol i gael eu hadrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ystyriodd y Comisiynydd Gwybodaeth ymateb y Cyngor i'r digwyddiadau hyn gan ddod i'r casgliad nad oedd angen camau gorfodi.

## Casgliad

Gwelodd y Cyngor newid mawr yn ei aelodaeth yn 2017. Mae hyn wedi gwella amrywiaeth yr aelodaeth ac wedi dod â sgiliau newydd i'r Cyngor. Mae cydymffurfiaeth â safonau'r PSA ar gyfer rheoleiddio da wedi gwella hefyd, gyda'r Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth â 23 o'r 24 safon yn 2017. Mae'r Cyngor yn datblygu nifer o ddarnau gwaith mawr a phwysig yn 2018, y rhaglen waith sy'n gysylltiedig â Shifting the balance, ymgynghoriad ar y Polisi Ffioedd a symud y swyddogaeth gofrestru a rhai rolau cymorth corfforaethol i Birmingham. Bydd mwy o staff yn symud i Birmingham ar ddiwedd 2019 fel rhan o ail elfen y Strategaeth Ystadau.

**Ian Brack**
Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu
17 Mai 2018

# **13** Cyfrifon 2017



# **14** Adroddiad yr archwilydd annibynnol

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ("y Cyngor") am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017 sy'n cynnwys y cyfrif incwm a gwariant, y Datganiad o'r sefyllfa ariannol, y Datganiad o newidiadau i'r cronfeydd wrth gefn, y Datganiad llif arian, a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cyfrifon yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Adroddiad i Aelodau'r Cyngor, fel corff, yn unig yw hwn, yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddir yn unol â hynny gan y Cyfrin Gyngor. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud fel y gallwn hysbysu Aelodau'r Cyngor am y materion hynny sy'n ofynnol i ni hysbysu amdanynt mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir hynny gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am yr adroddiad hwn, nac am y farn sydd gennym, i unrhyw un heblaw'r Cyngor ac aelodau'r Cyngor fel corff.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2017 ac o'i warged ar ddiwedd y flwyddyn honno
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf gan y Cyfrin Gyngor.

## Sail ein barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) a chyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni'n cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gasglwyd gennym yn ddigonol a phriodol i ffurfio sail i'n barn.

Adroddiad i Aelodau'r Cyngor, fel corff, yn unig yw hwn, yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r

cyfarwyddiadau a gyhoeddir yn unol â hynny gan y Cyfrin Gyngor. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud fel y gallwn hysbysu Aelodau'r Cyngor am y materion hynny sy'n ofynnol i ni hysbysu amdanynt mewn adroddiad Archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir hynny gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am yr adroddiad hwn, nac am y farn sydd gennym, i unrhyw un heblaw'r Cyngor ac aelodau'r Cyngor fel corff.

### Casgliadau ynghylch busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni adrodd i chi amdanynt:

- ble nad yw defnydd aelodau'r Cyngor o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol
- ble nad yw aelodau'r Cyngor wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Mae Aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilydd. Nid yw'n barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw'r graddau y datganwyd fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd am hynny.

O ran ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol yn sylweddol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu'n ymddangos fel pe bai wedi'i gam-ddatgan yn sylweddol. Os ydym yn nodi anghysonderau sylweddol neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol o'r fath, mae gofyn i ni benderfynu a oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall. Os, ar sail y gwaith rydym wedi'i gyflawni, y deuwn i'r casgliad bod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn yr achos hwn.

### Materion y mae'n rhaid i ni adrodd yn eu cylch trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor a'i amgylchedd a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr adroddiad blynyddol.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd am y materion canlynol yr adroddwn i chi amdanynt os oeddem o'r farn:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan y Cyngor, na mantolenni digonol i gynnal ein harchwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau na wnaethom ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;
- nad oes rhai datgeliadau neu daliadau a bennwyd gan y gyfraith wedi'u gwneud;
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

### Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae aelodau'r Cyngor yn penderfynu sy'n angenrheidiol i allu paratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod aelodau'r Cyngor naill ai'n bwriadu diddymu'r Cyngor neu ddod â'i weithrediadau i ben, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall heblaw gwneud hynny.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gam-ddatgan sylweddol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn dangos camddatganiad sylweddol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn sylweddol, os gellid disgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

**Haysmacintyre**
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG
Archwilydd Statudol
2018
17 Mai 2018



15

# 15 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd

**TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL i DDAU DŶ'R SENEDD**

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017 o dan Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o'r Llif Arian, Datganiad o Newidiadau i'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Dâl a gafodd ei ddisgrifio yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2017 ac o'i warged ar ddiwedd y flwyddyn honno
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf gan y Cyfrin Gyngor.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob modd sylweddol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso yn unol â'r dibenion y bwriadodd Senedd San Steffan hwy, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio a'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail barn

Fe wnes i gynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Audit of Financial Statements of Public Sector Entities in the United Kingdon'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r

Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny'n gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwy'n annibynnol ar y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gesglais yn ddigonol a phriodol i ffurfio sail i'm barn.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fwy trylwyr yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i Brif Weithredwr, y Cyngor a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Deintyddion 1984.

Mae archwiliad yn golygu cael gafael ar dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys datganiadau sy'n sylweddol anghywir, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio bob amser yn dangos camddatganiad sylweddol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn sylweddol, os gellid disgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Asesu rwy'n defnyddio barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- nodi ac asesu risgiau camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, yn cynllunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a chael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol a phriodol i ddarparu sail i fy marn. Mae'r risg o beidio canfod camddatganiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch na'r un yn deillio o gamgymeriad, gan y gallai twyll gynnwys cydgynllwyn, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camgynrychioliadau, neu anwybyddu rheolaeth fewnol
- sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- gwerthuso priodolrwydd polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan reolwyr
- dod i gasgliad ar briodolrwydd defnydd rheolwyr o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ac, ar sail y dystiolaeth archwilio a gasglwyd, a oes ansicrwydd sylweddol yn bodoli yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol. Os ydw i'n dod i'r casgliad bod ansicrwydd sylweddol yn bodoli, mae gofyn i fi dynnu sylw yn fy adroddiad archwilydd at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu os yw datgeliadau o'r fath yn annigonol, newid fy marn. Mae fy nghasgliadau'n seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gesglais hyd at ddyddiad fy adroddiad archwilio. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau'r dyfodol achosi'r endid i roi'r gorau i fod yn fusnes gweithredol
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, yn cynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, yn cynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol rwy'n eu nodi yn ystod fy archwiliad.

Yn ogystal, rhaid i mi gael gafael ar ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a nodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion y bwriadwyd hwy ar eu cyfer gan Senedd San Steffan a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth arall

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r rhannau o'r Adroddiad Tâl a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw fel rhai a archwiliwyd, y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd am hynny. O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol yn sylweddol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu'n ymddangos i fod wedi'i gam-ddatgan yn sylweddol. Os ydw i, ar sail y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn yr achos hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Deintyddion 1984; yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i amgylchedd a gefais yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Blynyddol
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd yn eu cylch trwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol yr adroddaf i chi amdanynt, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu nad oes mantolenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn o ganghennau na wnaeth fy staff ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio yn cyfateb i'r cofnodion cyfrifyddu a'r mantolenni; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
Comptroller and Auditor General
National Audit Office
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

16

# 16 Cyfrif incwm a gwariant

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017

| | Nodyn | 2017 £000 | 2016 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Ffioedd | 2 | 44,989 | 44,536 |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 3 | 1,389 | 1,877 |
| Amrywiol | 3 | 3 | 27 |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **46,381** | **46,440** |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 5 | 19,398 | 18,911 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 6 | 8,008 | 12,691 |
| Cyfarfodydd Cyngor a phwyllgorau | 7 | 7,168 | 9,203 |
| Gweinyddiaeth | 8 | 3,384 | 3,468 |
| Llety | 9 | 817 | 741 |
| Cyfathrebu a chyhoeddiadau | 10 | 211 | 244 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **38,986** | **45,258** |
| **Gwarged ar ôl gwariant gweithredu** | | **7,395** | **1,182** |
| Incwm buddsoddiadau | 4 | 114 | 165 |
| Enillion a wireddwyd o werthu buddsoddiadau | 14 | 0 | 597 |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn ar ôl incwm Buddsoddiadau ac addasu** | | **7,509** | **1,944** |
| Treth | 11 | (51) | (85) |
| **Gwarged a gadwyd ar ôl treth** | | **7,458** | **1,859** |
| **Incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall** | | | |
| **Eitemau a fydd neu a allai gael eu hailddosbarthu i elw neu golled** | | | |
| Enillion/(colledion) ar fuddsoddiadau nas gwireddwyd | 14 | 189 | (221) |
| **Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled** | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn | 19 | 2,800 | (6,302) |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall** | | **2,989** | **(6,523)** |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **10,447** | **(4,664)** |

Mae pob incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus

# 17 Datganiad o'r sefyllfa ariannol

Ar 31 Rhagfyr 2017

| | Nodyn | 2017 £000 | 2016 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | **12** | 9,968 | 10,594 |
| Asedau anghyffyrddadwy | **13** | 381 | 601 |
| Asedau ariannol – asedau ar gael i'w gwerthu | **14** | 948 | 756 |
| Darpariaeth ar gyfer asedau pensiwn | **19** | 1,500 | - |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **12,797** | **11,951** |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill <1bl | **15** | 2,342 | 2,517 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | **16** | 47,705 | 38,899 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **50,047** | **41,416** |
| **Cyfanswm asedau** | | **62,844** | **53,367** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill <1bl | **17** | 3,528 | 4,233 |
| Rhwymedigaethau eraill | **17** | - | 58 |
| Incwm gohiriedig | **17** | 36,502 | 36,026 |
| Treth gorfforaeth | **17** | 20 | 123 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **40,050** | **40,440** |
| **Asedau anghyfredol plws/llai asedau/rhwymedigaethau** | | **22,794** | **12,927** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | |
| Rhwymedigaethau Pensiwn | **19** | - | 611 |
| Treth ohiriedig | **17** | 142 | 111 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **142** | **722** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **22,652** | **12,205** |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | |
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | | 20,268 | 12,121 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | | 1,500 | (611) |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau wrth gefn | | 884 | 695 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | | **22,652** | **12,205** |

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Aelodau'r Cyngor ac fe'u llofnodwyd ar eu rhan ar 17 Mai 2018:

**William Moyes**
Cadeirydd

**Ian Brack**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

18

# 18 Datganiad llif arian

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017

| | | 2017 £000 | 2016 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | **Nodyn** | | |
| Gwarged o weithgareddau gweithredu | **I&E** | 7,395 | 1,182 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | | 1,064 | 1,141 |
| Colled ar waredu eiddo, offer a chyfarpar | | - | (2) |
| Lleihad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | **15** | 175 | 423 |
| (Lleihad) mewn symiau taladwy masnach a rhwymedigaethau eraill | **17** | (287) | (464) |
| Symudiadau ariannu'r gronfa bensiwn wrth gefn | **19** | 689 | 168 |
| Defnydd o ddarpariaethau | | - | - |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **9,036** | **2,448** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | **12** | (180) | (366) |
| Prynu asedau anghyffyrddadwy | **13** | (38) | (158) |
| Enillion o werthu asedau | | 0 | 2 |
| Enillion o werthu asedau ariannol | **14** | 0 | 3,301 |
| Prynu asedau ariannol | **14** | (3) | (204) |
| Incwm buddsoddi | **4** | 114 | 165 |
| Treth | | (123) | (55) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(230)** | **2,685** |
| **Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod** | | **8,806** | **5,133** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | **16** | **38,899** | **33,766** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | **16** | **47,705** | **38,899** |
| **Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | | **8,806** | **5,133** |

# 19 Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017

| | Nodyn | Cronfa wrth gefn gyffredinol | Cronfa bensiwn wrth gefn | Enillion heb eu gwireddu ar y gronfa fuddsoddiadau wrth gefn | Cyfanswm cronfeydd wrth gefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2014** | | **10,113** | **5,859** | **897** | **16,869** |
| **Newidiadau i gronfeydd wrth gefn yn 2016** | | | | | |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | **I&E** | (4,664) | - | - | (4,664) |
| Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | **19** | 6,302 | (6,302) | - | - |
| Costau cynllun pensiwn wedi codi ar y cyfrif I&E | | 149 | (168) | 19 | - |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | **14** | 221 | | (221) | - |
| | | **2,008** | **(6,470)** | **(202)** | **(4,664)** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2016** | | **12,121** | **(611)** | **695** | **12,205** |
| **Newidiadau i gronfeydd wrth gefn yn 2017** | | | | | |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | **I&E** | 10,447 | - | - | 10,447 |
| Colled actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | **19** | (2,800) | 2,800 | - | - |
| Costau cynllun pensiwn wedi'u codi ar y cyfrif I&E | | 689 | (689) | - | - |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | **14** | (189) | | 189 | - |
| | | **8,147** | **2,111** | **189** | **10,447** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2017** | | **20,268** | **1,500** | **884** | **22,652** |

20

# 20 Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1 POLISÏAU CYFRIFYDDU

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail 'busnes gweithredol' ac o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i diwygiwyd ar ôl cynnwys buddsoddiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad, yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE a chan ystyried egwyddorion a datgeliadau cyfrifyddu Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u rhoi ar waith yn gyson, ac fe'u nodir isod.

Sefydlwyd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan ddeddf Seneddol ym 1956 ac fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig.

Lleolir prif swyddfa'r Cyngor yn 37 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ. Cyflwynir datganiadau ariannol yn arian cyfred gweithredol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, mewn punnoedd.

### 1.1 FFORMAT Y CYFRIFON

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol baratoi ei gyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Rhaid i'r Cyfrin Gyngor gyflwyno'r cyfrifon ardystiedig gerbron dau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban. Nodir diben statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yng nghyflwyniad yr adroddiad ar gyfrifon.

### 1.2 SAFONAU, DIWYGIADAU A DEHONGLIADAU I SAFONAU A GYHOEDDWYD OND NAS GWEITHREDWYD ETO

Mae'r Cyngor wedi asesu effaith y safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau canlynol sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto:

- IFRS 9 Offerynnau Ariannol – dyddiad gweithredu: cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2018. Mae'r safon yn cyflwyno categorïau dosbarthu newydd a gofynion mesur dilynol ar gyfer asedau ariannol, yn ogystal â chyflwyno dull newydd o gyfrifo a chydnabod lleihad. Nid yw dosbarthiad a mesuriad rhwymedigaethau ariannol o dan IFRS 9 wedi newid fawr ddim o'r safon flaenorol. O dan IFRS 9, penderfynir ar ddosbarthiadau asedau ariannol drwy gyfeirio at nodweddion llif arian cytundebol yr ased a'r model busnes sy'n dal yr ased, gan arwain at ddynodi un o dri dosbarthiad i'r ased; cost wedi'i amorteiddio, gwerth teg drwy elw a cholled neu werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Bydd asedau buddsoddi'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol sydd ar gael i'w gwerthu'n cael eu dosbarthu ar werth teg drwy elw a cholled. Bydd yr asedau'n parhau i gael eu cyfrifo ar werth teg, fodd bynnag bydd unrhyw newid mewn gwerth teg nawr yn cael ei gydnabod mewn gwariant net. Bydd hyn yn cynyddu anwadalrwydd mewn gwariant net ac yn arwain at ddileu'r gronfa wrth gefn 'enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau'. Mae asedau ariannol eraill y Cyngor yn cynnwys balansau arian parod yn bennaf, ac felly nid yw cyflwyno'r model colli credyd disgwyliedig yn effeithio arnynt yn sylweddol.
- IFRS 15 Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid – dyddiad gweithredu: cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2018. Mae'r safon yn sefydlu'r egwyddorion y bydd endid yn gwneud cais i adrodd gwybodaeth ddefnyddiol am natur, swm, amseru ac ansicrwydd refeniw a llif arian sy'n deillio o gontract gyda chwsmer, a bydd gofyn i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei ddefnyddio yn natganiadau ariannol 2018, gan arwain at newid y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer cydnabod incwm ffioedd. Ar hyn o bryd, y polisi ar gyfer cydnabod incwm ffioedd yw cydnabod incwm wrth gofrestru neu adnewyddu. O 2018, bydd incwm ffioedd yn cael ei ohirio a'i ryddhau ar sail linol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant dros y cyfnod y mae'r incwm yn ymwneud ag ef. Bydd gofyn cael addasiad cyn cyfnod i'r polisi cyfrifyddu, ond nid fydd hyn yn cael effaith sylweddol ar yr incwm yr adroddir arno, ond bydd incwm yn cael ei ohirio a fydd yn lleihau cronfeydd wrth gefn cychwynnol yn 2018 tua £4,600,000.
- IFRS 16 Lesoedd – dyddiad gweithredu: cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2019. Bydd gofyn i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei weithredu yn natganiadau ariannol 2018. Mae IFRS 16 yn pennu sut y bydd endid yn cydnabod, yn mesur, yn cyflwyno ac yn datgelu lesoedd. Mae'r safon yn darparu un model cyfrifyddu lesddeiliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliaid gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les oni bai bod tymor y les yn 12 mis neu'n llai neu fod gwerth yr ased gwaelodol yn isel.
- Bydd y Cyngor yn trin unrhyw lesoedd o ased sylfaenol sy'n llai na £3,000 yn ased gwerth isel.
- O'r dyddiad adrodd, mae gan y grŵp ymrwymiadau lesoedd gweithredu na ellir eu canslo o £1,034,000 (gweler nodyn 20). Mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod tua 70% o'r rhain yn ymwneud â thaliadau ar gyfer lesoedd byrdymor a gwerth isel a fydd yn cael eu cydnabod ar sail linol fel gwariant i'r cyfrif incwm a gwariant.
- Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd gwerth yr ased hawl i ddefnyddio yn £133,000 a'r effaith ar y cyfrif incwm a gwariant yn llai na £2,000.

Ar sail yr asesiad uchod, mae'r Cyngor yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol na'r canlyniadau ar gyfer 2016 a 2017 ac mae wedi penderfynu peidio â'u mabwysiadu cyn y dyddiad dod i rym pan fyddai angen mabwysiadu.

### 1.3 CAMCANGYFRIFON A PHENDERFYNIADAU CYFRIFYDDU CRITIGOL

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'n rhaid i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wneud rhai amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau sy'n cael eu hadrodd yn y cyfrifon blynyddol.

Mae'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau'n seiliedig ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau yn ymwneud â digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol adeg gwneud y cyfryw amcangyfrifon a phenderfyniadau. Mae'n bosibl y bydd yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sydd â'r perygl mwyaf sylweddol o achosi newid sylweddol i'r symiau o asedau a rhwymedigaethau i'w cario yn cael eu trafod isod:

#### i) Buddion pensiwn

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â phensiynau yn unol ag IAS 19 Buddion Gweithwyr Cyflogedig. Wrth benderfynu ar gost y pensiwn a rhwymedigaeth

buddion diffiniedig cynllun pensiwn buddion diffiniedig y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, defnyddir nifer o ragdybiaethau gan gynnwys y gyfradd ddisgownt, y twf mewn cyflogau, chwyddiant prisiau, enillion disgwyliedig o fuddsoddiadau'r cynllun a chyfraddau marwolaeth. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu IAS 19 (2011) sy'n weithredol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2013. Mae'r rhagdybiaethau'n cael eu cytuno gyda'r actiwari cymwysedig a'u defnyddio i gyfrifo'r ddarpariaeth bensiwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 19 i'r cyfrifon.

Ar 31 Rhagfyr 2017 roedd gan y cynllun warged o £1.5 miliwn yn seiliedig ar y tybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd. Dan ofynion IFRIC 14: Y Cyfyngiad ar Ased Budd Diffiniedig, y Gofynion Ariannu a'u Rhyngweithiad, gallai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol orfod cyfyngu'r gwarged mewn datganiadau ariannol os na fyddai'n gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. O dan delerau ac amodau'r cynllun, byddai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged naill ai trwy gymryd seibiant cyfraniadau llawn neu trwy leihau ei gyfraniadau yn y dyfodol. Felly, nid oes cyfyngiad ar y gwarged dan sylw.

#### Ii) Dibrisiant ac Amorteiddiad

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â dibrisiant ac amorteiddiad yn unol ag IAS 16

Eiddo, Offer a Chyfarpar ac IAS 38 Asedau Anghyffyrddadwy. Y gost dibrisio ac amorteiddio sy'n cydnabod y gostyngiad yng ngwerth yr ased ac yn dyrannu cost yr ased dros y cyfnodau y caiff yr ased ei ddefnyddio.

Gwneir penderfyniadau ar sail amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr asedau, ac fe'u hadolygir yn rheolaidd i adlewyrchu'r amgylchedd newidiol.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn y polisi cyfrifyddu ar ddibrisiant ac amorteiddiad isod (nodyn 1.6).

## 1.4 BUSNES GWEITHREDOL

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi adolygu incwm ffioedd rhagamcanol, a'r rhagolygon gweithrediadau a llif arian ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn credu ei bod hi'n briodol paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail busnes gweithredol.

## 1.5 EIDDO, OFFER, CYFARPAR AC ASEDAU ANGHYFFYRDDADWY

Mae Asedau Diriaethol Sefydlog Anghyfredol yn cael eu nodi fel Eiddo, Offer a Chyfarpar o dan IAS 16. Lle bo hynny'n briodol, mae asedau meddalwedd a datblygu Technoleg Gwybodaeth wedi'u dosbarthu fel Asedau Anghyffyrddadwy o dan IAS 38.

Cedwir asedau sy'n cael eu hadeiladu ar sail cost ar y dyddiad cyfrifyddu nes eu bod yn gallu bod yn weithredol, pan gânt eu trosglwyddo i'r dosbarth asedau anghyfredol y maent yn perthyn iddo.

Nodir eiddo, offer, cyfarpar ac asedau anghyffyrddadwy ar sail cost, ar ôl ystyried gwerth dibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad.

Dim ond pan fo cost yr ased neu'r grŵp o asedau a gafaelwyd yn fwy na £1,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

## 1.6 DIBRISIANT AC AMORTEIDDIAD

Diben dibrisio ac amorteiddio yw dileu cot yr asedau anghyfredol yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifiedig. Mae cost dibrisio ac amorteieddio wedi'i chynnwys yn llinell gwariant gweinyddiaeth y cyfrif incwm a gwariant o dan incwm a gwariant cynhwysfawr. Mae'r oesau defnyddiol fel a ganlyn:

Dibrisir gwaith ailwampio cyfalaf a holl waith gwella'r lesddaliad yn 37/38 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ ac 13/15 Wimpole Mews dros weddill y brydles neu, os yw'n llai na hynny, dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig – rhwng 20 mlynedd a 10 mlynedd.

Dangosir oes ddefnyddiol asedau eraill isod:

- Dodrefn a ffitiadau – hyd at 10 mlynedd
- Offer a chyfarpar – hyd at ac yn cynnwys 25 mlynedd
- Cyfarpar TG – hyd at 4 blynedd
- Meddalwedd TG, trwyddedau a sicrwydd meddalwedd – hyd at 5 mlynedd

Adolygir cyfraddau dibrisio yn rheolaidd i gymharu oes wirioneddol asedau â chyfraddau'r polisi cyfrifyddu.

## 1.7 LLEIHAD

Ar ddyddiad pob datganiad o sefyllfa ariannol, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn adolygu symiau cario ei asedau i bennu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau wedi lleihau mewn gwerth. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased er mwyn pennu graddfa'r colledion lleihad. Caiff colledion lleihad eu cyfrif yn y datganiad incwm a gwariant ar unwaith.

Pan fo cynnydd dilynol yn swm adferadwy ased, yn sgil newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm adferadwy, mae'n cael ei ystyried fel gwrthdroad o'r colledion lleihad blaenorol ac yn cael ei gydnabod i'r un graddau â swm cario'r asedau a fyddai wedi'i bennu (gan ystyried amorteiddiad a dibrisiant) pe na bai colledion lleihad wedi'u cydnabod. Cydnabyddir y gwrthdroad yn y datganiad incwm a gwariant ar unwaith.

## 1.8 GWARIANT

Cyfrifir gwariant ar sail croniadau ar ôl i'r nwyddau neu'r gwasanaeth gael eu derbyn neu eu cyflawni. Caiff TAW anadferadwy ei chynnwys gyda'r eitem o wariant y mae'n berthnasol iddi.

## 1.9 INCWM

Cyfrifir pob incwm pan fo sicrwydd digonol ynghylch hawl, swm a derbyn. Mae'r holl ffioedd ar gyfer y cyfnod cofrestru gan ddeintyddion yn cael eu gohirio tan ddechrau'r cyfnod cofrestru y mae'r ffioedd yn ymwneud ag ef. 1 Ionawr i 31 Rhagfyr yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer deintyddion.

Cydnabyddir yr holl ffioedd ar gyfer y cyfnod cofrestru gan Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol yn llawn yn y flwyddyn ariannol pan dderbynnir yr incwm. 1 Awst i 31 Gorffennaf yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol.

Cydnabyddir ffioedd a dderbynnir mewn perthynas ag Arholiadau Cofrestru Tramor pan fo'r arholiadau'n cael eu sefyll.

Cydnabyddir ffioedd amrywiol, gwerthiannau eraill ac incwm arall pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau cysylltiedig. Cydnabyddir incwm o fuddsoddiadau pan fo difidendau neu log yn ddyledus ac fe'i cofnodir fel swm sy'n cynnwys y dreth adferadwy.

## 1.10 PRYDLESI ARIANNOL

Adolygir telerau holl brydlesi'r Cyngor a lle mae manteision a pheryglon perchnogaeth yn nwylo'r Cyngor, ystyrir prydlesi yn brydlesi ariannol. Mae gwerthoedd cyfalaf prydlesi ariannol, ynghyd â gwerth cyfredol ad-daliadau cyfalaf yn y dyfodol yn cael eu nodi fel asedau a rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Caiff prydlesi ar wahân i brydlesi ariannol eu nodi fel prydlesi gweithredol. Caiff prydlesi gweithredol eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail linol dros dymor y brydles, gan ystyried unrhyw gymhellion prydles yn unol â thelerau IAS 17.

Mae'r Cyngor yn adolygu pob contract gwasanaeth hefyd i bennu a yw'r contractau'n cynnwys prydles ariannol o dan delerau IAS 17 fel y'u dehonglir gan IFRIC 4.

## 1.11 TRETH

Caiff y Cyngor ei drethu fel sefydliad cydfuddiannol ac felly caiff ei drethu ar ffynonellau allanol o incwm yn unig. Yn hanesyddol, incwm o fuddsoddiadau oedd hyn.

Cydnabyddir treth ohiriedig ar bob gwahaniaeth trethadwy dros dro. Fodd bynnag, ni ddarperir treth ohiriedig pan gydnabyddir ased neu rwymedigaeth yn y lle cyntaf oni bai bod y trafodyn cysylltiedig yn effeithio ar dreth neu elw cyfrifo. Hefyd, cydnabyddir ased treth ohiriedig ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro i'w ddidynnu i'r graddau ei bod yn debygol y bydd yr elw trethadwy ar gael ac y gellir defnyddio'r gwahaniaeth dros dro i'w ddidynnu yn ei erbyn. Mesurir asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig ar y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys yng nghyfnod gwireddu'r ased neu pan gaiff y rhwymedigaeth ei setlo. Mae'r mesuriad yn seiliedig hefyd ar y canlyniadau treth o adennill neu setlo swm cario asedau a rhwymedigaethau. Cydnabyddir newidiadau mewn asedau neu rwymedigaethau treth ohiriedig fel elfen o gostau treth yn y cyfrif incwm a gwariant.

## 1.12 CYNLLUNIAU PENSIWN

Mae'r Cyngor yn gweithredu tri chynllun pensiwn yn yr un ymddiriedolaeth – Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae asedau'r cynlluniau yn cael eu cadw ar wahân i asedau'r Cyngor ac maent yn cael eu buddsoddi yn unol â'r disgrifiad yn nodyn 19.

Adran Cyfraniadau Diffiniedig 2014: Sefydlwyd yr adran hon i'w gweithredu o 1 Chwefror 2014 ymlaen, gan ystyried diwygiadau i bensiynau yn sgil y system gofrestru awtomatig. Erbyn hyn, y cynllun hwn yw'r prif gynllun pensiwn ar gyfer gweithwyr cyflogedig. Pennwyd cyfraniadau fel canran o gyflogau pensiynadwy, gyda chyfraniad y cyflogwr wedi'i bennu fel isafswm o 6% ac uchafswm o 10% o gyflog pensiynadwy. Caiff y cyfraniadau eu cynnwys o dan y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Adran Buddion Diffiniedig: Cafodd yr adran hon ei chau i weithwyr newydd a gafodd gynnig swydd ar ôl 31 Rhagfyr 2014, a bydd ar gau i'r rhai newydd sy'n ymuno ar ôl 1 Gorffennaf 2016. Caiff costau gwasanaeth cyfredol y cynllun pensiwn buddion diffiniedig a net costau llog y cynllun a'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn eu cynnwys o dan 'gostau pensiwn' y cyfrif incwm a gwariant. Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd yn syth o fewn 'incwm cynhwysfawr arall'.

Mesurir asedau'r cynllun buddion diffiniedig yn ôl gwerth teg ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun ar sail actiwaraidd ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau a'u disgowntio ar gyfradd sy'n gyfwerth â chyfradd adennill gyfredol bond corfforaethol o safon uchel sydd â chyfnod tebyg i rwymedigaethau'r cynllun. Nodir ased neu rwymedigaeth y buddion diffiniedig terfynol ar wahân yn y datganiad o sefyllfa ariannol.

Adran cyfraniadau diffiniedig 'atodol': Cafodd yr adran hon ei chau i'r rhai newydd a oedd yn ymuno ar ôl 1 Ebrill 2014. Mae cyfraniadau'n wirfoddol a bydd y Cyngor yn gwneud cyfraniadau cyfatebol o hyd at 5% o'r cyflog pensiynadwy. Caiff y cyfraniadau eu cynnwys o dan y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

## 1.13 ASEDAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl asedau ariannol naill ai fel 'asedau ariannol am werth teg drwy elw neu golled' neu fel 'asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu', gan ddibynnu ar ddiben yr ased adeg ei gaffael. Ar hyn o bryd, dim ond yr asedau canlynol am werth teg sydd gan y Cyngor, gyda symudiad drwy incwm cynhwysfawr arall:

### Buddsoddiadau ar gael i'w gwerthu

Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau o warantau rhestredig, gwarantau llog sefydlog, ecwitïau ac ymddiriedolaeth unedol sy'n gronfa a reolir ac yn cynnwys portffolio cymysg o warantau rhestredig ac adneuon arian parod. Caiff y rhain eu trin fel buddsoddiadau anghyfredol sydd ar gael i'w gwerthu a'u cynnwys ar sail gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y pris cynnig terfynol a ddyfynnwyd ar y dyddiadau cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion heb eu gwireddu sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth y farchnad yn cael eu cynnwys o fewn incwm cynhwysfawr arall, ac yn cael eu rhoi yn y gronfa ailbrisio buddsoddiadau. Wrth eu gwaredu, mae'r cynnydd neu'r golled gronnus a gydnabuwyd yn flaenorol yn y cronfeydd wrth gefn yn cael ei ailddosbarthu i'r cyfrif incwm a gwariant.

### Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae'r rhain yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon a gaiff eu dal ar gais gyda banciau.

### Rhwymedigaethau ariannol

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl rwymedigaethau ariannol yn rhwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw neu golled. Isod, nodir y mathau o rwymedigaethau o fewn y categori, gan ddibynnu ar y diben y cafwyd y rhwymedigaeth ar ei gyfer.

### i) Masnach a symiau taladwy eraill

Mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna'u cario am werth a anfonebwyd neu'r gost amorteiddio. Mae'r rhain yn deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau. Datgelir gwerth y rhwymedigaethau hyn yn nodyn 17.

## 1.14 CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae cronfeydd wrth gefn yn cynnwys y canlynol:

### Cronfeydd cyffredinol wrth gefn

Represents the retained results after the transfer Yn cynrychioli'r canlyniadau argadwedig ar ôl trosglwyddo enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau a/neu rwymedigaethau cynllun pensiwn ac enillion/colledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau.

### Cronfa bensiwn wrth gefn

Yn cynrychioli enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau'r cynllun pensiwn sy'n deillio o ailbrisio darpariaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ased/rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddion diffiniedig.

### Enillion heb eu gwireddu ar y gronfa fuddsoddiadau wrth gefn

Yn cynrychioli enillion a cholledion heb eu gwireddu sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau dros eu cost hanesyddol.

## 1.15 RHEOLI RISG ARIANNOL

Amlinellir manylion y categorïau amrywiol o asedau ariannol yn nodyn 14 i nodyn 16. Amlinellir y categorïau amrywiol o rwymedigaethau ariannol yn nodyn 17.

### Risg Credyd

Bod yn agored i risg credyd yw'r risg y bydd un parti i offeryn ariannol yn methu cyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi colled ariannol i'r parti arall. Ni ystyrir bod hyn yn arwyddocaol. Nid yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn defnyddio offerynnau ariannol sy'n cynyddu ei broffil risg credyd ei hun ac nid yw'n agored i ddyled allanol. Mae'n defnyddio mesurau lliniaru risg amrywiol, gan gynnwys asesiadau statws credyd i asesu risg credyd gwrth-bartïon, gan gynnwys cyflenwyr a sefydliadau ariannol.

### Perygl hylifedd

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau ar hyn o bryd ac mae'n dibynnu'n bennaf ar ffioedd ar gyfer ei ofynion arian parod. Mae'r balansau arian yn gylchol ac yn cyrraedd uchafbwynt ym mis Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst.

Mae lefelau cyllid arian parod yn lleihau rhwng y cyfnodau hyn gan fod derbyniadau'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, pan fo deintyddion yn talu eu ffi gadw flynyddol ac ym mis Gorffennaf, pan fo gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu ffioedd cadw blynyddol. Mae gwariant y Cyngor wedi'i rannu'n gyfartal gydol y flwyddyn. Felly, nid yw'r Cyngor yn credu ei fod yn agored iawn i berygl hylifedd.

### Risg arian cyfred

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol yn cael eu trafod mewn sterling, felly nid ydynt yn agored i risg arian cyfred.

Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol bolisi cronfeydd wrth gefn. Yn sgil cylchoedd adnewyddu cofrestriadau a dulliau talu ffioedd cofrestru, mae gan y Cyngor Deintyddol

Cyffredinol swm sylweddol o arian mewn cyfrifon cadw tymor byr i dalu'r gwariant a ddisgwylir dros y cyfnod talu.

### Risg cyfraddau llog

Mae gweithwyr proffesiynol deintyddol yn talu ffioedd ymlaen llaw. Mae cronfeydd gwarged yn cael eu cadw fel a ganlyn:

- Adnau tymor sefydlog – mae mwyafrif y cronfeydd gwarged yn cael eu cadw yn y farchnad arian tymor byr. Mae'r Cyngor yn chwilio am gyfraddau cystadleuol ar fuddsoddiadau marchnad arian.
- Buddsoddiadau – buddsoddir gweddill y cronfeydd mewn portffolio o ecwitïau ac ymddiriedolaethau unedol lle mae yna risg bob amser o leihad mewn gwerth.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r marchnadoedd ariannol gan ddefnyddio strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg a cholled ormodol i gyfrifoldebau rheoleiddio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Cymeradwyodd y Cyngor ddatganiad diwygiedig o egwyddorion buddsoddi ym mis Rhagfyr 2017, lle bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ceisio cael portffolio o fuddsoddiadau risg a fydd yn sicrhau enillion o fuddsoddiadau sy'n cyd-fynd yn fras â chwyddiant.

Ni ystyrir bod y risg cyfraddau llog yn sylweddol o ran bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn dibynnu ar incwm llog i raddau helaeth i ariannu ei weithrediadau.The Council approved a revised statement of investment principles in December 2017, whereby the GDC will aim to achieve an investment risk portfolio that seeks to achieve investment returns broadly in line with inflation.

The interest rate risk is not considered to be significant in terms of the GDC relying on interest income to fund its operations.



## 2 INCWM

| | | 2017 | 2016 |
|---|---|---|---|
| | Nifer | £000 | £000 |
| **Ffioedd** | | | |
| Deintyddion | | | |
| Cyfanswm cofrestru newydd | 1,745 | 792 | 898 |
| Cofrestru dros dro | 26 | 23 | 29 |
| Cadw | 39,775 | 35,400 | 35,094 |
| Adfer ar ôl dileu | 249 | 221 | 162 |
| **Cyfanswm** | **41,795** | **36,436** | **36,183** |
| Gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol | | | |
| Cyfanswm cofrestru newydd | 5,021 | 353 | 307 |
| Cadw | 66,373 | 7,699 | 7,556 |
| Adfer ar ôl dileu | 1,195 | 139 | 124 |
| **Cyfanswm** | **72,589** | **8,191** | **7,987** |
| Arbenigwyr | | | |
| Cofrestru arbenigwyr | 162 | 56 | 63 |
| Ffi gadw flynyddol arbenigwyr | 4234 | 305 | 303 |
| Ffi adfer arbenigwyr | 20 | 1 | - |
| **Cyfanswm** | **4,416** | **362** | **366** |
| **Cyfanswm ffioedd** | | **44,989** | **44,536** |

Mae'r ffigurau uchod yn dangos faint o weithwyr cofrestredig sy'n talu ffioedd yn ystod y flwyddyn ac nid nifer y gweithwyr cofrestredig sydd ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2017.

## 3 INCWM AMRYWIOL

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ffioedd arholiadau | 1,389 | 1,877 |
| Incwm gweithredu arall | 3 | 27 |
| | **1,392** | **1,904** |

## 4 INCWM BUDDSODDI

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Llog adneuon banc | 104 | 94 |
| Difidendau – gwarantau rhestredig | 10 | 71 |
| | **114** | **165** |

## 5 NIFEROEDD STAFF A CHOSTAU CYSYLLTIEDIG

| | 2017 | | | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhao | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| **Costau staff yn cynnwys:** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyflogau | 14,051 | - | 14,051 | 13,318 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,463 | - | 1,463 | 1,357 |
| Costau pensiwn | 2,148 | - | 2,148 | 1,680 |
| Taliadau dileu swydd a therfynu eraill | 99 | | 99 | 221 |
| Costau staff eraill | 1,190 | - | 1,190 | 1,056 |
| **Is-gyfanswm** | **18,951** | **-** | **18,951** | **17,632** |
| Staff dros dro | - | 447 | 447 | 1,279 |
| **Cyfanswm** | **18,951** | **447** | **19,398** | **18,911** |

## (A) GWEITHWYR – NIFEROEDD

Nifer cyfartalog gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn wedi'u dadansoddi yn ôl swyddogaeth:

| | 2017 | | | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhao | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau | 135 | 22 | 157 | 175 |
| Cofrestru | 49 | 5 | 54 | 74 |
| Rheoli rhanddeiliaid a pholisi | 15 | 1 | 16 | 13 |
| Llywodraethu | 23 | 2 | 25 | 8 |
| Adnoddau Dynol | 11 | 1 | 12 | 11 |
| Sicrhau Ansawdd | 7 | 1 | 8 | 11 |
| Gwasanaethau Cwynion Deintyddol | 8 | 1 | 9 | 9 |
| Adnoddau Corfforaethol | 51 | 3 | 54 | 38 |
| **Cyfanswm** | **299** | **36** | **335** | **339** |

## (B) GWEITHWYR – TÂL

Nifer y staff yr oedd eu henillion trethadwy'n perthyn i fandiau cyflog uwch:

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | Cyfanswm nifer | Cyfanswm nifer |
| £60,000 ond o dan£70,000 | 19 | 10 |
| £70,000 ond o dan £80,000 | 7 | 6 |
| £80,000 ond o dan £90,000 | 3 | 2 |
| £90,000 ond o dan £100,000 | 2 | 1 |
| £100,000 ond o dan £110,000 | - | 3 |
| £110,000 ond o dan £120,000 | 3 | 2 |
| £130,000 ond o dan£140,000 | - | 1 |
| £140,000 ond o dan £150,000 | 1 | - |



Roedd 11 aelod o'r staff uchod yn rhan o gynllun pensiwn 'buddion diffiniedig' (2016: 13 aelod staff) a 27 aelod yn perthyn i'r cynllun pensiwn 'cyfraniadau diffiniedig' (2015: 11 aelod staff). Y pensiwn a gasglwyd gan y gweithiwr â'r cyflog uchaf o dan y cynllun cyfraniadau diffiniedig oedd £8,400) (2016: y pensiwn a gasglwyd gan y gweithiwr â'r cyflog uchaf o dan y cynllun cyfraniadau diffiniedig oedd £7,894).

Prif Weithredwr a Chofrestrydd – tâl

| | Enillion | Enillion | Pensiwn cronnus | Pensiwn cronnus |
|---|---|---|---|---|
| | 2017 £000 | 2016 £000 | 2017 £000 | 2016 £000 |
| Ian Brack | 140 | 140 | 8 | 8 |

## 6 COSTAU GWEINYDDOL ERAILL

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2017

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol** | | |
| Tâl a threuliau'r Archwilydd: | | |
| Archwiliad Allanol | 23 | 21 |
| Archwiliad allanol – Y Swyddfa Ystadegu Gwladol | 4 | 4 |
| Archwiliad mewnol | 65 | 85 |
| Ffioedd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol | 276 | 277 |
| Gwrandawiadau ymddygiad | 1,929 | 4,305 |
| Ffioedd cwnsler | 1,233 | 1,461 |
| Ffioedd arbenigwyr | 1,108 | 1,645 |
| Costau arholiadau | 1,229 | 1,672 |
| Ffioedd a chostau eraill | 2,004 | 2,949 |
| Treuliau eraill | 137 | 272 |
| **Cyfanswm** | **8,008** | **12,691** |

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y gwasanaethau canlynol nad oeddent yn rhan o'r archwiliad gan yr archwilydd allanol haysmacintyre: | | |
| Cyngor ar dreth gorfforaeth | 2 | 2 |
| | **2** | **2** |

## 7 CYFARFODYDD CYNGOR A PHWYLLGORAU

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| (a) Ffioedd a threuliau'r Cyngor<br>Ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Cyngor | 232 | 233 |
| Treuliau a dalwyd i Aelodau'r Cyngor | 103 | 139 |
| Treuliau cyfarfodydd y Cyngor | 127 | 131 |
| | **462** | **503** |
| (b) Ffioedd a threuliau pwyllgorau a phaneli<br>Ffioedd a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 2,125 | 2,749 |
| Treuliau a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 743 | 975 |
| Ffioedd a threuliau proffesiynol ar gyfer pwyllgorau a phaneli | 1,386 | 1,641 |
| Cost llogi lleoliadau a threuliau eraill cyfarfodydd | 2,452 | 3,335 |
| | **6,706** | **8,700** |
| **Cyfanswm cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau** | **7,168** | **9,203** |

## 8 COSTAU GWEINYDDOL

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Dibrisiant | 806 | 783 |
| Amorteiddiad | 258 | 358 |
| Colledion yn sgil gwaredu eiddo, offer a chyfarpar | 0 | (2) |
| Rhentu dan brydlesi gweithredol: | | |
| Llogi peiriannau swyddfa | 17 | 28 |
| Prydlesi adeiladau | 871 | 963 |
| Taliadau llog | 0 | 0 |
| Cymorth a chynnal a chadw technoleg gwybodaeth | 869 | 779 |
| Costau personél | 28 | 24 |
| Costau gweithredu eraill | 535 | 535 |
| | **3,384** | **3,468** |

## 9 LLETY

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Costau llety eraill | 817 | 741 |
| | **817** | **741** |

## 10 CYFATHREBU A CHYHOEDDIADAU

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyfanswm Cyfathrebu a Chyhoeddiadau | 211 | 244 |
| | **211** | **244** |



## 11 TRETH

### (A) DADANSODDIAD O'R DRETH A GODIR

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Treth gyfredol** | | |
| Treth gorfforaeth y DU ar elw'r flwyddyn | 20 | 122 |
| Addasiad treth y flwyddyn flaenorol | (1) | 0 |
| Trethi tramor | 0 | 0 |
| **Cyfanswm trethi cyfredol a godir** | **19** | **122** |
| **Treth ohiriedig** | | |
| Tarddiad a gwrthdroi gwahaniaethau o ran amseru | 32 | (29) |
| Effaith y newid i'r gyfradd dreth ar y balans agoriadol | 0 | (8) |
| **Cyfanswm treth ohiriedig** | **32** | **(37)** |
| **Treth ar elw ar weithgareddau cyffredin** | **51** | **85** |

### (B) FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y TRETHI A GODIR AM Y CYFNOD

Caiff y Cyngor ei drethu fel sefydliad cydfuddiannol ac felly caiff ei drethu ar ffynonellau allanol o incwm yn unig. Yn hanesyddol, incwm o fuddsoddiadau oedd hyn.

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Ffactorau sy'n effeithio ar y trethi a godir am y cyfnod** | | |
| Elw am y flwyddyn | 7,555 | 1,946 |
| Cost ddisgwyliedig ar sail 20.25% (2015: 20%) | 1,454 | 389 |
| **Effeithiau:** | | |
| Incwm di-dreth | (1,434) | (369) |
| Symudiad ym malans y dreth ohiriedig oherwydd newid i gyfraddau treth | (4) | (3) |
| Treth ar gydraddoli a chynnydd yng ngwerth buddsoddiadau llog penodol | 36 | 68 |
| Addasiad treth y flwyddyn flaenorol | (1) | 0 |
| **Treth a godir y flwyddyn hon** | **51** | **85** |

## 12 EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

| 2017 | Eiddo ar Brydles | Offer Chyfarpar | Dodrefn a Gosodiadau | Technoleg Gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werthuso** | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2017 | 12,787 | 1,071 | 594 | 897 | 15,349 |
| Ychwanegiadau | 135 | - | - | 45 | 180 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2017** | **12,922** | **1,071** | **594** | **942** | **15,529** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2017 | 3,812 | 272 | 193 | 478 | 4,755 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 391 | 116 | 113 | 186 | 806 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2017** | **4,203** | **388** | **306** | **664** | **5,561** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2017** | **8,719** | **683** | **288** | **278** | **9,968** |
| **Ar 31 Rhagyr 2016** | **8,975** | **799** | **401** | **419** | **10,594** |

| 2016 | Eiddo ar Brydles | Offer Chyfarpar | Dodrefn a Gosodiadau | Technoleg Gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werthuso** | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2016 | 12,761 | 1,003 | 572 | 657 | 14,993 |
| Ychwanegiadau | 26 | 68 | 22 | 250 | 366 |
| Gwarediadau | - | - | - | (10) | (10) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2016** | **12,787** | **1,071** | **594** | **897** | **15,349** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2016 | 3,422 | 154 | 74 | 332 | 3,982 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 390 | 118 | 119 | 156 | 783 |
| Gwarediadau | - | - | - | (10) | (10) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2016** | **3,812** | **272** | **193** | **478** | **4,755** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2016** | **8,975** | **799** | **401** | **419** | **10,594** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2015** | **9,339** | **849** | **498** | **325** | **11,011** |

Mae'r holl asedau'n eiddo i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

## 13 ASEDAU ANGHYFFYRDDADWY

| 2017 | Meddalwedd | Trwyddedau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2017 | 1,837 | 361 | 196 | 2,394 |
| Ychwanegiadau | 32 | 6 | - | 38 |
| Trosglwyddiadau | 196 | - | (196) | - |
| **Ar 31 Rhagfyr 2017** | **2,065** | **367** | **-** | **2,432** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2017 | 1,507 | 286 | - | 1,793 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 219 | 39 | - | 258 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2017** | **1,726** | **325** | **-** | **2,051** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2017** | **339** | **42** | **-** | **381** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2016** | **330** | **75** | **196** | **601** |

| 2016 | | Meddalwedd | Trwyddedau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2016 | | 1,740 | 349 | 147 | 2,236 |
| Ychwanegiadau | | - | 12 | 146 | 158 |
| Trosglwyddiadau | | 97 | - | (97) | - |
| **Ar 31 Rhagfyr 2016** | | **1,837** | **361** | **196** | **2,394** |
| **Amorteiddiad** | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2016 | | 1,198 | 237 | - | 1,435 |
| CCodwyd yn ystod y flwyddyn | | 309 | 49 | - | 358 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2016** | | **1,507** | **286** | **-** | **1,793** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2016** | | **330** | **75** | **196** | **601** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2015** | | **542** | **112** | **147** | **801** |

Mae'r holl asedau'n eiddo i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

## 14 ASEDAU ARIANNOL – ASEDAU AR GAEL I'W GWERTHU

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | Ecwitïau | |
| | £000 | £000 |
| **Balans ar 1 Ionawr** | **756** | **3,477** |
| Ychanegiadau | 3 | 204 |
| Gwarediadau | - | (3,301) |
| | **759** | **380** |
| Enillion wedi'u gwireddu ar fuddsoddiadau | - | 597 |
| Enillion/(colledion) heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | 189 | (221) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **948** | **756** |

Incwm a gynhyrchwyd o'r asedau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017: Ecwitïau £9,884 (2016: £71,250).

Mae'r holl asedau ariannol uchod yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol ac wedi'u cynnwys ar werth y farchnad. Mae'r holl asedau ariannol yn cael eu trin fel rhai lefel 1 at ddibenion datgelu o dan IFRS7, gan fod yr holl symiau wedi'u pennu trwy gyfeirio at y prisiau a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol.

## 15 DERBYNIADAU MASNACH AC ASEDAU CYFREDOL ERAILL

| | 31 Rhag 2017 | 31 Rhag 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Derbyniadau masnach | - | - |
| Derbyniadau eraill | 160 | 182 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 2,182 | 2,335 |
| **Cyfanswm** | **2,342** | **2,517** |

Dyledion cyfredol yw'r rhain, ac nid oes unrhyw symiau dyledus o'r gorffennol ond nid oes lleihad mewn gwerth. Nid oes darpariaeth ar gyfer drwgddyledion. Nid oes asedau ariannol sydd wedi lleihau mewn gwerth.

## 16 ARIAN PAROD A'R HYN SY'N GYFWERTH AG ARIAN PAROD

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ionawr | 38,899 | 33,766 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 8,806 | 5,133 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **47,705** | **38,899** |
| **Roedd y balansau canlynol wedi'u cadw mewn:** | | |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 36,480 | 18,681 |
| Adneuon banc tymor byr | 11,225 | 20,218 |
| **Cyfanswm** | **47,705** | **38,899** |

## 17 TALIADAU MASNACH A RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL ERAILL

| | 31 Rhag 2017 | 31 Rhag 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Treth gorfforaeth | 20 | 123 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 497 | 484 |
| Taliadau masnach | 1,024 | 1,450 |
| Taliadau eraill | 82 | 104 |
| Croniadau | 1,925 | 2,195 |
| Incwm gohiriedig | 36,502 | 36,026 |
| Cymhelliant prydles weithredol gohiriedig | - | 58 |
| **Cyfanswm** | **40,050** | **40,440** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Treth ohiriedig | 142 | 111 |
| | **142** | **111** |
| **Cyfanswm** | **40,192** | **40,551** |

## 18 OFFERYNNAU ARIANNOL A RHEOLI RISGIAU ARIANNOL

| | 31 Rhag 2017 | 31 Rhag 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Asedau ariannol** | | |
| **Costau wedi'u hamorteiddio** | | |
| Balansau arian parod a'r banc | 47,705 | 38,899 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 2,342 | 2,517 |
| **Cyfanswm** | **50,047** | **41,416** |
| **Gwerth teg drwy elw a cholled** | | |
| Ecwitïau | 948 | 756 |
| **Cyfanswm** | **948** | **756** |

Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau o warantau rhestredig, gwarantau llog sefydlog, ecwitïau ac ymddiriedolaeth unedol sy'n gronfa a reolir ac yn cynnwys portffolio cymysg o warantau rhestredig ac adneuon arian parod. Caiff y rhain eu trin fel buddsoddiadau anghyfredol sydd ar gael i'w gwerthu a'u cynnwys ar sail gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y pris cynnig terfynol a ddyfynnwyd ar y dyddiadau cyfrifyddu.

Caiff y buddsoddiadau eu categoreiddio fel lefel un at ddibenion datgelu o dan IFRS 7.

| | 31 Rhag 2017 | 31 Rhag 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 3,548 | 4,414 |
| **Cyfanswm** | **3,548** | **4,414** |

Mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna'u cario am werth a anfonebwyd neu'r gost amorteiddio. Ni chaiff unrhyw rwymedigaethau eraill eu dal ar sail eu gwerth teg. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol o'r farn bod gwerth cario symiau derbyniadwy masnach a symiau taladwy masnach yn agos i'w gwerth teg gan fod yr offerynnau hyn yn aeddfedu dros gyfnod byr.

## Risg Credyd

Bod yn agored i risg credyd yw'r risg y bydd un parti i offeryn ariannol yn methu cyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi colled ariannol i'r parti arall. Ni ystyrir bod hyn yn arwyddocaol. Nid yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn defnyddio offerynnau ariannol sy'n cynyddu ei broffil risg credyd ei hun ac nid yw'n agored i ddyled allanol. Mae'n defnyddio mesurau lliniaru risg amrywiol, gan gynnwys asesiadau statws credyd i asesu risg credyd gwrth-bartïon, gan gynnwys cyflenwyr a sefydliadau ariannol.

## Risg Hylifedd

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau ar hyn o bryd ac mae'n dibynnu'n bennaf ar ffioedd ar gyfer ei ofynion arian parod. Mae'r balansau arian yn gylchol ac yn cyrraedd uchafbwynt ym mis Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst.

Mae lefelau cyllid arian parod yn lleihau rhwng y cyfnodau hyn gan fod derbyniadau'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, pan fo deintyddion yn talu eu ffi gadw flynyddol ac ym mis Gorffennaf, pan fo gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu ffioedd cadw blynyddol. Mae gwariant y Cyngor wedi'i rannu'n gyfartal gydol y flwyddyn. Felly, nid yw'r Cyngor yn credu ei fod yn agored iawn i berygl hylifedd.

## Risg arian cyfred

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol yn cael eu trafod mewn sterling, felly nid ydynt yn agored i risg arian cyfred drwy ddaliadau uniongyrchol mewn ecwitïau tramor. Fodd bynnag, caiff rhai o'r cronfeydd cyfunol a ddelir eu buddsoddi dramor, a gall rhai cwmnïau ddatgan difidendau mewn arian cyfred heblaw sterling ond yn talu mewn sterling, ac felly hwyrach y gallai amrywiadau mewn arian cyfred effeithio arnynt.

Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol bolisi cronfeydd wrth gefn. Yn sgil cylchoedd adnewyddu cofrestriadau a dulliau talu ffioedd cofrestru, mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol swm sylweddol o arian mewn cyfrifon cadw tymor byr i dalu'r gwariant a ddisgwylir dros y cyfnod talu.

## Risg cyfraddau llog

Mae gweithwyr proffesiynol deintyddol yn talu ffioedd ymlaen llaw. Mae cronfeydd gwarged yn cael eu cadw fel a ganlyn:

- Adnau tymor sefydlog – mae mwyafrif y cronfeydd gwarged yn cael eu cadw yn y farchnad arian tymor byr. Mae'r Cyngor yn chwilio am gyfraddau cystadleuol ar fuddsoddiadau marchnad arian.
- Buddsoddiadau – buddsoddir gweddill y cronfeydd mewn portffolio o ecwitïau ac ymddiriedolaethau unedol lle mae yna risg bob amser o leihad mewn gwerth.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r marchnadoedd ariannol gan ddefnyddio strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg a cholled ormodol i gyfrifoldebau rheoleiddio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Cymeradwyodd y Cyngor ddatganiad diwygiedig o egwyddorion buddsoddi ym mis Rhagfyr 2011, a'i gadarnhau ym mis Rhagfyr 2016, lle bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ceisio cael portffolio o fuddsoddiadau risg a fydd yn sicrhau enillion o fuddsoddiadau sy'n cyd-fynd yn fras â chwyddiant.

Ni ystyrir bod y risg cyfraddau llog yn sylweddol o ran bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn dibynnu ar incwm llog i raddau helaeth i ariannu ei weithrediadau.



# 19 CRONFA BENSIWN

Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gynllun buddion diffiniedig sy'n cael ei ariannu'n llawn gan gyfraniadau gan y Cyngor Deintyddol a'r Aelodau. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 1 Ebrill 2015 a'i ddiweddaru i 31 Rhagfyr 2017 gan actiwari annibynnol cymwysedig.

Ar 31 Rhagfyr 2017, roedd gan y Cynllun warged o £1.5 miliwn yn seiliedig ar y tybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd. Profodd adran buddion diffiniedig y cynllun gynnydd actiwaraidd net o £2.8 miliwn yng ngwerth y gronfa ar gyfer 2017, o gymharu â'r ffigur a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd.

Er bod y dybiaeth o gyfradd gostyngiad yn is yn 2017 nag yn 2016, gan adlewyrchu llai o enillion ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel y bernir bod eu tymor a'u harian cyfred yn cyfateb i rwymedigaethau'r cynllun, gwrthbwyswyd hyn gan symudiadau cadarnhaol yn y rhagdybiaethau chwyddiant a marwolaethau. Yn y cyfamser, roedd taliadau o'r cynllun £0.7 miliwn yn fwy na thaliadau i mewn i'r cynllun a thaliadau llog. Arweiniodd hyn at gynnydd cyffredinol o £2.1 milwn yn y cynllun, a gwarged pensiwn IAS 19 o £1.5 miliwn (2017) o ddiffyg pensiwn o £0.6 miliwn (2016).

Hyd y Cynllun yw oddeutu 30 mlynedd ac felly disgwylir y bydd llifoedd arian yn y dyfodol yn cael eu talu am fwy na 30 mlynedd.

Dyma'r prif dybiaethau a ddefnyddiodd yr actiwari ar gyfer y diweddariad ar 31 Rhagfyr 2017:

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| Cyfradd chwyddiant | 3% | 4% |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau | 4% | 4% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu lle mae'r uchafswm RPI yn 5.0% | 3% | 3% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu lle mae'r isafswm RPI yn 3% a'r uchafswm yn 5% | 4% | 4% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu lle mae'r uchafswm RPI yn 2.5% | 2% | 2% |
| Cyfradd gostyngiad | 3% | 3% |
| Cyfran y gweithwyr sy'n dewis ymddeol yn gynnar yn 60 oed | 50% | 50% |
| Disgwyliadau oes tybiedig wrth ymddeol yn 65 oed: | | |
| Ymddeol heddiw – dynion | 23 | 24 |
| Ymddeol heddiw – menywod | 23 | 25 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd – dynion | 24 | 25 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd – menywod | 24 | 27 |

Mae'r tybiaethau marwoldeb ar gyfer y diwedd cyfnod cyfredol yn dilyn SINA Light gyda chyfraddau gwelliant yn unol â model CMI 2016 (1% y flwyddyn yn yr hirdymor).

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

| | 2017 | 2017 | 2016 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | £000 | % |
| Ecwitïau | 22,994 | 75% | 20,412 | 77% |
| Y gronfa gydag elw | 3,129 | 10% | 2,994 | 11% |
| Bondiau | 4,088 | 13% | 3,133 | 12% |
| Arian parod | 282 | 1% | 134 | 1% |
| **Cyfanswm** | **30,493** | **100%** | **26,673** | **100%** |

Ni fuddsoddir unrhyw asedau'r cynllun pensiwn yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Yr elw gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn y flwyddyn | 2,954 | 3,324 |

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Dadansoddiad o'r symiau a ddebydwyd/(credydwyd) i'r cyfrif incwm a gwariant:** | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol | (1,551) | (1,459) |
| Cost llog net ar rwymedigaeth pensiwn net | (26) | 221 |
| Cyfanswm y swm a godwyd o fewn adnoddau i mewn/(allan) net | (1,577) | (1,238) |
| Ailfesur rhwymedigaeth pensiwn | 2,800 | (6,302) |
| **Cyfanswm a godwyd** | **1,223** | **(7,540)** |
| **Y symiau sydd wedi'u cydnabod yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol** | | |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | (28,993) | (27,285) |
| Gwerth teg yr asedau | 30,493 | 26,674 |
| Gwarged/diffyg | **1,500** | **(611)** |

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Y symiau yn y datganiad o incwm cynhwysfawr arall** | | |
| (Colled)/elw actiwaraidd ar asedau'r cynllun | 2,195 | 2,421 |
| (Colled)/elw actiwaraidd ar rwymedigaeth buddion diffiniedig | 605 | (8,723) |
| o ganlyniad i brofiad | *212* | *76* |
| o ganlyniad i dybiaethau demograffig | *1,277* | *0* |
| o ganlyniad i dybiaethau ariannol | *(884)* | *(8,799)* |
| **Cyfanswm (colled)/elw yn y datganiad o incwm cynhwysfawr arall** | **2,800** | **(6,302)** |

Mae'r Cyngor yn disgwyl cyfrannu £938,0000 at ei gynllun pensiwn buddion diffiniedig yn 2018.



| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig fel y ganlyn:** | | |
| Cyfradd ddisgownt wedi'i lleihau 0.1% y flwyddyn (2016: 0.1% y flwyddyn) | 28,193 | 26,485 |
| Chwyddiant RPI wedi cynyddu 0.1% y flwyddyn (2016: 0.1% y flwyddyn) | 28,393 | 26,785 |
| Cyflogau wedi cynyddu 0.1% y flwyddyn (2016: 0.1% y flwyddyn) | 28,593 | 27,585 |
| Marwoldeb – disgwyliad oes pob aelod yn cynyddu i rywun flwyddyn yn iau | 28,193 | 26,585 |

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Mae'r newidiadau i werth presennol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig fel a ganlyn:** | | |
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 1 Ionawr | 27,285 | 17,083 |
| Cost llog | 785 | 682 |
| Cost gwasanaeth | 1,551 | 1,459 |
| Cyfraniadau aelodau | 368 | 371 |
| Colled/(elw) actiwaraidd | (605) | 8,723 |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun / treuliau gweinyddol a dalwyd | (391) | (1,033) |
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 31 Rhagfyr | **28,993** | **27,285** |

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Mae'r newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun fel a ganlyn:** | | |
| Gwerth teg ar 1 Ionawr | 26,674 | 22,942 |
| Incwm llog | 759 | 903 |
| Enillion ar asedau'r cynllun sy'n uwch nag incwm llog | 2,195 | 2,421 |
| Cyfraniadau cyflogwr | 888 | 1,070 |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 368 | 371 |
| Buddion a dalwyd/treuliau gweinyddol a dalwyd | (391) | (1,033) |
| Gwerth teg ar 31 Rhagfyr | **30,493** | **26,674** |

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Newid mewn gwarged adferadwy ac elfennau o berfformiad y cynllun** | | |
| Balans agoriadol | (611) | 5,859 |
| Cost gwasanaeth cyfredol | (1,551) | (1,459) |
| Llog ar y gwarged | (26) | 221 |
| Cost pensiwn net | (1,577) | (1,238) |
| Cyfraniadau cyflogwr | 888 | 1,070 |
| Elw/(colled) actiwaraidd | 2,800 | (6,302) |
| Balans cau ar 31 Rhagfyr | **1,500** | **(611)** |

| | 2017 | 2016 | 2015 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Symiau mewn cyfnodau cyfredol a blaenorol** | | | | |
| Elw ar asedau cynllun sy'n uwch na'r llog | 2,195 | 2,421 | 525 | 107 |
| Enillion/(colledion) profiad ar rwymedigaethau'r cynllun | 212 | 76 | 2,383 | (41) |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n ail i werth presennol Rhwymedigaethau'r cynllun | (884) | (8,799) | 688 | (2,949) |
| Rhwymedigaethau buddion diffiniedig | (28,993) | (27,285) | (17,083) | (18,010) |
| Asedau'r cynllun | 30,493 | 26,674 | 22,942 | 20,500 |
| Gwarged | 1,500 | (611) | 5,859 | 2,490 |

| | 2017 | 2016 | 2015 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau a enillwyd** | | | | |
| Swm | 2,195 | 2,421 | 525 | 107 |
| % o rwymedigaethau'r cynllun | 7.2 | 9.1 | 2.3 | 0.5 |
| **Profiad rhwymedigaethau a enillwyd** | | | | |
| Swm | 212 | 76 | (2,383) | (41) |
| % o rwymedigaethau'r cynllun | 0.7 | 0.3 | 14.0 | -0.2 |

Tybir bod rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn yn cael eu heithrio o asedau os oes blwydd-daliadau cyfatebol.

Mae pob pensiynwr yn derbyn cynnydd gwarantedig o 3% y flwyddyn o dan delerau'r Cynllun am wasanaeth hyd at 6 Ebrill 1997. Caiff gwasanaeth ar ôl 6 Ebrill 1997 ei drin yn unol â Deddf Pensiynau 1995. Caiff unrhyw iawndal pellach am y cynnydd mewn costau byw ei ystyried yn flynyddol.

Yn 2017 roedd y cyfraniad premiwm blynyddol yn £1,458,545 (2016: £1,511,566). Yn gynwysedig yn y premiwm blynyddol roedd cyfraniad o £573,772 (2016: £442,043) ar gyfer y cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Roedd gwarged gan y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r Cynllun wedi'i gyfansoddi fel ymddiriedolaeth ac mae wedi'i wahanu oddi wrth y cyflogwr yn gyfreithiol ac yn ariannol. Mae gan yr ymddiriedolwyr gyfrifoldebau mewn perthynas â'r ymddiriedolaeth sydd wedi'u nodi yng ngweithred a rheolau'r ymddiriedolaeth. Yn gryno, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am:

- weinyddu a rheoli'r cynllun at ddibenion Deddf Cyllid 2004
- penodi neu ddiswyddo actiwari at ddibenion y cynllun, fel sy'n addas a phriodol ym marn yr ymddiriedolwyr
- penodi neu ddiswyddo archwilydd at ddibenion Deddf Pensiynau 1995, ac yn unol â'r ddeddf honno
- sicrhau bod datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio ar gael i aelodau'r cynllun, buddiolwyr a phartïon penodol eraill ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun
- darparu gwybodaeth benodol arall am y cynllun ar ffurf adroddiad blynyddol
- paratoi a chynnal datganiad ysgrifenedig o egwyddorion buddsoddi
- cytuno â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar swm ac amseru cyfraniadau sydd i'w gwneud gan aelodau a gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a sicrhau eu bod yn cael eu talu.

Mae'r Cynllun yn wynebu llawer o risgiau, fel sy'n wir am y rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig eraill, gan gynnwys:

- y risg na fydd enillion buddsoddi ar asedau yn y dyfodol yn ddigon i fodloni'r amcan cyllido,
- y risg y bydd chwyddiant yn wahanol i'r hyn a dybiwyd,
- y risg na fyd gwerth rhwymedigaethau yn lleihau yn unol â lleihad yng ngwerth asedau, gan leihau lefel gyllido'r cynllun,
- y risg y bydd newidiadau annisgwyl mewn marwoldeb yn y dyfodol, neu ffactorau eraill, yn cynyddu cost buddion,
- y risg na fydd y Cyngor yn gallu talu cyfraniadau neu wneud iawn am ddiffygion yn y dyfodol
- y risg sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd y gallai aelodau neu bobl eraill arfer opsiynau yn erbyn y Cynllun
- y risg o newidiadau deddfwriaethol niweidiol.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Oherwydd y risgiau uchod, gall unrhyw brofiad niweidiol sy'n deillio ohonynt olygu bod angen gwneud cyfraniadau ychwanegol yn y dyfodol.

Bydd union lefel y cyfraniadau a'r cyfnod y byddai ei angen i'w talu yn dibynnu ar drafodaethau rhwng y Cyngor ac ymddiriedolwyr y cynllun, fel arfer yn dilyn prisiad tair blynedd.

Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar asesiad o rwymedigaethau'r cynllun ar 31 Rhagfyr 2015. Mae'r un fethodoleg wedi'i defnyddio i gyfrifo'r materion sensitif.

Mae'r rhain wedi'u seilio ar ganlyniadau rhagarweiniol y prisiad actiwaraidd tair blynedd ffurfiol ar 1 Ebrill 2015, sydd hefyd yn ystyried buddiannau cronnus, enillion disgwyliedig ar fuddsoddiadau, cyfraniadau gwirioneddol a llif arian, gan addasu'r canlyniadau i ystyried y tybiaethau IAS19 a nodir uchod.

Felly, mae'r canlyniadau a'r materion sensitif yn cael eu cyfrifo yn fras.

Pe bai data gwirioneddol yr aelodau ar y pryd wedi'i ddefnyddio i gyfrifo rhwymedigaethau a materion sensitif ar 31 Rhagfyr 2016, mae'n bosibl y byddai'r canlyniadau'n wahanol. Fodd bynnag, mae'n debyg na fyddai unrhyw wahaniaeth yn arwyddocaol.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn darparu cynllun cyfraniadau diffiniedig hefyd.

## 20 YMRWYMIADAU DAN BRYDLESI

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm isafswm taliadau prydlesi yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredol ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol:

Rhaid cofnodi cyfanswm gwerthoedd prydlesi yn erbyn pob categori terfynu, h.y. lle bo prydles yn cynnwys taliad blynyddol o £1,000 dros dymor o 10 mlynedd, rhaid cofnodi £1,000 dan derfyn <1 blwyddyn, £4,000 dan derfyn 2–5 mlynedd a £5,000 dan derfyn > 5 mlynedd.

| | 31 Rhag 2017 | 31 Rhag 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Mae rhwymedigaeth o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys: Tir ac adeiladau** | | |
| Hyd at flwyddyn | 718 | 806 |
| Rhwng blwyddyn a 5 mlynedd | 85 | 37 |
| 5 mlynedd a mwy | 231 | 177 |
| | **1,034** | **1,020** |

## 21 YMRWYMIADAU CYFALAF

Nid oes gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol unrhyw ymrwymiadau cyfalaf dan gontract sydd heb eu cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn ar 31 Rhagfyr 2017. (2016: Nid oes gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol unrhyw ymrwymiadau cyfalaf dan gontract sydd heb eu cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn ar 31 Rhagfyr 2016.)

## 22 TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Ni chafwyd unrhyw drafodion gyda phartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017, ar wahân i'r ffioedd a'r treuliau a dalwyd i aelodau'r Cyngor fel y datgelir yn nodyn 7 i'r cyfrifon. Mae manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol y Cyngor i'w gweld ar dudalen 58.

(2016: Ni chafwyd unrhyw drafodion gyda phartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016, ar wahân i'r ffioedd a'r treuliau a dalwyd i aelodau'r Cyngor fel y datgelir yn nodyn 7 i'r cyfrifon.)

## 23 RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN

Nid oes gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol rwymedigaethau wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2017 (2016: Nid oedd unrhyw rwymedigaethau wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2016.)

## 24 DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu (y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd) y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar y dyddiad a ardystiwyd gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol.

Cyn diwedd y flwyddyn, penderfynodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol symud rhai swyddogaethau i Birmingham. Fodd bynnag, ar y dyddiad adrodd, nid oedd y cynllun yn cynnwys digon o fanylion ar naill ai'r rolau yr effeithir arnynt, cost neu amseriad y symudiad hwn. Felly, yn unol ag IAS 37, nid oes darpariaeth wedi'i chydnabod yn y datganiadau ariannol hyn.

Ers i'r flwyddyn ddod i ben, mae'r cynlluniau wedi'u datblygu ymhellach; disgwylir nawr y bydd y symudiad yn cynnwys tua 200 o swyddi o fewn yr adran Gofrestru a gwasanaethau cymorth gweithredol. Bydd pencadlys cenedlaethol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn aros yn Llundain.

Dechreuodd ymgynghoriad cyfunol o staff sy'n gweithio yn y swyddi a nodwyd fel y rhai sy'n symud i Birmingham yn elfen 1 (rhwng Hydref 2018 a Chwefror 2019) ym mis Chwefror 2018 a daeth i ben ar 5 Ebrill 2018. Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori unigol â staff rhwng 9 Ebrill ac 1 Mai 2018. Un o ganlyniadau'r ymgynghoriadau â'r staff oedd awgrym cliriach o gost y symud a'r gallu i gynllunio'r gweithgareddau angenrheidiol i symud swyddi i'r swyddfeydd newydd.

Yn ei gyfarfod ym mis Mai, derbyniodd y Cyngor ddiweddariad llawn ar gynnydd y rhaglen. Roedd hwn yn cynnwys:

- Arfarniad o'r adeilad a ddewiswyd a'r opsiynau.
- Canlyniad yr ymgynghoriad staff ac achos ariannol diwygiedig y rhaglen.
- Costau eraill ac agweddau cynllunio gofynnol er mwyn i'r Cyngor allu gwneud penderfyniad clir a thryloyw ar y symud ac elfennau ymgynghori.



21

# 21 Cynghorwyr

### Bancwyr

Lloyds Banking Group, Corporate Markets, 33 Old Broad Street, Llundain

### Cynghorwyr cyfreithiol

Capsticks Solicitors LLP, 1 St George's House East, St George's Road, Wimbledon, Llundain, SW19 4DR

Blake Morgan LLP, Watchmaker Court, 33 St John's Lane, Llundain, EC1M 4DB

### Archwilwyr allanol

haysmacintyre, 26 Red Lion Square, Llundain WC1R 4AG

The Comptroller and Auditor General, National Audit Office

157–197 Buckingham Palace Road, Victoria, Llundain SW1W 9SP

### Archwilwyr mewnol

Mazars LLP, Tower Bridge House, St Katharine's Way, Llundain E1W 1DD

